

Rhif ymchwil gymdeithasol: 89/2026

Dyddiad cyhoeddi: 29/09/2026

Dadansoddiad o Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in English.

Dadansoddiad o Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Awduron: Pete Dalton a Sarah McNicol



Adroddiad Ymchwil Llawn: Dalton, P a McNicol, S. (2026). Dadansoddiad
o Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 89/2026.

Ar gael yn: [Ystadegau ac ymchwil | Cyhoeddwyd | LLYW.CYMRU](#)

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr is-adran diwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Diwylliant@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau	5
Rhestr o ffigurau	7
Rhestr Terminoleg	8
1. Cyflwyniad	9
1.1. Amcanion yr ymchwil	10
1.2. Cwestiynau ymchwil	10
2. Methodoleg	12
2.1. Dull	12
2.1.1. Ffynonellau data	12
2.1.2. Cydgrynhoi data	12
2.1.3. Dadansoddiad meintiol	12
2.1.4. Dadansoddiad ansoddol	14
2.1.5. Ffynonellau data ychwanegol	15
3. Newidiadau yn yr Hawliau Craidd	16
4. Rhwystrau a galluogwyr i'r fodloni Hawliau Craidd	20
4.1. Staffio	20
4.1.1. Staff cymwysedig	21
Ffynhonnell: DASLICC 13	23
4.1.2. Gwirfoddolwyr	23
4.2. Mannau gwasanaeth ac oriau agor	23
4.3. Adnoddau ariannol	24
4.4. Crynodeb	26
5. Newidiadau yng nghanlyniadau Dangosyddion Ansawdd SLICC	28
5.1. DA 3: Cymorth ar gyfer datblygiad unigol	28
5.2. DA 4: Cymorth ar gyfer iechyd a lles	29
5.3. DA 6: Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau llyfrgell	30
5.4. DA 7: Lleoliad mannau gwasanaeth	30
5.5. DA 9: Deunydd darllen cyfoes a phriodol	31
5.6. DA 10: Adnoddau yn y Gymraeg	31
5.7. DA 11: Mynediad ar-lein	32
5.8. DA 12: Cyflenwi ceisiadau	32
5.9. DA 13: Lefelau staffio a chymwysterau	33
5.10. DA 16: Orlau agor	34

5.11.	Crynodeb.....	35
6.	Cyfraniad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	36
6.1.	Trosolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	36
6.2.	Cyfraniad at y Saith Nod Cenedlaethol	37
6.2.1.	Cymru Lewyrchus	37
6.2.2.	Cymru Gydnerth.....	38
6.2.3.	Cymru Iachach.....	39
6.2.4.	Cymru sy'n Fwy Cyfartal	40
6.2.5.	Cymru o Gymunedau Cydlynus	41
6.2.6.	Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	42
6.2.7.	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.....	43
6.3.	Enghreifftiau o lyfrgelloedd Cymru	43
6.3.1.	Cryfhau lles teuluol trwy gyngor a chysylltiad cymunedol	43
6.3.2.	Cefnogi integreiddio a chysylltiad cymunedol i drigolion o Wcráin	44
6.3.3.	Cefnogi sgiliau a dyheadau pobl ifanc drwy Stordai Creadigol	44
6.3.4.	Cefnogi dysgu ieithoedd, hyder a chysylltiadau cymdeithasol drwy grwpiau sgwrsio Cymraeg	45
6.3.5.	Lleihau tlodi digidol ac anghydraddoldeb drwy fenthycia dyfeisiau a mynediad at dechnoleg	45
7.	Newidiadau mewn gwariant ar stoc.....	46
7.1.	Crynodeb	49
8.	Gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg.....	51
8.1.	Crynodeb	53
9.	Newidiadau yn y dyraniad adnoddau o ran y gwariant ar e-adnoddau.....	54
10.	Newidiadau mewn achosion o fenthycia gan y gwasanaeth llyfrgell	56
10.1.	Benthyciadau llyfrau ar gyfer oedolion.....	58
10.2.	Benthyciadau llyfrau ar gyfer plant	59
10.3.	Benthyciadau Clyweledol	60
10.4.	Benthyciadau yn y Gymraeg	61
10.5.	E-fenthyciadau.....	62
10.6.	Crynodeb.....	64
11.	Newidiadau mewn oriau agor.....	66
11.1.	Crynodeb.....	68
12.	Newidiadau mewn manau gwasanaeth.....	70

13.	Newidiadau mewn ymgysylltiad digidol	72
13.1.	Mynediad ar-lein	72
13.2.	Ymweliadau â gwefannau	73
13.3.	Crynodeb	75
14.	Newidiadau mewn gwasanaethau sydd wedi'u targedu at grwpiau ac unigolion difreintiedig neu leiafrifol	77
14.1.	Cefnogi lles a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol	78
14.1.1.	Enghraifft ddarluniadol: gwerth y Gwasanaeth Danfon i'r Cartref	78
14.1.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi cynhwysiant cymdeithasol ymhlith oedolion ifanc	79
14.1.3.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a chysylltiad cymdeithasol trwy weithgareddau hybiau cymunedol	79
14.2.	Cefnogi pobl ag anableddau, dementia ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	79
14.2.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi annibyniaeth a newidiadau bywyd i unigolion ag anawsterau dysgu	80
14.2.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi annibyniaeth a lles i bobl sy'n byw gyda dementia	80
14.3.	Cefnogi ffoaduriaid, mudwyr a chymunedau newydd	81
14.3.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi integreiddio ffoaduriaid a chysylltiad cymunedol trwy weithio mewn partneriaeth	81
14.3.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi integreiddio ffoaduriaid a mynediad at wasanaethau	81
14.4.	Cefnogi pobl sy'n profi caledi economaidd, digartrefedd a bregusrwydd cysylltiedig	82
14.4.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi unigolyn digartref i adfer annibyniaeth ..	82
14.4.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles yn ystod caledi ariannol drwy fannau cynnes	82
14.5.	Mynd i'r afael ag allgáu digidol a galluogi mynediad at wasanaethau	82
14.5.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi cynhwysiant digidol a chysylltiad drwy fenthycy cyfrifiaduron llechen	83
14.5.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi pobl hŷn ac agored i niwed drwy gymorth digidol yn y cartref	83
14.5.3.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a chysylltiad drwy fynediad a dysgu digidol	83
14.6.	Cefnogi pobl ifanc a lleihau'r risg o ymddieithrio	83
14.6.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi sgiliau, hyder a chyflogadwyedd pobl ifanc drwy Ofodau Gwneud	84

14.6.2.	Enghraifft ddarluniadol: ennyn diddordeb pobl ifanc a chefnogi creadigrwydd drwy weithgareddau celfyddydol	84
14.6.3.	Enghraifft ddarluniadol: ymgysylltu â phlant a chryfhau partneriaethau ag ysgolion drwy ymweliadau â llyfrgelloedd.....	85
15.	Effaith y pandemig coronafeirws COVID-19.....	86
15.1.	Patrymau defnydd	86
15.1.1.	Enghraifft ddarluniadol: gwerth y gwasanaeth llyfrgell i'r cartref.....	87
15.1.2.	Enghraifft ddarluniadol: lleihau ynysigrwydd drwy gynhwysiant digidol a gweithio mewn partneriaeth	88
15.2.	Strategaeth a chynllunio	89
15.3.	Darparu gweithgareddau, digwyddiadau a hyfforddiant cwsmeriaid.....	89
15.3.1.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol drwy grwpiau darllen ar-lein	90
15.3.2.	Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles trigolion cartrefi gofal drwy weithgareddau allgymorth digidol.....	90
15.3.3.	Enghraifft ddarluniadol: meithrin hyder digidol a chysylltiad cymdeithasol drwy grwpiau llyfrau rhithwir	91
15.4.	Bodlonrwydd cwsmeriaid ac effaith gwasanaethau llyfrgell	92
15.5.	Staffio a gwirfoddolwyr	92
15.5.1.	Enghraifft ddarluniadol: adleoli staff llyfrgell i gefnogi trigolion agored i niwed	93
15.5.2.	Enghraifft ddarluniadol: staff llyfrgell yn cefnogi lles a chysylltiad cymunedol	93
15.6.	Crynodeb.....	94
16.	Casgliadau	95
	Atodiad A: Newidiadau yn y data ynghylch Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd...	98
	Atodiad B: Dosbarthiad awdurdodau lleol	101
	Atodiad C: Crynodeb o'r dadansoddiad ystadegol	102
	Atodiad D : Hawliau Craidd y Chweched Fframwaith	106

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Gwasanaethau llyfrgell yn bodloni Hawliau Craidd yn llawn (n=22)	17
Tabl 4.1: Staffio am bob pen o'r boblogaeth	21
Tabl 4.2: Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth.....	22
Tabl 4.3: Staff cymwysedig fel canran o gyfanswm y staff.....	23
Tabl 4.4: Cyfanswm gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth.....	26
Tabl 5.1: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 3 (n=22)	28
Tabl 5.2: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 4 (n=22)	29
Tabl 5.3: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 6 (n=22)	30
Tabl 5.4: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 7 (n=22)	30
Tabl 5.5: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 9 (n=22)	31
Tabl 5.6: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 10 (n=22)	32
Tabl 5.7: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 11 (n=22)	32
Tabl 5.8: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 12 (n=22)	33
Tabl 5.9: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 13 (n=22)	34
Tabl 5.10: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 16 (n=22)	35
Tabl 7.1: Gwariant ar stoc am bob pen o'r boblogaeth	46
Tabl 7.2: Canran o'r gwariant ar stoc a ddyrannwyd i adnoddau ar gyfer plant	48
Tabl 8.1: Data gwariant am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg	51
Tabl 9.1: Gwariant ar e-adnoddau	54
Tabl 10.1: Benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth.....	57
Tabl 10.2: Benthyciadau ar gyfer oedolion am bob pen o'r boblogaeth	59
Tabl 10.3: Benthyciadau ar gyfer plant am bob pen o'r boblogaeth	60
Tabl 10.4: Benthyciadau clyweledol am bob pen o'r boblogaeth	61
Tabl 10.5: Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth.....	62
Tabl 10.6: E-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth.....	64
Tabl 11.1: Canolrif yr oriau agor dan ofal staff	67
Tabl 13.1: Dyfeisiau fesul 10,000 o'r boblogaeth drigolion sy'n rhoi mynediad i'r rhyngrwyd i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd sefydlog.....	73
Tabl 13.2: Ymweliadau â gwefannau am bob pen o'r boblogaeth	75
Tabl C.1: Cyfanswm y staff ac oriau agor	102
Tabl C.2: Orlau agor a chyfanswm y benthyciadau.....	102
Tabl C.3: Gwariant ar adnoddau a chyfanswm y benthyciadau	102
Tabl C.4: Cyfanswm y gwariant ar adnoddau a benthyciadau ar gyfer oedolion	102

Tabl C.5: Gwariant ar adnoddau i blant a benthyciadau ar gyfer plant	103
Tabl C.6: Gwariant ar e-adnoddau a benthyciadau e-adnoddau	103
Tabl C.7: Cyfanswm y gwariant ar adnoddau a gwariant ar e-adnoddau.....	103
Tabl C.8: Adnoddau yn y Gymraeg a gwariant ar y Gymraeg.....	103
Tabl C.9: Gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau trefol/gwledig	104
Tabl C.10: Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau trefol/gwledig.....	104
Tabl C.11: Gwariant ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.....	104
Tabl C.12: Benthyciadau ar gyfer oedolion mewn awdurdodau trefol a gwledig	104
Tabl C.13: Cyfanswm y benthyciadau a staff cymwysedig	105
Tabl C.14: Cyfanswm yr eitemau a fenthycwyd a chyfanswm y staff.....	105
Tabl C.15: Newid yn y ddarpariaeth symudol mewn awdurdodau trefol/gwledig	105
Tabl C.16: Cyfanswm y staff a chyfanswm yn mynychu digwyddiadau	105

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â niferoedd staff.....	20
Ffigur 4.2: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â gwariant refeniw	25
Ffigur 4.3: Cyd-destun ehangach ar gyfer staffio a gwariant.....	27
Ffigur 6.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer mynychu digwyddiadau.....	42
Ffigur 7.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar stoc	47
Ffigur 7.2: Gwariant canolrifol fesul eitem.....	48
Ffigur 7.3: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar adnoddau ar gyfer plant	49
Ffigur 7.4: Cyd-destun ehangach ar gyfer y gwariant ar adnoddau llyfrgell	50
Ffigur 8.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg	52
Ffigur 9.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer y gwariant ar e-adnoddau	55
Ffigur 10.1: Tueddiadau yng nghyfanswm y benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth.....	56
Ffigur 10.2: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â chategoriâu benthyciadau.....	58
Ffigur 10.3: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas ag e-fenthyciadau.....	63
Ffigur 10.4: Cyd-destun ehangach ar gyfer benthyciadau ac achosion o fenthycia.....	65
Ffigur 11.1: Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ar draws llyfrgelloedd Cymru	66
Ffigur 11.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer oriau agor.....	69
Ffigur 12.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer darpariaeth statudol, colli llyfrgelloedd a lleoliad mannau gwasanaeth	71
Ffigur 13.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol ar gyfer ymweliadau â gwefannau	74
Ffigur 13.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer ymweliadau â gwefannau	76
Ffigur 15.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer achosion o fenthycia llyfrau, ymweliadau mewn person ac ymweliadau â llyfrgelloedd.....	88
Ffigur 15.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau	91
Ffigur 15.3: Cyd-destun ehangach ar gyfer niferoedd gwirfoddolwyr	94

Rhestr Terminoleg

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae ADY yn cyfeirio at blant, pobl ifanc neu oedolion ag anghenion dysgu, corfforol neu synhwyraidd sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddysgu o gymharu â phobl o'r un oedran.

Clyweledol (AV)

Adnoddau clyweledol yw unrhyw ddeunyddiau wedi'u recordio sy'n cyfleu gwybodaeth drwy sain a/neu ddelweddau symudol.

Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)

Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn mesur y newid cyfartalog dros amser mewn prisiau a delir gan ddefnyddwyr am "fasged" gynrychioliadol o nwyddau a gwasanaethau.

Hawl Graidd (HG)

Hawliau Craidd yw'r hawliau sylfaenol y gall aelodau'r cyhoedd eu disgwyl gan eu gwasanaeth llyfrgell.

Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI)

Yn gydradd ag oriau gwaith aelod staff llawnamser.

Amrediad Rhyngchwartel (IQR)

Mesur ystadegol o ledaeniad data. Dyma'r gwahaniaeth rhwng 75 a 25 canradd y data.

System Rheoli Llyfrgelloedd (LMS)

Meddalwedd yw LMS sydd wedi'i chynllunio i reoli gweithrediadau llyfrgell gan gynnwys catalogio, benthydwyr a benthyciadau.

Dangosydd Ansawdd (DA)

Mae dangosyddion ansawdd yn mesur perfformiad gwasanaethau llyfrgell Cymru. Mae gan rai dargedau a gellir defnyddio eraill ar gyfer meincodi a monitro.

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC)

Mae'r SLICC yn darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer asesu perfformiad a datblygiad gwasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol.

1. Cyflwyniad

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi llythrennedd, addysg, cynhwysiant digidol, cyfranogiad cymunedol a lles. O dan ddarpariaethau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i'r holl drigolion sy'n dymuno ei ddefnyddio. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ddyletswydd statudol hon yn cael ei chyflawni. Yng Nghymru, mae'r oruchwyliaeth hon yn cael ei harfer drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC), sy'n darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer asesu perfformiad a datblygiad gwasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol.

Yn rhan o broses SLICC, mae'r asesydd annibynnol yn cynhyrchu adroddiad asesu ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob awdurdod. Caiff yr adroddiadau eu cymedroli gan y Grŵp Cyfeirio Cydweithwyr sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, uwch lyfrgellwyr cyhoeddus a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Eu rôl yw sicrhau cysondeb ar draws yr adroddiadau a chynrychioli llais y sector. Mae awdurdodau lleol yn cael y cyfle i wirio ffeithiau'r adroddiadau cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n ffurfiol.

Mae'r SLICC yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu corff cyson o dystiolaeth am ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru. Mae pob fframwaith yn cyfuno amrywiaeth o wybodaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys data ar Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd, a hynny ochr yn ochr â thystiolaeth naratif fel datganiadau effaith, astudiaethau achos, a datganiadau ar gyfeiriad strategol. At ei gilydd, mae'r elfennau hyn yn rhoi cipolwg ar yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau llyfrgell, patrymau defnyddio gwasanaethau, a'r canlyniadau a'r effeithiau cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth a gesglir drwy'r SLICC yn cyfrannu at y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth statudol, llywio datblygiad polisïau, ac ategu eiriolaeth a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â dyfodol gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus.

Roedd [Chweched Fframwaith yr SLICC](#) yn rhedeg o 2017 i 2020 yn wreiddiol. Fodd bynnag, oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig coronafeirws COVID-19, estynnwyd y fframwaith tan fis Mawrth 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, addaswyd y gofynion adrodd dros dro. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio set ddata lai yn ystod camau mwyaf aciwt y pandemig. Adolygwyd y fframwaith yn ddiweddarach trwy atodiad i gwmpasu blynyddoedd adrodd 2023 i 2024 a 2024 i 2025. Felly, dros ei oes estynedig, cynhyrchodd y Chweched Fframwaith gorff dystiolaeth dros wyth mlynedd yn dogfennu newidiadau yn yr hyn a ddarparwyd gan lyfrgelloedd yn ystod cyfnod a oedd yn cynnwys amodau cyn y pandemig a'r heriau gweithredol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Roedd cwblhau'r cylch adrodd terfynol yn 2025 yn golygu bod y set ddata lawn ar gyfer y Chweched Fframwaith ar gael i'w dadansoddi'n ôl-weithredol. Rhoddodd hyn gyfle i archwilio tueddiadau yn yr hyn a ddarparwyd gan lyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru dros gyfnod y fframwaith. O ganlyniad, ym mis Ionawr 2026, comisiynwyd Evidence To Action Limited gan Lywodraeth Cymru i gynnal y dadansoddiad hwn. Cynhaliwyd y prosiect rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026.

Mae'r dadansoddiad yn ystyried patrymau yn y dangosyddion meintiol, ochr yn ochr â mewnwelediadau a dynnwyd o'r dystiolaeth ansoddol gysylltiedig a gyflwynwyd gan wasanaethau llyfrgell. Rhoddir sylw arbennig i nodi sut y newidiodd gwasanaethau dros amser, sut y gwnaethant ymateb i'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, a'r hyn y mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn ei awgrymu am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o fewn y sector.

1.1. Amcanion yr ymchwil

Nodau'r ymchwil yw:

- nodi'r tueddiadau sy'n bresennol yn y data yn y Chweched Fframwaith a gyflenwyd gan wasanaethau llyfrgell yng Nghymru
- darparu mewnwelediad i'r newidiadau mewn gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru yn ystod Cyfnod y Chweched Fframwaith

Trwy dynnu ynghyd y dystiolaeth a gasglwyd ar draws cyfnod y fframwaith, roedd yr ymchwil yn ceisio darparu dealltwriaeth gliriach o ddatblygiadau o fewn y sector a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth sy'n ategu polisi, gwaith cynllunio a datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.

1.2. Cwestiynau ymchwil

Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cytunwyd ar set o gwestiynau ymchwil. Nod yr ymchwil oedd archwilio'r data a oedd ar gael a, chyn belled ag y bo modd, darparu atebion i'r cwestiynau canlynol:

- I ba raddau y mae canlyniadau Hawliau Craidd SLICC wedi newid dros gyfnod y Chweched Fframwaith?
- Pa rwystrau a galluogwyr a effeithiodd ar allu gwasanaethau Llyfrgell i fodloni Hawliau Craidd SLICC?
- I ba raddau y mae canlyniadau Dangosyddion Ansawdd SLICC wedi newid dros gyfnod y Chweched Fframwaith?
- Sut mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru?
- I ba raddau y mae'r gwariant ar stoc mewn gwasanaethau llyfrgell wedi newid dros gyfnod Chweched Fframwaith SLICC?
- I ba raddau y mae'r gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg wedi newid dros gyfnod y Chweched Fframwaith?
- I ba raddau y bu newidiadau yn y dyraniad adnoddau sy'n cael ei wario ar e-adnoddau?

- I ba raddau y bu newidiadau o ran benthyciadau gan wasanaethau llyfrgell yn ystod cyfnod Chweched Fframwaith SLICC?
- A yw oriau agor gwasanaethau llyfrgell wedi newid dros gyfnod Chweched Fframwaith SLICC?
- Pa newidiadau mewn mannau gwasanaeth sydd wedi digwydd dros gyfnod Chweched Fframwaith SLICC?
- I ba raddau y bu newidiadau mewn ymgysylltiad digidol dros gyfnod Chweched Fframwaith SLICC?
- A fu newidiadau mewn gwasanaethau/gweithgareddau sy'n targedu grwpiau neu unigolion difreintiedig neu leiafrifol?
- Beth gall data Chweched Fframwaith SLICC ei ddweud wrthym am effaith y pandemig COVID-19 ar wasanaethau Llyfrgell Cymru?

2. Methodoleg

Mae'r canlynol yn amlinellu'r dull a gymerwyd i ddadansoddi data.

2.1. Dull

Defnyddiodd yr ymchwil ddull dadansoddol desg a gynlluniwyd i wneud defnydd llawn a phriodol o set ddata bresennol Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC). Am fod yr astudiaeth yn un ôl-weithredol a bod y data eisoes wedi'i gasglu dros gyfnod o wyth mlynedd, dadansoddiad strwythuredig o'r deunydd hwn oedd y ffordd fwyaf cymesur a chadarn o gyflawni amcanion yr ymchwil. Mae'r dull yn gyson ag egwyddorion y [Llyfr Gwyrdd](#), y [Llyfr Magenta](#) a'r [Llyfr AQuA](#), sy'n pwysleisio tryloywder, dogfennaeth glir, atgynhyrchadwyedd a rhesymeg sy'n cael ei llywio gan dystiolaeth ar gyfer dewisiadau dadansoddol.

2.1.1. Ffynonellau data

Ar ffurf taenlenni Excel a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru oedd y brif ffynhonnell ddata. Defnyddiwyd y rhain i gynhyrchu ffurflenni SLICC ar gyfer pob un o wyth mlynedd y Chweched Fframwaith (2017 i 2025). Yn ogystal, cynhwyswyd data ansoddol o adroddiadau SLICC sydd ar gael yn gyhoeddus.

2.1.2. Cydgrynhoi data

Tasg gynnar sylweddol oedd paratoi'r set ddata i'w dadansoddi. Cadwyd y data o 2017 i 2025 ar draws sawl taenlen, gan adlewyrchu newidiadau o ran dangosyddion, diffiniadau ac arferion adrodd dros oes estynedig y Chweched Fframwaith. Cafodd y data ei gydgrynhoi mewn un daenlen a gafodd ei chysoni. Roedd y daenlen yn galluogi asesiad cadarn o ble y gellid cymharu dangosyddion ar draws y cyfnod llawn; ble mai dim ond cymariaethau rhannol oedd yn bosibl; a ble mae data ar goll neu'n anghyson, er enghraifft, oherwydd problemau o ran mudo data gyda System Rheoli Llyfrgelloedd (LMS) Cymru yn 2024 i 2025 ac o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Sicrhodd y cam paratoadol hwn fod gwaith meintiol dilynol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glir o strwythur, cryfderau a chyfyngiadau'r set ddata.

Darperir crynodeb o'r newidiadau yn y data ynghylch Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd dros gyfnod y Chweched Fframwaith yn [Atodiad A](#). Mae hyn yn disgrifio'r newidiadau mewn diffiniadau ac argaeledd data, ac yn myfyrio ar effaith y newidiadau hyn ar ddadansoddi data.

2.1.3. Dadansoddiad meintiol

O ran y data meintiol, defnyddiodd y dadansoddiad ddata a oedd ar gael yn y taenlenni a ddarparwyd ar gyfer pob Dangosydd Ansawdd. Ar gyfer Hawliau Craidd, tynnwyd y data perthnasol o adroddiadau cyhoeddedig unigol. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y penderfyniad terfynol yn yr adroddiadau cyhoeddedig (bodlonwyd, bodlonwyd yn rhannol, ni fodlonwyd). Mewn rhai achosion, efallai nad yw hyn yn cyd-fynd â phenderfyniadau a adroddwyd gan awdurdodau lleol.

Lle na ddarparwyd ffigurau'n benodol ar gyfer mesur penodol mewn un neu fwy o flynyddoedd, ond y gellid eu cyfrifo gan ddefnyddio data arall a oedd ar gael, cafodd y gwerthoedd hyn eu deillio a'u hychwanegu at y set ddata a goladwyd. Er enghraifft, cyfrifwyd ffigurau cyllidebau llyfrau gan ddefnyddio'r ganran gwariant ar ddeunyddiau a adroddwyd a chyfanswm y gwariant refeniw.

Lle roedd awdurdodau'n adrodd ffigurau gan ddefnyddio gwahanol lefelau o fanwl gywirdeb, cafodd y gwerthoedd eu talgrynnu fel bod pob awdurdod a phob blwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r un nifer o leoedd degol ar gyfer dangosydd penodol.

Pan oedd data ar goll ar gyfer blwyddyn benodol, ond roedd gwerthoedd ar gael ar gyfer y blynyddoedd blaenorol a dilynol, a lle nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol yn y ffigurau a adroddwyd, amcangyfrifwyd cyfanswm y gwerth coll trwy gyfartaleddu'r flwyddyn cyn ac ar ôl y flwyddyn honno. Gadawyd y gwerth cyfatebol am bob pen o'r boblogaeth fel "heb fod ar gael", am fod y dull dadansoddol a ddefnyddir ar gyfer data am bob pen o'r boblogaeth yn wahanol i'r dull a gymhwysir i'r cyfansymiau. Lle defnyddir ffigurau am bob pen o'r boblogaeth yn yr adroddiad hwn, mae'r rhain yn cyfeirio at fesul 1,000 o'r boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Mae'r dadansoddiad meintiol yn canolbwyntio ar nodi tueddiadau ar draws y cyfnod. Cyfrifwyd ystadegau disgrifiadol i archwilio tueddiadau mewn data canolrif, cymedr, amrediad a chwarterl ar gyfer pob blwyddyn er mwyn amlygu newidiadau mewn meysydd allweddol megis benthyciadau, oriau agor, manau gwasanaeth, gweithgareddau llyfrgell, darpariaeth yn y Gymraeg, staffio, ymgysylltiad digidol a chyllidebau. Yn ogystal, defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau canrannol i olrhain newidiadau dros amser. Mae'r dull hwn yn cyfrifo'r newid canrannol blynyddol mewn data ac yn caniatáu ar gyfer cymariaethau safonedig o dueddiadau rhwng setiau data. Defnyddiwyd blwyddyn gyntaf y Chwched Fframwaith, 2017 i 2018, fel y flwyddyn sylfaen (100%) i'w chymharu â blynyddoedd dilynol. Ar gyfer mesurau gwariant, mae'r broses hon yn cynnwys cymhariaeth â thueddiadau chwyddiant gan ddefnyddio data Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Mae'r dadansoddiad meintiol hefyd yn ymchwilio i ganfod a oes tystiolaeth i gynnal damcaniaeth o gydberthnasau rhwng dangosyddion neu bwyntiau data penodol, er enghraifft, rhwng y gwariant ar adnoddau a'r benthyciadau. Defnyddir cyfernod cydberthynas Pearson i archwilio cydberthnasau o'r fath dros gyfnod y Fframwaith (a chyfrifir cyfernod cydberthyniad trefn restrol Spearman fel gwiriad adio). Yn ogystal, archwilir gwahaniaethau posibl rhwng awdurdodau llyfrgell trefol a gwledig gan ddefnyddio profion U Mann-Whitney. Mae rhestr o'r awdurdodau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai trefol a gwledig yn ôl [MapDataCymru](#) i'w chael yn [Atodiad B](#). Defnyddiwyd prawf-t 'Myfyriwr' i archwilio'r gwahaniaeth rhwng data cyn ac ar ôl COVID-19. Mae manylion y canlyniadau a gafwyd o brofion ystadegol i'w gweld yn [Atodiad C](#).

2.1.4. Dadansoddiad ansoddol

Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth ansoddol a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol gan gynnwys:

- astudiaethau achos a gyflwynwyd rhwng 2017 a 2018, a rhwng 2021 a 2022
- datganiadau effaith a gyflwynwyd o 2022 i 2023 ymlaen
- datganiadau strategol sy'n disgrifio sut mae gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi cenedlaethol a lleol a gyflwynwyd o 2017 i 2018 ymlaen
- datganiadau o gyfeiriad yn y dyfodol yn amlinellu datblygiadau arfaethedig i wasanaethau a gyflwynwyd rhwng 2017 i 2018 2 2019 i 2020, a rhwng 2022 i 2023 a 2024 i 2025

Fel arfer, mae astudiaethau achos a datganiadau effaith yn disgrifio enghreifftiau penodol o weithgareddau, gwasanaethau, neu brofiadau unigol. Mae datganiadau strategol a datganiadau o gyfeiriad at y dyfodol yn tueddu i ddarparu disgrifiadau lefel uwch o flaenoriaethau gwasanaethau, aliniad polisïau a datblygiadau arfaethedig.

Cynhyrchwyd y cyflwyniadau hyn gan awdurdodau llyfrgell fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, felly fe'u dewiswyd gan y gwasanaethau eu hunain. Mae'r fformat, yr hyd a lefel y manylder yn amrywio rhwng awdurdodau ac ar draws blynyddoedd adrodd. Yn ogystal, esblygodd y fframwaith adrodd yn ystod y cyfnod, gyda datganiadau effaith yn disodli astudiaethau achos yn y blynyddoedd diweddarach.

O ganlyniad, dylid dehongli'r dystiolaeth ansoddol fel tystiolaeth ddarluniadol yn hytrach na thystiolaeth gynhwysfawr. Felly, mae'r dadansoddiad ansoddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar nodi enghreifftiau o weithgareddau, blaenoriaethau ac effeithiau a adroddwyd yn hytrach na cheisio mesur graddfa neu ddosbarthiad cyffredinol y ddarpariaeth ledled Cymru.

Dylid nodi sawl ystyriaeth fethodolegol:

- mae'r dadansoddiad yn disgrifio gweithgareddau, profiadau a chyfraniadau a hunan-adroddwyd yn hytrach na chanlyniadau a fesurwyd yn annibynnol
- nid yw amllder cyfeirio at thema yn dynodi graddfa, cyrhaeddiad nac effeithiolrwydd gweithgaredd
- ni ddylid dehongli absenoldeb cyfeiriad at thema, gweithgaredd neu grŵp fel absenoldeb darpariaeth
- gall gwahaniaethau rhwng blynyddoedd adlewyrchu newidiadau mewn arferion adrodd, blaenoriaethau polisi sy'n esblygu a chyd-destun allanol

2.1.5. Ffynonellau data ychwanegol

Lle mae data tebyg i'r hyn a adroddwyd gan wasanaethau llyfrgell Cymru ar gael gan wasanaethau llyfrgell mewn gwledydd eraill, cyfeirir at hyn mewn adran 'cyd-destun ehangach'. Mae cynnwys adrannau cyd-destun ehangach, wrth gwrs, yn dibynnu ar argaeledd data, ac nid yw'n bosibl cynnwys gwybodaeth o'r fath mewn perthynas â phob mesur SLICC. **Mae'n bwysig nodi nad yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng data o lyfrgelloedd Cymru a data mewn mannau eraill, am fod diffiniadau, cyfnodau casglu data a ffactorau eraill yn amrywio fesul gwlad.** Mae myfyrio ar gyfyngiadau posibl y setiau data allanol y cyfeirir atynt yn yr adran hon y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon. Fodd bynnag, gall y data hwn fod yn ddefnyddiol wrth roi cyd-destun ehangach i'r tueddiadau a welwyd yng Nghymru.

3. Newidiadau yn yr Hawliau Craidd

Roedd yr ymchwiler yn ceisio ateb y cwestiwn 'I ba raddau y mae canlyniadau Hawliau Craidd SLICC wedi newid dros gyfnod y Chweched Fframwaith?'

Mae Hawliau Craidd yn galluogi'r cyhoedd i wybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus. Trwy'r broses SLICC, mae'r hawliau hyn yn cael eu hunanasesu i ddechrau gan bob awdurdod cyn cael eu cymedroli gan asesydd annibynnol a Grŵp Cyfeirio i sicrhau cysondeb. Mae rhestr o'r Hawliau Craidd ar ddechrau'r Fframwaith a'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'w gweld yn [Atodiad D](#). Canlyniadau'r Hawliau Craidd a drafodir yn yr adroddiad hwn yw'r asesiadau hynny wedi'u cymedroli a gafodd eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol. Er bod meini prawf yn cael eu darparu ar gyfer pob Hawl Graidd, dylid nodi bod penderfynu a yw gwasanaeth wedi bodloni Hawl Graidd, wedi bodloni Hawl Graidd yn rhannol, neu heb ei bodloni, yn oddrychol, i ryw raddau, ac yn seiliedig ar y sylwebaeth naratif a ddarperir gan wasanaethau. Gall y ffordd y mae gwasanaethau'n cyflwyno data, a'r manylion a ddarperir mewn perthynas â Hawliau Craidd, amrywio.

Mae Tabl 3.1 yn amlinellu nifer y gwasanaethau llyfrgell sy'n bodloni pob Hawl Graidd yn llawn dros gyfnod y Chweched Fframwaith.

Tabl 3.1: Gwasanaethau llyfrgell yn bodloni Hawliau Craidd yn llawn (n=22)

Defnyddir rhywfaint o law fer yn y tabl hwn, [x] = ddim yn berthnasol.

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
HG 1: Yn Rhad ac am Ddim ac yn Agored i Bawb	22	22	22	22	22	22	22	22
HG 2: Staff Gwybodus a Chymwysedig	22	22	22	22	22	22	21	22
HG 3: Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau	22	22	22	22	22	22	22	22
HG 4: Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig	22	22	22	22	21	22	22	22
HG 5: Mannau Diogel a Hygyrch	21	22	22	22	21	22	20	18
HG 6: Benthycu a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim	20	20	20	20	21	21	21	21
HG 7: Defnydd o'r Rhyngrwyd a TG yn Rhad ac am Ddim	20	21	21	21	21	22	22	21
HG 8: Darpariaeth yn y Gymraeg	22	22	22	22	22	22	22	22
HG 9: Catalog ac Adnoddau a Rennir	22	22	22	22	22	22	22	21
HG 10: Partneriaeth i Ddarparu Gwasanaethau Newydd	20	22	22	22	22	21	22	22
HG 11: Ymgynghori â Defnyddwyr	21	21	17	19	18	17	18	19

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
HG 12: Mynediad at y Strategaeth Llyfrgelloedd	13	16	17	15	15	17	14	16
HG13: Cefnogi Sgiliau Digidol	[x]	[x]	[x]	[x]	[x]	[x]	22	22

Ffynhonnell: Hawliau Craidd SLICC

Dyma grynodeb o berfformiad gwasanaethau yn erbyn yr Hawliau Craidd drwy gydol y Chweched Fframwaith.

Bodlonwyd yr Hawliau Craidd canlynol **yn llawn gan bob gwasanaeth** drwy gydol holl flynyddoedd y Chweched Fframwaith:

- Hawl Graidd 1: Yn Rhad ac am Ddim ac yn Agored i Bawb
- Hawl Graidd 3: Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau
- Hawl Graidd 8: Darpariaeth Gymraeg
- Hawl Graidd 13: Cefnogi Sgiliau Digidol (2023 i 2025 yn unig)

Bodlonwyd yr Hawliau Craidd canlynol **yn llawn gan o leiaf 20 o wasanaethau** drwy gydol holl flynyddoedd y Chweched Fframwaith:

- Hawl Graidd 2: Staff Gwybodus a Chymwysedig
- Hawl Graidd 4: Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig
- Hawl Graidd 6: Benthycia a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim
- Hawl Graidd 7: Defnydd Rhad Ac Am Ddim o'r Rhyngrwyd a TG
- Hawl Graidd 9: Catalog ac Adnoddau i'w Rhannu
- Hawl Graidd 10: Partneriaeth i Gyflenwi Gwasanaethau Newydd

Roedd rhai amrywiadau blynyddol yn y niferoedd a oedd yn bodloni pob un o'r Hawliau Craidd hyn. Lle darparwyd gwybodaeth, gwelwyd bod y newidiadau hyn oherwydd ffactorau lleol a oedd yn effeithio ar wasanaethau unigol ac nid oedd unrhyw batrymau amlwg o ran i ba raddau y bodlonwyd gwahanol Hawliau Craidd.

Bodlonwyd yr Hawliau Craidd canlynol **yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth** drwy gydol holl flynyddoedd y Chweched Fframwaith:

- Hawl Graidd 1: Yn Rhad ac am Ddim ac yn Agored i Bawb
- Hawl Graidd 2: Staff Gwybodus a Chymwysedig
- Hawl Graidd 3: Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau

- Hawl Graidd 4: Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig
- Hawl Graidd 5: Mannau Diogel a Hygyrch
- Hawl Graidd 6: Benthycu a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim
- Hawl Graidd 8: Darpariaeth Gymraeg
- Hawl Graidd 9: Catalog ac Adnoddau i'w Rhannu
- Hawl Graidd 10: Partneriaeth i Gyflenwi Gwasanaethau Newydd
- Hawl Graidd 13: Cefnogi Sgiliau Digidol (2023 i 2025 yn unig)

Felly, bodlonwyd y rhan fwyaf o'r Hawliau Craidd yn llawn neu'n rhannol gan y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell Cymru drwy gydol y Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, roedd tair Hawl Graidd a oedd yn fwy heriol i rai gwasanaethau.

Hawl Graidd 5 (HG 5) - Mannau Diogel a Hygyrch: Perfformiodd gwasanaethau'n dda yn erbyn yr Hawl Graidd hon am lawer o gyfnod y Chweched Fframwaith; gwnaeth pob gwasanaeth fodloni HG 5 yn rhannol, os nad yn llawn, drwy gydol cyfnod y Fframwaith. Fodd bynnag, nodwyd gostyngiad yn nifer y gwasanaethau a oedd yn bodloni HG 5 yn llawn yn ystod cyfnod yr Atodiad. Mewn ychydig o achosion, roedd y rhesymau dros beidio â bodloni HG 5 yn ymwneud â chynnal a chadw adeiladau, ond roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd bodloni pob elfen o'r Hawl Graidd hon yn canfod bod y gofyniad am "oriau agor addas dan ofal staff" yn gynyddol heriol i'w fodloni yn wyneb gostyngiadau staffio.

Hawl Graidd 11 (HG 11) – Ymgynghori â Defnyddwyr: Roedd nifer y gwasanaethau a oedd yn bodloni'r Hawl Graidd hon yn llawn ar ei huchaf (21) ar ddechrau cyfnod y Fframwaith (2017 i 2018 a 2018 i 2019), ond o 2019 i 2020 ymlaen, roedd yn amrywio rhwng 17 a 19. Mae'r anhawster o ran cynnal arolygon cwsmeriaid yn ystod COVID-19 yn ddealladwy, ond nid oedd y perfformiad wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn COVID-19 erbyn diwedd y Chweched Fframwaith.

Hawl Graidd 12 (HG 12) - Mynediad at y Strategaeth Llyfrgelloedd: Roedd nifer y gwasanaethau a oedd yn bodloni'r Hawl Graidd hon yn llawn yn amrywio rhwng 13 a 17, a oedd yn golygu mai dyma oedd yr Hawl Graidd fwyaf heriol ar draws gwasanaethau llyfrgell Cymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, nodir, erbyn diwedd cyfnod y Fframwaith, fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau nad oeddent yn bodloni HG 12 yn llawn wedi gwneud hynny o leiaf yn rhannol (e.e. drwy ddarparu tystiolaeth bod ganddynt strategaeth ond heb sicrhau bod y ddogfen ar gael ar eu gwefan). Mae'n debyg bod nifer y gwasanaethau sy'n bodloni HG 12 yn cael ei dylanwadu'n rhannol gan gylchoedd cynllunio lleol. Gall hyn olygu bod gan wasanaethau fwlc rhwng diwedd un strategaeth a chyflwyno'r strategaeth nesaf.

4. Rhwystrau a galluogwyr i'r fodloni Hawliau Craidd

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'Pa rwystrau a galluogwyr a effeithiodd ar allu gwasanaethau llyfrgell i fodloni Hawliau Craidd SLICC?'


Er y gall ffactorau lleol gael effaith ar allu awdurdodau unigol i fodloni Hawliau Craidd SLICC, mae hefyd rai rhwystrau a galluogwyr sylfaenol sy'n effeithio ar allu gwasanaeth i ddarparu darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus statudol.

4.1. Staffio

Mae'r Chweched Fframwaith wedi gweld newidiadau nodedig o ran staffio llyfrgelloedd sy'n effeithio ar allu gwasanaethau i fodloni'r Hawliau Craidd. Dros gyfnod y Fframwaith, roedd nifer gynyddol o wasanaethau yn wynebu heriau wrth geisio bodloni HG 5, yr oedd staffio digonol yn elfen allweddol ohoni.

Darperir data sy'n ymwneud â staffio, yn bennaf, drwy DA 13. Mae hyn yn dangos bod cyfanswm nifer y staff llyfrgelloedd wedi gostwng yn ystod y Chweched Fframwaith. Yn genedlaethol, gostyngodd nifer y swyddi o 897.9 CALI i 781.7 CALI, sef gostyngiad o 116.2 swydd neu 12.9% (Ffig. 4.1).

Ffigur 4.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â niferoedd staff



Disgrifiad o Ffigur 4.1: Graff llinell sy'n cynnwys dwy linell liw sy'n dangos dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol mewn perthynas â niferoedd staff. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y ganran staff o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos canran y staff cymwysedig o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025.

Gostyngodd nifer ganolrifol y staff fesul 10,000 o'r boblogaeth a adroddwyd gan awdurdodau llyfrgell unigol yn raddol dros gyfnod y Fframwaith. Yn ogystal, ar draws y genedl gyfan, gostyngodd nifer y staff fesul 10,000 o'r boblogaeth bob blwyddyn ac eithrio yn 2022 i 2023, pan welwyd cynnydd bach cyn iddi gostwng eto'r flwyddyn ganlynol (Tabl 4.1).

Gostyngodd yr amrediad o gyfraddau staffio fesul 10,000 o ffigurau'r boblogaeth dros y Chweched Fframwaith. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ychwaith o wahaniaeth sylweddol mewn cyfraddau staffio mewn awdurdodau gwledig a threfol. Fel y gellid disgwyl, roedd cydberthynas gadarnhaol gryf rhwng cyfanswm niferoedd staff a chyfanswm yr oriau agor (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.863 a 0.959, $p < 0.01$). Yn ogystal, gwelwyd dystiolaeth o gydberthynas gadarnhaol gryf i gryf iawn rhwng cyfanswm y staff a mynychu digwyddiadau (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.763 a 0.933, $p < 0.01$). Roedd cydberthynas gadarnhaol gymedrol i gryf hefyd rhwng cyfanswm y benthyciadau a chyfanswm y staff (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.611 a 0.811, $p < 0.01$).

Tabl 4.1: Staffio am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	4.37	4.36	4.34	4.28	4.28	4.39	3.60	3.29
Canolrif	2.62	2.54	2.48	2.36	2.34	2.49	2.38	2.38
Isel	1.66	1.64	1.54	1.53	1.44	1.39	1.26	1.31
Amrediad	2.71	2.72	2.80	2.75	2.84	3.0	2.34	1.98
Chwartel isaf	2.26	2.22	2.26	2.02	2.03	2.38	2.08	1.97
Chwartel uchaf	3.05	2.94	2.63	2.60	2.68	2.71	2.71	2.72
Amrediad rhyngchwartel	0.79	0.72	0.37	0.58	0.65	0.33	0.63	0.75
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	2.88	2.77	2.67	2.58	2.56	2.60	2.51	2.47

Ffynhonnell: DASLICC 13

Parhawyd i gynnal y ddarpariaeth hyfforddiant staff drwy gydol y Fframwaith. Roedd canran ganolrifol oriau staff a neilltuwyd i hyfforddiant yn weddol sefydlog ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfnod, sef rhwng 1.6% a 2%, ond cynyddodd i 5% yn 2024 i 2025 pan gyflwynwyd LMS Cymru.

4.1.1. Staff cymwysedig

Er y bydd cyfanswm niferoedd staff yn effeithio ar allu awdurdod i ddarparu gwasanaethau craidd, mae agweddau ar yr Hawliau Craidd lle mae nifer o wasanaethau'n cael trafferth, sef cyfeiriad strategol a chydlynu adborth cwsmeriaid, yn feysydd lle mae staff cymwysedig yn arbennig o bwysig.

Gostyngodd niferoedd y staff cymwysedig ledled Cymru drwy gydol y Chweched Fframwaith, er nad oedd y tueddiad yn un llinol. Roedd niferoedd staff cymwysedig yn gostwng cyn COVID-19 a gwnaethant ostwng yn gyflym rhwng 2019 a 2020, ond yna gwnaethant ymadfer ychydig tua diwedd y pandemig, a hynny cyn gostwng unwaith eto yn ystod cyfnod yr Atodiad. Serch hynny, y patrwm cyffredinol yw tueddiad ar i lawr. Yn genedlaethol, gostyngodd nifer y swyddi cymwysedig o 159.0 CALI i 123.3 CALI, sef gostyngiad o 35.7 swydd neu 22.5%. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol mewn cyfraddau staffio cymwysedig mewn awdurdodau gwledig a threfol.

Gostyngodd yr amrediad rhyngchwartel ar gyfer staff cymwysedig drwy gydol y Chweched Fframwaith wrth i nifer y staff cymwysedig fesul 10,000 o'r boblogaeth ddod yn fwy cyson ar draws llawer o'r wlad, ac eithrio nifer fach o awdurdodau sy'n allanolynnau gyda chyfraddau sylweddol uwch o staff cymwysedig (Tabl 4.2).

Tabl 4.2: Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	0.90	0.86	0.76	0.75	1.02	0.75	0.88	1.1
Canolrif	0.55	0.55	0.48	0.44	0.47	0.47	0.42	0.33
Isel	0.26	0.14	0.14	0.14	0.14	0.10	0.09	0.04
Amrediad	0.64	0.72	0.62	0.61	0.88	0.65	0.79	1.06
Chwartel isaf	0.35	0.35	0.30	0.31	0.28	0.31	0.30	0.27
Chwartel uchaf	0.70	0.66	0.58	0.56	0.55	0.58	0.51	0.44
Amrediad rhyngchwartel	0.35	0.31	0.28	0.25	0.27	0.27	0.21	0.17
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	0.51	0.48	0.44	0.42	0.44	0.44	0.40	0.39

Ffynhonnell: DASLICC 13

O ystyried staff cymwysedig fel canran o gyfanswm staff llyfrgelloedd, arhosodd y ganran ganolrifol yn gymharol sefydlog ar tua 20% drwy gydol y rhan fwyaf o gyfnod y Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, gostyngodd canran y staff cymwysedig yn y gweithlu yn ystod cyfnod yr Atodiad i ganolrif o rhwng 16.3% a 18.0%.

Tabl 4.3: Staff cymwysedig fel canran o gyfanswm y staff

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	40.0%	36.3%	33.6%	33.6%	44.8%	37.6%	36.1%	41.0%
Canolrif	20.5%	20.6%	19.1%	20.6%	19.9%	20.4%	18.0%	16.3%
Isel	7.0%	3.8%	3.8%	3.5%	3.5%	2.2%	2.6%	2.8%
Amrediad	33.0%	32.5%	29.8%	30.1%	41.3%	35.4%	33.5%	38.2%
Chwartel isaf	16.1%	14.4%	14.4%	15.6%	16.5%	15.5%	12.8%	13.0%
Chwartel uchaf	25.6%	26.2%	22.7%	23.6%	23.0%	27.7%	21.1%	21.5%
Amrediad rhyngchwartel	9.5%	11.8%	8.3%	8.0%	6.5%	12.2%	8.3%	8.5%
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	17.7%	17.5%	16.4%	16.5%	17.1%	16.9%	15.8%	15.8%

Ffynhonnell: DASLICC 13

4.1.2. Gwirfoddolwyr

Roedd nifer yr oriau gwirfoddoli a adroddwyd yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad. Nid yw rhai awdurdodau'n defnyddio unrhyw wirfoddolwyr. Fodd bynnag, mewn gwasanaethau eraill mae amser gwirfoddolwyr yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm yr oriau a weithiwyd. Roedd oriau gwirfoddoli'n cyfrif am tua 3% o'r oriau a weithiwyd yn genedlaethol cyn y pandemig. Ni chasglwyd niferoedd gwirfoddolwyr yn ystod COVID-19, a chymerwyd ychydig o amser iddynt ymadfer ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, erbyn diwedd y Chweched Fframwaith, roedd oriau gwirfoddoli'n cyfrif am 5.3% o'r oriau a weithiwyd yn genedlaethol.

Mae rhywfaint o dystiolaeth o gydberthynas negyddol gymedrol rhwng oriau gwirfoddoli a niferoedd staff ar draws y Chweched Fframwaith (r Pearson = -0.464, p < 0.05). Awgryma hyn y gallai oriau gwirfoddolwyr gynyddu wrth i niferoedd staff ostwng. Os yw gwasanaethau'n dibynnu'n fwy ar wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau, yn absenoldeb staff cyflogedig, mae hyn yn rhwystr i'r gwaith o gyflawni darpariaeth llyfrgelloedd statudol yn llwyddiannus. Fel y mae [datganiad polisi CILIP](#) ar ddefnyddio gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei nodi, os caiff swyddi cyflogedig eu disodli'n uniongyrchol gan wirfoddolwyr, "...bydd gwasanaethau'n dioddef a byddant yn anghynaliadwy. Yr hyn sy'n weddill fyddai gwasanaeth llyfrgell na fyddai'n gallu gwasanaethu'r gymuned yn gynhwysfawr, cynnal anghenion gwybodaeth pobl na rhoi cyfle i bawb ddysgu a datblygu."

4.2. Mannau gwasanaeth ac oriau agor

Mae darparu mannau gwasanaeth, ac oriau agor y mannau gwasanaeth hynny, yn ffactorau allweddol o ran sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell yn bodloni'r Hawliau Craidd, yn enwedig HG 5, sy'n un o'r Hawliau Craidd mwyaf heriol i rai gwasanaethau. Darperir data sy'n ymwneud â darparu mannau gwasanaeth ac oriau agor gan DA 7 a DA 16 yn y drefn honno.

Disgrifir newidiadau mewn mannau gwasanaeth yn fanylach yn Adran 12. I grynhoi, yn sgil darparu mannau gwasanaeth, gwelwyd tueddiad ar i lawr yn genedlaethol yn ystod y Chweched Fframwaith. Dim ond 5 gwasanaeth na wnaethant adrodd am ostyngiad mewn mannau gwasanaeth sefydlog a/neu symudol rhwng 2018 a 2019 a 2024 i 2025. Ledled Cymru, roedd 8 yn llai o fannau gwasanaeth sefydlog ac 20 yn llai o fannau gwasanaeth symudol yn 2024 i 2025 o gymharu â 2018 i 2019.


Disgrifir newidiadau mewn oriau agor yn fanylach yn Adran 11. I grynhoi, mae oriau agor wedi gostwng dros gyfnod y Chweched Fframwaith, gan ostwng yn gyson ar y naill ochr a'r llall i gyfnod y pandemig. Ar gyfartaledd, gwelwyd oriau agor gwasanaethau yn lleihau tua 10%. Fodd bynnag, roedd y patrwm yn amrywio ledled y wlad ac adroddodd tua chwarter y gwasanaethau gynnydd yn oriau agor dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth. Er bod oriau heb staff wedi cynyddu dros gyfnod y Chweched Fframwaith, roedd y rhain yn dal i ffurfio rhan fach o gyfanswm oriau agor llyfrgelloedd.

4.3. Adnoddau ariannol

Mae angen adnoddau ariannol ar gyfer gwasanaethau llyfrgell er mwyn darparu staff, mannau gwasanaeth ac adnoddau gwybodaeth. Disgrifir newidiadau mewn adnoddau yn fanylach yn Adrannau 7, 8 a 9. Darperir gwybodaeth am adnoddau drwy DA 9, DA 10 a DA14.

Mae Ffigur 4.2 yn dangos y newidiadau mewn gwariant refeniw dros gyfnod y Chweched Fframwaith fel dadansoddiad o dueddiad canrannol. Cododd gwariant refeniw ychydig yn genedlaethol cyn COVID-19, er iddo fod ar gyfradd is na chwyddiant. Yna gostyngodd gwariant refeniw yn ystod COVID-19, cyn dechrau codi eto o 2022 i 2023 ymlaen. Cynyddodd cyfanswm y gwariant refeniw 14% dros gyfnod y Fframwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei leihau i gynnydd o 12% am bob pen o'r boblogaeth pan ystyrir ffigurau'r boblogaeth sy'n newid. Ar ben hynny, pan ystyrir [chwyddiant](#), mae cyfanswm y gwariant refeniw yn sylweddol is mewn termau real nag yr oedd ar ddechrau'r Fframwaith. Dim ond tri gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru a welodd gynnydd mewn gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth o fwy na chyfradd chwyddiant (h.y. cynnydd mewn termau real) dros gyfnod y Chweched Fframwaith.

Ffigur 4.2: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â gwariant refeniw



Disgrifiad o Ffigur 4.2: Graff llinell sy'n cynnwys tair llinell liw sy'n dangos dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â gwariant refeniw. Mae llinell un yn dangos y gwariant refeniw o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos y gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025. Mae llinell tri yn dangos chwyddiant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC 14

Roedd y gwariant refeniw cenedlaethol canolrifol a chymedrig am bob pen o'r boblogaeth ill dau yn amrywio cyn COVID-19, ond gwnaethant ostwng rhwng 2020 a 2021. Bu cynnydd bach o'r pwynt isel hwn yn 2021 i 2022, ac yna cynnydd mwy yn ystod gweddill y Fframwaith. Fodd bynnag, ym mhob blwyddyn, roedd y gwariant refeniw cenedlaethol cymedrig am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r awdurdod lleol canolrifol, a chynyddodd y bwlb hwn yn y cyfnod ar ôl COVID-19. Gellir esbonio'r patrwm hwn gan y ffaith bod Caerdydd yn allanolyn o gymharu â gweddill awdurdodau llyfrgell Cymru o ran gwariant refeniw, ac mae hyn yn arwain at ffigur cymedrig cenedlaethol mwy.

Tabl 4.4: Cyfanswm gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	£17,771	£19,449	£23,333	£19,526	£20,184	£27,330	£24,685	£26,209
Canolrif	£11,915	£12,146	£11,470	£10,064	£10,323	£11,476	£12,023	£12,646
Isel	£7,047	£7,181	£7,260	£6,501	£7,052	£6,726	£6,046	£5,978
Amrediad	£10,724	£12,268	£16,073	£13,025	£13,132	£20,604	£18,640	£20,232
Chwartzel isaf	£10,004	£9,715	£9,311	£8,412	£8,509	£9,043	£9,598	£10,271
Chwartzel uchaf	£15,068	£14,440	£14,811	£12,494	£13,419	£15,237	£15,419	£15,448
Amrediad rhyngchwartzel	£5,064	£4,725	£5,500	£4,082	£4,910	£6,194	£5,821	£5,177
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	£12,932	£12,862	£13,123	£11,851	£11,889	£13,663	£13,810	£14,492

Ffynhonnell: DASLICC 14

4.4. Crynodeb

Mae gofynion sylfaenol gwasanaeth llyfrgell statudol, sef staff, mannau gwasanaeth ac adnoddau ariannol, yn angenrheidiol er mwyn i awdurdodau fodloni Hawliau Craidd SLICC. Mae'r gofynion hyn yn gysylltiedig â'i gilydd, er enghraifft, mae angen mwy o staff i gynnig oriau agor hirach, ac mae angen adnoddau ariannol i ddarparu staff, mannau gwasanaeth ac adnoddau gwybodaeth. Mae pwysau ar bob un o'r cydrannau hyn yn ei gwneud hi'n gynyddol heriol i wasanaethau llyfrgell Cymru berfformio yn erbyn rhai o'r Hawliau Craidd.

Ffigur 4.3: Cyd-destun ehangach ar gyfer staffio a gwariant

Staffio: Llyfrgelloedd yn yr Alban	1. Collwyd tua 612 o staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) rhwng 2012 i 2013 a 2022 i 2023 (CILIPS, nd)
Staffio: Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr	1. Rhwng 2018 i 2019 a 2019 i 2020, gostyngodd cyfanswm y staff cyflogedig mewn llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr 2.4% yn ôl CIPFA (2020) 2. Fodd bynnag, yn 2020 i 2021, 2021 i 2022, 2022 i 2023, adroddodd CIPFA fod lefelau staff wedi parhau'n gymharol sefydlog (CIPFA 2022, CIPFA 2023a, CIPFA 2023b)
Gwariant: Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr	1. Yn ôl arolwg llyfrgelloedd blynyddol CIPFA, 2018 i 2019, cyfanswm y gwariant ar lyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr oedd £12,646 fesul 1,000 o bobl. Rhwng 2018 i 2019 a 2021 i 2022, gostyngodd y ffigur hwn bob blwyddyn 2. Fodd bynnag, yn 2022 i 2023, cynyddodd cyfanswm y gwariant ar lyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr yn 3% i £12,551 fesul 1,000 o bobl. Serch hynny, arhosodd hyn 0.75% yn is na ffigur 2018 i 2019 am bob pen o'r boblogaeth (CIPFA 2020, CIPFA 2023b)

Disgrifiad o Ffigur 4.3: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gyda thair adran liw. Mae adran un yn egluro bod llyfrgelloedd cyhoeddus yr Alban wedi colli tua 612 o staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) rhwng 2012 a 2013 a 2022 i 2023 (CILIPS, nd). Mae adran dau yn egluro bod cyfanswm y staff cyflogedig mewn llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr wedi gostwng 2.4% rhwng 2018 a 2019 a 2019-2020, yn ôl CIPFA (2020). Fodd bynnag, yn 2020 i 2021, 2021 i 2022, a 2022 i 2023, adroddodd CIPFA fod lefelau staff wedi parhau'n gymharol sefydlog (CIPFA 2022, CIPFA 2023a, CIPFA 2023b). Mae adran tri yn egluro, yn ôl arolwg llyfrgelloedd blynyddol CIPFA, 2018 i 2019, mai cyfanswm y gwariant ar lyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr oedd £12,646 fesul 1,000 o bobl. Rhwng 2018 a 2019 a 2021 i 2022, gostyngodd y ffigur hwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, rhwng 2022 a 2023, cynyddodd cyfanswm y gwariant ar lyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr 3% i £12,551 fesul 1,000 o bobl. Serch hynny, arhosodd hyn 0.75% yn is na'r ffigur am bob pen o'r boblogaeth rhwng 2018 a 2019 (CIPFA 2020, CIPFA 2023b).

Ffynhonnell: [CILIPS, nd](#), [CIPFA 2020](#), [CIPFA 2022](#), [CIPFA 2023a](#) a [CIPFA 2023b](#).

5. Newidiadau yng nghanlyniadau Dangosyddion Ansawdd SLICC

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn: 'I ba raddau y mae canlyniadau Dangosyddion Ansawdd SLICC wedi newid dros gyfnod y Chwedd Fframwaith?'

Mae dau fath o Ddangosyddion Ansawdd (DA) o fewn y Chwedd Fframwaith, sef y rhai a ddarperir ar gyfer monitro a meincodi, a'r rhai â thargedau penodol. Mae gan ddeg o'r 16 o Ddangosyddion Ansawdd dargedau, er na chasglwyd data ar gyfer pob targed bob blwyddyn oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a newidiadau i'r Fframwaith yn ystod cyfnod yr Atodiad (Gweler [Atodiad A](#)). Mae'r bennod hon yn adrodd ar ganlyniadau Dangosyddion Ansawdd gyda thargedau yn unig; trafodir Dangosyddion Ansawdd eraill mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

5.1. DA 3: Cymorth ar gyfer datblygiad unigol

Casglwyd data targed DA 3 mewn pedair blynedd: 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 a 2022 i 2023. Yn yr Atodiad i'r Chwedd Fframwaith, disodlwyd DA 3 gan HG13.

Tabl 5.1: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 3 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023
a) Cymorth sylfaenol ar gyfer defnyddio TGCh	21	21	21	21
b) Hyfforddiant llythrennedd / sgiliau digidol	20	21	22	19
c) Cymorth i gael mynediad at adnoddau e-lywodraeth	22	22	22	21
d) Rhaglenni datblygu darllenwyr	22	22	22	20
Bodloni'r targed yn llawn	19	20	21	19
Bodloni'r targed yn rhannol	3	2	1	3

Ffynhonnell: DASLICC 3

Ar y cyfan, perfformiodd gwasanaethau llyfrgell Cymru yn dda mewn perthynas â DA 3, gyda rhwng 19 a 22 o wasanaethau'n bodloni'r mesurau targed bob blwyddyn. Gwelwyd gwelliant graddol yn nifer y gwasanaethau a oedd yn bodloni'r targed hwn yn llawn cyn y pandemig COVID-19, ond yn 2022 i 2023, dychwelodd y canlyniadau i'w lefel yn 2017 i 2018. Bodlonwyd targedau o ran cymorth TG sylfaenol, datblygu darllenwyr a chymorth e-

lywodraeth gan o leiaf 20 o'r gwasanaethau ym mhob un o'r blynyddoedd y casglwyd y mesurau hyn ar eu cyfer. Ac eithrio cymorth TG sylfaenol, roedd y perfformiad ychydig yn is yn 2022 i 2023 nag yr oedd cyn COVID-19; yn ôl pob tebyg, mae hyn oherwydd bod rhai gwasanaethau wedi cymryd mwy o amser i ymadfer ar ôl cyfyngiadau'r pandemig. Roedd y targed llythrennedd digidol/hyfforddiant sgiliau yn fwy heriol i rai gwasanaethau ei fodloni ar ôl COVID-19, ond mae'n werth nodi y gallai hyn olygu gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, a allai gymryd amser i'w ailsefydlu.

Lle roedd gwasanaethau'n cael trafferth cyrraedd un neu fwy o dargedau, fel arfer roedd hynny oherwydd problemau mewn un gangen o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, roedd heriau mwy eang a oedd yn effeithio ar gyfran fwy o fannau gwasanaeth o fewn awdurdod.

5.2. DA 4: Cymorth ar gyfer iechyd a lles

Casglwyd data targed DA 4 ym mhob blwyddyn ac eithrio 2020 i 2021 a 2021 i 2022. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod yr Atodiad, bu newid bach i adlewyrchu'r symudiad o [Presgripsiwn Llyfrau Cymru](#) a [Llyfrau Llesol](#) i'r cynllun [Darllen yn Well](#).

Tabl 5.2: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 4 (n=22)

Defnyddir rhywfaint o law fer yn y tabl hwn, [x] = ddim yn berthnasol.

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
ai) Presgripsiwn Llyfrau Cymru	22	22	22	21	[x]	[x]
a ii) Llyfrau Llesol	22	22	22	19	[x]	[x]
ai) Darllen yn Well	[x]	[x]	[x]	[x]	22	22
aiii) Casgliad ie chyd / lles	22	22	22	21	22	22
aiv) Gwybodaeth am ffordd iach o fyw	22	22	22	21	22	22
av) Gwasanaethau ie chyd / lles	22	22	22	21	22	22
Bodloni'r targed yn llawn	22	22	22	19	22	22
Bodloni'r targed yn rhannol	[x]	[x]	[x]	3	[x]	[x]

Ffynhonnell: DASLICC 4

Perfformiodd gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru yn eithriadol o dda yn erbyn DA 4 drwy gydol y Fframwaith. Bodlonwyd targedau gan bob gwasanaeth bob blwyddyn ac eithrio 2022 i 2023. Gallai'r gostyngiad yn y flwyddyn honno fod yn gysylltiedig â'r newid o Prescripsiwn Llyfrau Cymru/Llyfrau Llesol i Darllen yn Well, yn ogystal â materion lleol a oedd yn effeithio ar gangen benodol o fewn gwasanaeth, sy'n golygu na chyrhaeddwyd 100% o'r boblogaeth.

5.3. DA 6: Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau llyfrgell

Casglwyd data targed DA 6 yn 2017 i 2018 a 2018 i 2019. Gan mai ychydig o ddigwyddiadau llyfrgell a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19, ailddechreuwyd casglu data o 2022 i 2023 ymlaen.

Tabl 5.3: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 6 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
b) Gofynion arbennig mewn digwyddiadau	19	19	17	21	22

Ffynhonnell: DASLICC 6

Cododd nifer y gwasanaethau a fodlonodd darged DA 6 yn ystod y Chweched Fframwaith. Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi cyrraedd y targed hwn drwy gydol y cyfnod, bu gwelliant nodedig yn ystod cyfnod yr Atodiad, ac roedd pob gwasanaeth yn cyrraedd y targed erbyn diwedd y Chweched Fframwaith.

5.4. DA 7: Lleoliad mannau gwasanaeth

Casglwyd data DA 7 drwy gydol y Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, nid oedd pob gwasanaeth yn gallu cyflwyno'r wybodaeth hon bob blwyddyn am nad oedd gan rai fynediad at feddalwedd i gyflawni'r cyfrifiad. Yn ystod blwyddyn olaf y Fframwaith, gwnaeth Llywodraeth Cymru'r cyfrifiad yn ganolog. Felly, dylid nodi y gall y dulliau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r mesur hwn amrywio fesul awdurdod a thros amser.

Tabl 5.4: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 7 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Bodloni'r targed	22	22	21	21	20	17	18	19
Ddim yn bodloni'r targed	0	0	1	1	1	1	1	3
Data ar goll	0	0	0	0	1	4	3	0

Ffynhonnell: DASLICC 7

Gostyngodd nifer y gwasanaethau llyfrgell a fodlonod darged DA 7 yn ystod y Chweched Fframwaith. Mae'r data'n awgrymu ei bod wedi dod yn fwyfwy anodd i rai gwasanaethau

fodloni'r targed hwn, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy gwledig, am na wnaeth 3 allan o'r 9 awdurdod sy'n perthyn i'r categori dwysedd poblogaeth isaf fodloni'r targed yn 2024 i 2025.

5.5. DA 9: Deunydd darllen cyfoes a phriodol

Casglwyd data targed DA 9 bob blwyddyn ac eithrio 2024 i 2025, pan oedd y gwaith o gyflwyno LMS Cymru yn golygu nad oedd ffigurau caffaeliadau ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfan. O dan y Chweched Fframwaith gwreiddiol, roedd modd i wasanaethau fodloni'r targed hwn yn seiliedig naill ai ar nifer yr eitemau a gaffaelwyd neu'r gwariant ar adnoddau am bob pen o'r boblogaeth. Roedd y targedau hyn yn seiliedig ar dargedau caffael Pumed Fframwaith SLICC, a oedd yn tynnu ar y canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgell Cymru ar gyfer 2013 i 2014. Yn ystod cyfnod yr Atodiad, dim ond y gyfradd gaffael a gasglwyd, ac roedd y targed hwn yn amrywio gan ddibynnu ar ddwysedd y boblogaeth. Ar gyfer yr Atodiad, roedd targedau caffael yn seiliedig ar [Ganllawiau Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus IFLA \(2^{il} argraffiad\)](#).

Tabl 5.5: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 9 (n=22)

Defnyddir rhywfaint o law fer yn y tabl hwn, [x] = ddim yn berthnasol.

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Bodloni'r targed o ran eitemau	9	5	5	4	6	12	10
Bodloni'r targed o ran £	3	1	1	1	2	3	[x]
Bodloni'r targed yn gyffredinol	9	5	5	4	6	12	10

Ffynhonnell: DASLICC 9

Roedd DA 9 yn un o'r targedau mwyaf heriol i wasanaethau llyfrgell Cymru yn ystod y Chweched Fframwaith. Amrywiodd nifer y gwasanaethau a fodlonodd y targed dros gyfnod y Fframwaith, ond bodlonodd ychydig mwy o wasanaethau'r targed tua diwedd y cyfnod (er gyda newid i'r targed yn 2023 i 2024). Roedd y niferoedd a oedd yn bodloni DA 9 ar eu hisaf yn ystod y pandemig. Bodlonodd tua hanner gwasanaethau llyfrgell Cymru y targed hwn yn y cyfnod ar ôl COVID-19. Mewn blynyddoedd pan gasglwyd mesurau eitemau a gwariant fel ei gilydd, bodlonodd mwy o wasanaethau'r targed ar sail nifer yr eitemau nag ar sail gwariant.

5.6. DA 10: Adnoddau yn y Gymraeg

Casglwyd data targed DA 10 bob blwyddyn ac eithrio 2024 i 2025, pan oedd y gwaith o gyflwyno LMS Cymru yn golygu nad oedd ffigurau caffaeliadau ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfan. O dan y Chweched Fframwaith gwreiddiol, roedd modd i wasanaethau gyrraedd y targed hwn naill ai ar sail y ganran o'r gyllideb ddeunyddiau neu ar sail y gwariant ar adnoddau am bob pen o'r boblogaeth a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Yn ystod cyfnod yr Atodiad, dim ond canran o'r gyllideb ddeunyddiau a gasglwyd.

Tabl 5.6: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 10 (n=22)

Defnyddir rhywfaint o law fer yn y tabl hwn, [x] = ddim yn berthnasol.

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Bodloni'r targed o ran % y gyllideb	14	17	18	16	16	19	19
Bodloni'r targed o ran £	6	6	5	2	5	7	[x]
Bodloni'r targed yn gyffredinol	16	17	18	16	16	19	19

Ffynhonnell: DASLICC 10

Roedd nifer yr awdurdodau a fodlonodd darged DA10 ar ei huchaf yn y cyfnod ar ôl COVID-19. Yn y blynyddoedd pan gasglwyd mesurau canran a gwariant fel ei gilydd, bodlonodd mwy o wasanaethau'r targed ar sail y ganran o'r gyllideb nag ar sail y gwariant am bob pen o'r boblogaeth.

5.7. DA 11: Mynediad ar-lein

Casglwyd data targed DA 11 mewn pedair blynedd: 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 a 2022 i 2023. Yn yr Atodiad i'r Chweched Fframwaith, cafodd DA 11 ei gynnwys yn HG 7 am ei fod yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol y dylai pob llyfrgell ei darparu.

Tabl 5.7: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 11 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023
ai) Dyfeisiau sy'n rhoi mynediad i'r rhwyngwyrdd i'r cyhoedd	22	22	21	22
a ii) Mynediad WiFi i ddefnyddwyr	20	21	21	22
Bodloni'r targed yn llawn	20	21	20	22
Bodloni'r targed yn rhannol	2	0	2	0
Data ar goll	0	1	0	0

Ffynhonnell: DASLICC 11

Perfformiodd gwasanaethau llyfrgell Cymru yn dda o ran targedau DA11. Gwellodd y perfformiad dros gyfnod y Fframwaith o ran mynediad i WiFi ac ar ddiwedd y cyfnod y casglwyd data ar ei gyfer, roedd yr holl wasanaethau'n bodloni DA 11 yn llawn.

5.8. DA 12: Cyflenwi ceisiadau

Casglwyd data targed DA 12 mewn pedair blynedd: 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 a 2022 i 2023. Ni chafodd DA 12 ei gynnwys yn yr Atodiad i'r Chweched Fframwaith.

Tabl 5.8: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 12 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023
a) Isafswm o 64% o geisiadau ar gael o fewn 7 diwrnod calendr	19	21	16	10
b) Isafswm o 79% o geisiadau ar gael o fewn 15 diwrnod calendr	17	19	16	14
Bodloni'r targed yn llawn	17	17	16	8
Bodloi'r targed yn rhannol	2	4	0	8

Ffynhonnell: DASLICC 12

Gostyngodd nifer y gwasanaethau llyfrgell a fodlonodd dargedau DA 12 yn sylweddol pan ailddechreuodd y gwaith o gasglu data ar ôl COVID-19. Bu gostyngiad bach rhwng 2019 a 2020, ond rhwng 2022 a 2023, dim ond 8 gwasanaeth oedd yn bodloni'r targed hwn yn llawn. Mae'n bosib yr effeithiwyd ar hyn i ryw raddau gan newidiadau i arferion a oedd yn gysylltiedig â COVID-19.

5.9. DA 13: Lefelau staffio a chymwysterau

Casglwyd data DA 13 drwy gydol y Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, ni chasglwyd data ar oriau hyfforddi rhwng 2019 a 2020 a 2021 i 2022 oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Yn ogystal, cynyddwyd y targed ar gyfer oriau hyfforddi yn yr Atodiad o 1% o oriau gwaith cyfanredol staff i 2%.

Tabl 5.9: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targedau DA 13 (n=22)

Defnyddir rhywfaint o law fer yn y tabl hwn, [x] = ddim yn berthnasol.

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
i) Cyfanswm y staff	2	1	1	1	1	1	1	0
ii) Staff cymwysedig	7	6	4	4	4	3	2	3
iii) A yw'r rheolwr gweithredol wedi'i gymhwyso?	21	21	21	21	20	20	20	20
iv) Oriau hyfforddi	22	22	[x]	[x]	[x]	15	11	20
Bodloni'r targed yn llawn	0	0	0	0	0	0	0	0
Bodloni'r targed yn rhannol	22	22	21	21	20	21	21	22
Data ar goll	[x]	[x]	[x]	[x]	[x]	[x]	2	2

Ffynhonnell: DASLICC 13

Dyma oedd y DA mwyaf heriol i wasanaethau llyfrgell Cymru. Ni fodlonodd yr un gwasanaeth DA 13 yn llawn yn ystod y Chweched Fframwaith, er bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi bodloni'r targed yn rhannol drwy gydol y cyfnod. Yn 2017 i 2018, 2018 i 2019 a 2024 i 2025, roedd pob gwasanaeth wedi bodloni DA 13 yn rhannol. Mewn blynyddoedd eraill, methodd nifer fach o wasanaethau â bodloni'r targed (naill ai'n llawn neu'n rhannol) neu ni ddarparwyd data. Perfformiodd y gwasanaethau orau mewn perthynas â'r mesur mewn perthynas â chymwysterau rheolwyr gweithredol. Roedd nifer yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofyniad o ran oriau hyfforddi yn y cyfnod yn syth ar ôl COVID-19, ond gwnaeth pob un a oedd yn darparu data hynny yn 2024 i 2025, yn rhannol o ganlyniad i'r hyfforddiant yr oedd ei angen mewn perthynas â chyflwyno LMS Cymru. Gostyngodd nifer y gwasanaethau a fodlonodd y targed staffio cymwysedig o 7 i 3 dros gyfnod y Chweched Fframwaith. Mae'r niferoedd sy'n bodloni'r targed staffio cyfan wedi bod yn gyson isel iawn ac erbyn diwedd y Fframwaith, nid oedd unrhyw wasanaethau wedi'i fodloni.

5.10. DA 16: Oriau agor

Casglwyd data targed DA 16 ym mhob blwyddyn ac eithrio 2020 i 2021 a 2021 i 2022 pan effeithiwyd ar oriau agor llyfrgelloedd gan y pandemig COVID-19.

Tabl 5.10: Nifer y gwasanaethau sy'n bodloni targed DA 16 (n=22)

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Bodloni'r targed	16	15	15	13	13	11
Ddim yn bodloni'r targed	6	7	7	8	9	11
Data ar goll	0	0	0	1	0	0

Ffynhonnell: DASLICC 16

Daeth yn fwyfwy heriol i wasanaethau llyfrgell Cymru fodloni DA 16 dros gyfnod y Chweched Fframwaith. Gwnaeth nifer y gwasanaethau a oedd yn bodloni'r targed o ran oriau agor ostwng yn raddol dros y cyfnod. Ar ddiwedd y Fframwaith, dim ond hanner y gwasanaethau llyfrgell oedd yn bodloni'r targed.

5.11. Crynodeb

At ei gilydd, y targedau DA y mae gwasanaethau llyfrgell Cymru wedi perfformio orau yn eu herbyn dros y Chweched Fframwaith yw DA 3, DA 4, DA 6 a DA 11. I'r gwrthwyneb, y targedau sydd wedi bod fwyaf heriol yw DA 9 a DA 13. Mae hefyd yn werth nodi bod rhai targedau yn gynyddol heriol i rai gwasanaethau eu bodloni tua diwedd cyfnod y Fframwaith, yn benodol DA 7 a DA 16.

6. Cyfraniad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'Sut mae Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru?' Er bod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi'u cynllunio i fod yn fesurau perfformiad proffesiynol, mae'n bosibl defnyddio'r data i ddangos sut mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at wahanol bolisiâu a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Y fframwaith strategol allweddol a oedd ar waith yn ystod cyfnod y Chweched Fframwaith oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.1. Trosolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn nodi'r saith nod cenedlaethol canlynol ar gyfer Cymru: Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru Iachach; Cymru sy'n Fwy Cyfartal; Cymru o Gymunedau Cydlynus; Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu; a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.

Wrth archwilio sut mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), defnyddir y ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- Data Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd fel y'u disgrifir isod
- astudiaethau achos rhwng 2017 i 2018 a 2021 i 2022 a datganiadau effaith o 2022 i 2023 ymlaen a gyflwynwyd gan awdurdodau llyfrgell fel rhan o'r weithdrefn adrodd flynyddol
- datganiadau strategol rhwng 2017 i 2018 a 2019 i 2020 a rhwng 2022 i 2023 a 2024 i 2025 lle gwnaeth gwasanaethau llyfrgell ddisgrifio sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi cenedlaethol a lleol

Mae'n werth nodi, ar draws y set ddata wyth mlynedd, bod yr astudiaethau achos a'r datganiadau yn cyd-fynd amlaf â'r canlynol:

- Cymru Iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru Lewyrchus

Mae'r datganiadau strategol yn atgyfnerthu'r patrwm hwn. Dros sawl blwyddyn, mae gwasanaethau llyfrgell yn nodi bod eu gwaith yn cyfrannu'n benodol at y canlynol:

- lles ac iechyd meddwl cymunedol
- llythrennedd, dysgu a datblygu sgiliau
- cynhwysiant digidol a mynediad at wasanaethau

- cydlyniant cymunedol a chysylltiad cymdeithasol

Mae rhai datganiadau strategol hefyd yn amlygu cyfraniadau at fentrau cynaliadwyedd amgylcheddol a rhannu adnoddau, er bod y themâu hyn yn ymddangos yn llai aml na'r nodau cymdeithasol a lles

6.2. Cyfraniad at y Saith Nod Cenedlaethol

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu ffyrdd y cyfrannodd Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru at y saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid rhestr derfynol yw'r enghreifftiau a ddarperir, ond maent yn dangos rhai ffyrdd y mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y Ddeddf yn ystod y Chweched Fframwaith.

6.2.1. Cymru Lewyrchus

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru lewyrchus mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy gefnogi dysgu a datblygu sgiliau; defnyddio adnoddau'n effeithlon; a thrwy gyfleoedd cyflogaeth.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 3 (Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau) a HG 13 (Cefnogi Sgiliau Digidol - 2023 i 2025 yn unig) yn llawn gan bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 2 (Staff Gwybodus a Chymwysedig) a HG 5 (Mannau Diogel a Hygyrch) yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth ym mhob blwyddyn. Bodlonwyd HG 7 (Defnydd o'r Rhyngwrdd a TG yn Rhad ac am Ddim) yn llawn gan o leiaf 20 o wasanaethau drwy gydol y Chweched Fframwaith.

Dangosyddion Ansawdd. Ar draws y Chweched Fframwaith, mynychodd cyfartaledd o 1 o bob 20 o boblogaeth Cymru sesiynau hyfforddi ffurfiol a drefnwyd neu a gynhaliwyd gan wasanaeth llyfrgell yn flynyddol. Roedd cyfran ganolrifol y cyfranogwyr a ddywedodd fod cymryd rhan wedi eu helpu i gyflawni eu diben wrth gymryd rhan yn amrywio rhwng 75% ac 86% (DA 5).

Ymhlith yr oedolion a ymatebodd i arolygon cwsmeriaid, dywedodd canolrif o rhwng 70% (2022 i 2025) ac 82% (2017 i 2020) fod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd (DA 1). Ym mhob blwyddyn pan gasglwyd data, cynigiodd 21 o wasanaethau gymorth sylfaenol wrth ddefnyddio seilwaith TG yn yr holl fannau gwasanaeth sefydlog a oedd ar agor 10 awr neu fwy yr wythnos. Roedd rhwng 19 a 22 o wasanaethau yn cynnig hyfforddiant i gefnogi llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a sgiliau digidol (DA 3).

Drwy gydol y Fframwaith, bodlonodd y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell y targed ar gyfer canran y boblogaeth sy'n byw o fewn y pellter penodedig o fan gwasanaeth, gyda rhwng 17 a 22 o wasanaethau'n bodloni'r targed hwn yn flynyddol (DA 7). Mae hyn yn sicrhau y gall pobl gael mynediad at adnoddau a chyfleoedd hyfforddi yn agos at eu cartref.

O ran cyfleoedd cyflogaeth, cyflogwyd cyfartaledd o 825.4 o staff mewn gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru yn ystod cyfnod y Chweched Fframwaith. Roedd hyn yn cynnwys cyfartaledd o 138.1 o staff cymwysedig (DA13). Roedd cyfran ganolrifol y gwariant refeniw a ddyrannwyd i staffio yn amrywio rhwng 10% a 14% (DA 15).

Yn ystod y Chweched Fframwaith, roedd cyfartaledd o 1 o bob 9 o boblogaeth Cymru yn fenthycwyr llyfrgell, gan gael mynediad at lyfrau ac adnoddau eraill mewn ffordd fwy cynaliadwy (DA 8). Roedd y gyllideb lyfrau ganolrifol am bob pen o'r boblogaeth yn amrywio rhwng £1,086 a £1,549 (DA 9). Lle nad oedd gan wasanaethau llyfrgell ddeunyddiau ar gael ar unwaith, roedd y ganran ganolrifol o geisiadau a oedd ar gael o fewn 7 diwrnod yn amrywio rhwng 61.5% a 72.5%, ac roedd y ganran ganolrifol o geisiadau a oedd ar gael o fewn 15 diwrnod yn amrywio rhwng 81% ac 86.5% (DA12).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn darparu amrywiaeth eang o enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys: darparu hyfforddiant i gyfrannu at ddatblygu sgiliau gan gynnwys rhifedd, sgiliau digidol a llythrennedd, clybiau codio a mannau creu; gwella cyflogadwyedd trwy ddarparu cymorth i greu CV a chwilio am swyddi; a chymryd rhan mewn partneriaethau i gefnogi dysgu oedolion.

Yn yr un modd, mae datganiadau strategol yn amlygu rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi dysgu gydol oes, cyflogadwyedd a sgiliau digidol, yn aml mewn partneriaeth â darparwyr dysgu oedolion, gwasanaethau cyflogaeth a sefydliadau cymunedol.

6.2.2. Cymru Gydnerth

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru gydnerth trwy gefnogi iechyd a lles; mynediad at adnoddau gan gynnwys y Rhyngwrdd; ac ymgynghori â defnyddwyr.

Hawliau Craidd. Cyflawnwyd HG 3 (Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau) yn llawn gan bob gwasanaeth drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 7 (Defnydd o'r Rhyngwrdd a TG yn Rhad ac am Ddim) yn llawn gan o leiaf 20 o wasanaethau ym mhob blwyddyn. Bodlonodd o leiaf 17 o wasanaethau HG 11 (Ymgynghori â Defnyddwyr) drwy gydol cyfnod y Fframwaith.

Dangosyddion Ansawdd. Roedd gan o leiaf 21 o wasanaethau gasgliad iechyd a lles dynodedig; cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles; a gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw/ymddygiadau iach ym mhob man gwasanaeth sefydlog a oedd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos drwy gydol cyfnod y Chweched Fframwaith (DA 4).

Er mwyn darparu mynediad at wybodaeth i gefnogi cydnerthedd, dyrannwyd cyfartaledd o £1,458 am bob pen o'r boblogaeth i adnoddau gwybodaeth ar draws y Chweched Fframwaith (DA 14). Roedd nifer ganolrifol y dyfeisiau sy'n darparu mynediad i'r rhyngwrdd o fewn gwasanaeth llyfrgell yn amrywio rhwng 88.5 a 114 y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i rhwng 8.73 a 9.56 o ddyfeisiau fesul 10,000 o'r boblogaeth (DA 11).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn rhoi rhai enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio deunyddiau a chyfrifoldeb amgylcheddol megis partneriaethau â caffis atgyweirio a mentrau ailgylchu. Mae darparu grwpiau darllen a chefnogaeth i grwpiau sy'n eirioli dros les a chefnogaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, fel Amseroedd Rhigwm i blant, hefyd yn cyfrannu at y nod gwydnwch.

Mae datganiadau strategol yn ailadrodd y themâu hyn o bryd i'w gilydd, gan ddisgrifio cyfranogiad mewn mentrau amgylcheddol fel prosiectau'r economi gylchol, gwasanaethau llyfrgell cerbydau trydan a phartneriaethau cynaliadwydd.

6.2.3. Cymru iachach

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru iachach drwy gefnogi cymdeithas lle mwyafir lles corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sy'n fuddiol i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 3 (Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau) yn llawn gan bob gwasanaeth drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 4 (Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig) yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth ym mhob blwyddyn.

Dangosyddion Ansawdd. Ymhlith oedolion a ymatebodd i arolygon cwsmeriaid, dywedodd canolrif o rhwng 63% (2022 i 2025) a 70% (2017 i 2020) eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a lles yn y llyfrgell (DA 1). Roedd cynlluniau Presgripsiwn Llyfrau Cymru, Llyfrau Llesol a/neu Darllen yn Well ar gael ym mhob man gwasanaeth sefydlog a oedd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos mewn rhwng 20 a 22 o wasanaethau llyfrgell drwy gydol y Chweched Fframwaith. Roedd canran ganolrifol y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor 10 awr neu fwy yr wythnos yn cynnig Amseroedd Stori/Amseroedd Rhigwm i Fabanod yn 100% (yr Atodiad yn unig). Roedd y ganran ganolrifol a oedd yn cynnig partneriaethau gwybodaeth iechyd yn amrywio rhwng 89.5% a 100% (DA 4).

Drwy gydol cyfnod y Fframwaith, cynigiodd rhwng 17 a 22 o wasanaethau ddigwyddiadau a gweithgareddau i grwpiau neu unigolion â gofynion arbennig ym mhob man gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos (DA 6).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn darparu llawer o enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys: gweithgareddau i helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol fel grwpiau darllen, sesiynau hel atgofion, grwpiau Gwau a Sgwrs a dosbarthu llyfrau i bobl na allant fynd i lyfrgell; cefnogi iechyd meddwl a chorfforol trwy ddarparu adnoddau, digwyddiadau a gweithgareddau fel sesiynau galw heibio i bobl â dementia a'u gofalwyr; a chynnig mannau tawel a dibynadwy yn ystod cyfnodau o straen neu newid. Ar draws pob blwyddyn, cyflwynir llyfrgelloedd fel amgylcheddau ataliol a chefnogol sy'n cyfrannu at iechyd unigolion ac iechyd cymunedol.

Mae datganiadau strategol yn atgyfnerthu'r darlun hwn trwy amlygu partneriaethau â byrddau iechyd, mentrau lles a rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol. Mae llyfrgelloedd yn disgrifio darparu gwybodaeth iechyd, cynnal grwpiau lles a chynnig mannau cynhwysol lle gall unigolion gael mynediad at wasanaethau cymorth mewn amgylcheddau anghlinigol.

6.2.4. Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu mynediad at wasanaethau cyhoeddus; mynediad am ddim at wybodaeth i bawb; cefnogi pobl y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt; a thrwy hyfforddi staff.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 1 (Yn Rhad ac am Ddim ac yn Agored i Bawb) a HG 13 (Cefnogi Sgiliau Digidol - 2023 i 2025 yn unig) yn llawn gan bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 2 (Staff Gwybodus a Chymwysedig), HG 4 (Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig) a HG 6 (Benthyca a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim) yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth ym mhob blwyddyn o'r Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 7 (Defnydd o'r Rhyngwrdd a TG yn Rhad ac am Ddim) yn llawn gan o leiaf 20 o wasanaethau drwy gydol y Chweched Fframwaith.

Dangosyddion Ansawdd. Roedd rhwng 20 a 22 o wasanaethau yn darparu o leiaf un ddyfais a oedd yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r rhyngwrdd a mynediad i WiFi i ddefnyddwyr yn ystod pob blwyddyn y casglwyd y data hyn (DA11). Roedd rhwng 21 a 22 o wasanaethau yn darparu cymorth i ddefnyddwyr gael mynediad at adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol ym mhob man gwasanaeth sefydlog sydd ar agor 10 neu fwy yr wythnos (DA 3).

Er bod adnoddau'n cael eu benthyca am ddim, y 'gost' gyfartalog (h.y. buddsoddiad mewn adnoddau) fesul benthyciad oedd 53c. Roedd y gost fesul benthyciad ar ei huchaf yn ystod y pandemig, ond gostyngodd i 38c yn 2023 i 2024 (DA 14).

Y ganran ganolrifol o fannau gwasanaeth sefydlog a oedd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos a oedd yn cynnig gwasanaethau dementia-gyfeillgar ac ymwybyddiaeth/cymorth iechyd meddwl oedd 100% drwy gydol y Fframwaith (DA 4).

Mae gwasanaethau llyfrgell yn cefnogi eu staff i gyflawni eu potensial trwy ddatblygiad proffesiynol. Roedd canran ganolrifol oriau gwaith staff a dreuliwyd mewn hyfforddiant yn amrywio rhwng 1.6% a 5% bob blwyddyn (DA 13).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn darparu llawer o enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae naratif cynhwysiant cryf, gan fod llyfrgelloedd yn aml yn disgrifio dileu rhwystrau rhag cymryd rhan a chefnogi'r rhai sy'n wynebu anfantais. Mae rôl bwysig llyfrgelloedd fel gwasanaethau hygyrch sy'n rhad ac am ddim sy'n helpu unigolion i lywio systemau, cynnal eu hannibyniaeth a chymryd rhan fwy llawn yn y gymdeithas hefyd yn cael ei hamlygu. Mae enghreifftiau'n cynnwys: cymorth penodol i blant a phobl ifanc awtistig; cynlluniau benthyca iPads a gliniaduron i leihau anghydraddoldeb digidol; darparu mannau cynnes i'r rhai yr effeithir arnynt gan y cynnydd yng nghost byw; gwasanaethau allgymorth a danfon i'r cartref i'r rhai â symudedd cyfyngedig; a threfnu a chynnal digwyddiadau ac adnoddau i bobl ag amhariad ar eu golwg.

Mae datganiadau strategol yn pwysleisio ymhellach rôl llyfrgelloedd wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol, tlodi ac anghydraddoldeb, gan gynnwys mentrau sy'n darparu mynediad am ddim i'r rhyngwyd, dyfeisiau digidol a chysylltedd i unigolion sy'n profi tlodi digidol.

6.2.5. Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru o gymunedau cydlynus trwy ddarparu mannau hygyrch lle gall pobl ddod at ei gilydd a chefnogi ei gilydd.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 1 (Am Ddim ac Agored i Bawb) a HG 3 (Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau) yn llawn gan bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 5 (Mannau Diogel a Hygyrch) yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth ym mhob blwyddyn.

Dangosyddion Ansawdd. Roedd llyfrgelloedd Cymru ar agor am gyfartaledd o 394,974 o oriau'r flwyddyn yn ystod y Chweched Fframwaith (DA 16). Ymhlith oedolion a ymatebodd i arolygon cwsmeriaid, dywedodd canolrif o 97% (2017 i 2020 a 2022 i 2025) eu bod wedi profi'r llyfrgell fel lle pleserus, diogel a chynhwysol (DA 1). Yn ystod cyfnod y Fframwaith, roedd presenoldeb blynyddol mewn digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell yn cyfateb i gyfartaledd o 1 o bob 4 o'r boblogaeth (DA 6). Mae llyfrgelloedd yn cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli o fewn cymunedau lleol. Yn ystod y Chweched Fframwaith, roedd cyfartaledd o 916 o unigolion yn cefnogi gwasanaethau llyfrgell fel gwirfoddolwyr bob blwyddyn (DA 13).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn darparu llawer o enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae llyfrgelloedd yn darparu mannau niwtral a chroesawgar lle mae pobl yn cwrdd, yn rhannu profiadau ac yn meithrin perthnasoedd. Yn aml, mae llyfrgelloedd yn gweithredu fel mannau dinesig dibynadwy, gan ddod â grwpiau amrywiol ynghyd mewn ffyrdd sy'n cryfhau cydlyniant lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys: cefnogi grwpiau o ffoaduriaid, ac eraill sy'n newydd i ardal leol, i gwrdd a meithrin cyfeillgarwch a gwneud cysylltiadau; cyfeirio at wasanaethau lleol; darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau sy'n meithrin ymdeimlad o gymuned, fel grwpiau darllen a gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae datganiadau strategol yn adleisio'r rôl hon trwy ddisgrifio llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol sy'n lletya sefydliadau lleol, gwasanaethau cynghori a grwpiau cymunedol. Mae sawl gwasanaeth yn tynnu sylw at eu rôl wrth ddarparu Mannau Cynnes yn ystod yr argyfwng costau byw, gan atgyfnerthu ymhellach swyddogaeth llyfrgelloedd fel seilwaith cymunedol hygyrch.

Ffigur 6.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer mynychu digwyddiadau

Mynychu digwyddiadau: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yn ôl data gweithgarwch llyfrgelloedd ar gyfer 2023 i 2024, roedd presenoldeb mewn digwyddiadau mewn person mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn cyfateb i fwy nag 1 o bob 5 o'r boblogaeth (DCMS, 2025).
--	---

Disgrifiad o Ffigur 6.1: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro, yn ôl data gweithgarwch llyfrgelloedd ar gyfer 2023 i 2024, fod presenoldeb mewn digwyddiadau mewn person mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn cyfateb i fwy nag 1 o bob 5 o'r boblogaeth (DCMS, 2025).

Ffynhonnell: [DCMS 2025](#)

6.2.6. Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cyfrannu at y nod o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a hynny drwy ddigwyddiadau, gweithgareddau ac adnoddau sy'n cefnogi llenyddiaeth a mathau eraill o gelf a diwylliant, gan gynnwys y Gymraeg.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 3 (Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau) a HG 8 (Darpariaeth yn y Gymraeg) yn llawn gan bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru drwy gydol y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd HG 6 (Benthycu a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim), HG 9 (Catalog ac Adnoddau a Rennir) a HG 10 (Partneriaeth i Ddarparu Gwasanaethau Newydd) yn llawn neu'n rhannol gan bob gwasanaeth ym mhob blwyddyn.

Dangosyddion Ansawdd. Dros gyfnod y Fframwaith, benthycwyd cyfartaledd o 1.85 o lyfrau i oedolion bob blwyddyn fesul pob oedolyn a oedd yn byw yng Nghymru. Cyfartaledd o 4.5 o lyfrau a fenthycwyd fesul plentyn yng Nghymru bob blwyddyn, a chyfartaledd o 0.75 o e-adnoddau a fenthycwyd fesul pob unigolyn a oedd yn byw yng Nghymru (DA 8). Dros gyfnod y Chweched Fframwaith, benthycwyd cyfartaledd o 0.73 o adnoddau yn y Gymraeg fesul siaradwr Cymraeg yn y boblogaeth (DA 10). Ymhlith oedolion a ymatebodd i arolygon cwsmeriaid, dywedodd canolrif o 91% (2017 i 2020 a 2022 i 2025) fod y dewis o lyfrau yn y llyfrgell maen nhw'n ei defnyddio yn dda neu'n dda iawn (QI 2).

Parhaodd llyfrgelloedd i ychwanegu deunyddiau newydd i ddiweddarau casgliadau; roedd y gyfradd gaffael ganolrifol yn amrywio rhwng 141.0 a 244.5 am bob pen o'r boblogaeth ar draws y Chweched Fframwaith (DA 9). Roedd y gwariant canolrifol am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau Cymru yn amrywio rhwng £520 a £625 (DA10).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn darparu amrywiaeth o enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys: arwain a chymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol; darparu adnoddau a gweithgareddau yn y Gymraeg fel grwpiau darllen yn y Gymraeg ar gyfer oedolion a sesiynau Amser Rhigwm i blant; cynnal digwyddiadau yng nghwmni awduron a chymryd

rhan mewn gwyliau llenyddol a chelfyddydol; a diogelu treftadaeth gymunedol trwy archifau hanes lleol.

Mae datganiadau strategol yn atgyfnerthu'r rôl hon trwy dynnu sylw at gasgliadau Cymraeg, gwasanaethau dwyieithog a phartneriaethau sy'n cefnogi Cymraeg 2050, a hynny ochr yn ochr â digwyddiadau diwylliannol, arddangosfeydd a mentrau treftadaeth gymunedol.

6.2.7. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Mae llyfrgelloedd Cymru yn cyfrannu at y nod o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy gynllunio strategol a defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Hawliau Craidd. Bodlonwyd HG 12 (Mynediad at y Strategaeth Llyfrgelloedd) yn llawn gan rhwng 13 a 17 o wasanaethau llyfrgell yn ystod y Chweched Fframwaith.

Dangosyddion Ansawdd. Y gwariant refeniw cyfartalog am bob person a oedd yn byw yng Nghymru ar draws y Chweched Fframwaith oedd £13.08 (DA 14). Roedd y gost ganolrifol fesul ymweliad yn amrywio rhwng £1.82 a £2.76 ar gyfer y blynyddoedd pan gasglwyd y mesur hwn (DA 15).

Data ansoddol. Mae'r astudiaethau achos a'r datganiadau effaith yn rhoi rhai enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Cymru wedi cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth i bobl sydd wedi'u dadleoli oherwydd digwyddiadau byd-eang a gweithgareddau i gefnogi achosion amgylcheddol.

Weithiau mae datganiadau strategol yn cyfeirio'n benodol at gydweithio ar draws rhwydwaith cenedlaethol llyfrgelloedd Cymru, rhannu trefniadau caffael ac adnoddau, gan gynnwys LMS Cymru, sy'n cefnogi'r defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus.

6.3. Enghreifftiau o lyfrgelloedd Cymru

Mae'r enghreifftiau canlynol yn tynnu ar yr astudiaethau achos a'r datganiadau effaith o adroddiadau'r SLICC dros gyfnod Fframwaith 6. Mae'r rhain yn darparu rhai enghreifftiau darluniadol o sut y bodlonodd llyfrgelloedd un neu fwy o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.3.1. Cryfhau lles teuluol trwy gyngor a chysylltiad cymunedol

Gall gwasanaethau llyfrgell gefnogi teuluoedd sy'n profi heriau lluosog. Mae un enghraifft yn disgrifio mam a'i thri phlentyn a oedd wedi symud i'r ardal o wlad arall ac a oedd yn wynebu rhwystrau iaith, anawsterau ariannol, amodau tai gwael a phroblemau gyda bwllo yn yr ysgol. Ar ôl datblygu perthynas o ymddiriedaeth â staff y llyfrgell, trodd y fenyw at y llyfrgell i gael cymorth.

Gwnaeth staff ei rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau cyflogadwyedd, a wnaeth ei helpu i sicrhau gwaith mewn gwesty lleol, a'i chyfeirio at wasanaethau cymorth i deuluoedd. Gwnaethant hefyd weithio mewn partneriaeth â'r ysgol leol ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r bwllo a gwella sefyllfa'r teulu; roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i symud o lety rhent preifat i dai cyngor.

O ganlyniad, cafodd y fam swydd, ac roedd y teulu'n gallu symud i lety mwy addas. Dywedodd y teulu eu bod yn teimlo'n fwy diogel a sefydlog, gyda lles gwell ac ymagwedd fwy cadarnhaol tuag at y dyfodol. ([Adroddiad blynyddol Abertawe 2020 i 2021](#)).

6.3.2. Cefnogi integreiddio a chysylltiad cymunedol i drigolion o Wcráin

Gall llyfrgelloedd chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi ffoaduriaid i ailadeiladu cysylltiadau ac integreiddio i'w cymunedau. Darparodd Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili ofod diogel, cynhwysol a chroesawgar i grŵp cymunedol Wcreinaidd, a ddatblygodd o sesiwn sgwrsio Saesneg gychwynnol i fod yn gynulliad wythnosol rheolaidd.

Trwy'r sesiynau hyn, datblygodd aelodau sgiliau iaith; gwnaethant fagu hyder; a chawsant wybodaeth am dai, cyflogaeth a chymorth iechyd meddwl. Cynhaliodd y llyfrgell ddigwyddiadau diwylliannol a gweithgareddau creadigol hefyd, a oedd yn galluogi cyfranogwyr i rannu eu traddodiadau eu hunain wrth ymgysylltu â diwylliant Cymru. Rhannodd yr aelodau, "Gyda'n gilydd rydym ni wedi chwerthin, crio, rhannu storïau, gwneud ffrindiau, a darganfod darnau o'n hunain eto."

Yn ogystal â chefnogi oedolion, roedd y llyfrgell yn darparu cyfleoedd i blant chwarae, dysgu a mynegi eu hunain trwy gelf, a oedd yn helpu teuluoedd i deimlo'n fwy sefydlog. Mynegodd un aelod o'r grŵp, "Mae'r hyn a ddechreuodd fel cynnig syml o ofod wedi troi'n rhywbeth llawer mwy: lle i ymadfer, cysylltu a gobeithio." Wrth fyfyrir ar eu profiad, nododd aelod arall, "Daeth y llyfrgell yn bont rhwng ein gorffennol a'n dyfodol... byd rydym yn perthyn iddo eto." Mae'r enghraifft yn dangos sut y gall gwasanaethau llyfrgell feithrin cysylltiad, hyder a theimlad o berthyn i bobl sy'n ailadeiladu eu bywydau mewn cymuned newydd. ([Adroddiad blynyddol Caerffili 2024 i 2025](#)).

6.3.3. Cefnogi sgiliau a dyheadau pobl ifanc drwy Stordai Creadigol

Mae Sir Gaerfyrddin yn tynnu sylw at werth dau Stordy Creadigol o ran cynyddu ymgysylltiad ymhlith disgyblion y nodwyd nad ydynt yn ymgysylltu a'u bod mewn perygl o ddod yn NEET (sef heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Gan weithio mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith+ Sir Gaerfyrddin (C4W+), cynhaliwyd sesiynau creadigol fel retro-gemio ac addurno mygiau mewn llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin a Llanelli.

Mae'r Stordai Creadigol yn darparu mynediad at amrywiaeth o offer a thechnolegau digidol, ac yn cael eu cefnogi gan staff arbenigol sy'n cyflwyno sesiynau arloesol. Helpodd y gweithgareddau i feithrin hyder y cyfranogwyr; nododd un cyfranogwr fod ganddo ddiddordeb mewn dilyn prentisiaeth adeiladu gyda ffocws ar ddylunio 3D yn dilyn ei brofiad.

Roedd yr adborth o'r sesiynau'n gadarnhaol, gan gynnwys: "Aeth y sesiynau yn y llyfrgell yn dda. Roedd y staff yn y ddwy lyfrgell yn gymwynasgar iawn i'r bobl ifanc ac yn ystyriol o'u hanghenion". ([Adroddiad blynyddol Sir Gâr 2023 i 2024](#)).

6.3.4. Cefnogi dysgu ieithoedd, hyder a chysylltiadau cymdeithasol drwy grwpiau sgwrsio Cymraeg

Gall llyfrgelloedd gefnogi dysgu ieithoedd wrth gryfhau cysylltiadau cymdeithasol a lles cymunedol ar yr un pryd. Ym Mlaenau Gwent, mae grŵp sgwrsio Cymraeg wythnosol yn Llyfrgell Abertyleri yn darparu lle croesawgar i ddysgwyr a siaradwyr o bob oed feithrin hyder a datblygu eu sgiliau iaith. Dan arweiniad cynorthwyydd llyfrgell sy'n siarad Cymraeg, mae'r sesiynau'n cynnig cyfleoedd anffurfiol a chefnogol i gyfranogwyr ymarfer y Gymraeg gyda'i gilydd.

Mae'r grŵp wedi helpu cyfranogwyr i ymroi'n llawnach ym mywyd bob dydd, gan gynnwys cefnogi dysgu teuluol. Disgrifiodd un famgu sut y gwnaeth mynychu'r sesiynau ei galluogi i helpu ei hwyrion gyda gwaith ysgol yn y Gymraeg a mwynhau darllen gyda nhw. Tynnodd eraill sylw at werth y sesiynau wrth feithrin cyfeillgarwch, goresgyn rhwystrau i ddysgu a datblygu eu sgiliau mewn amgylchedd wyneb yn wyneb hamddenol.

Mae effaith y grŵp yn ymestyn y tu hwnt i ddysgu iaith. Disgrifiodd y cyfranogwyr welliannau mewn hyder, llai o ynysigrwydd a theimlad cryfach o berthyn. Nododd un gofalwr, "Mae bod yn ofalwr yn gallu bod yn ynysig... mae'r clwb yn rhoi lle imi ymlacio, dysgu, a thynnu fy meddwl oddi ar fy mhryderon." Myfyriodd cyfranogwr arall, " Mae'n wych gallu siarad Cymraeg yn Abertyleri... mae'n deimlad grymusol, gwybod fy mod i'n dysgu mwy bob wythnos." Mae'r enghraifft yn dangos sut y gall gwasanaethau llyfrgell hyrwyddo cyfranogiad diwylliannol wrth gefnogi lles, cynhwysiant a chysylltiad cymunedol. ([Adroddiad blynyddol Blaenau Gwent 2024 i 2025](#)).

6.3.5. Lleihau tlodi digidol ac anghydraddoldeb drwy fenthycu dyfeisiau a mynediad at dechnoleg

Gall llyfrgelloedd chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol, a hynny drwy ddarparu mynediad at ddyfeisiau a chefnogi pobl i ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein. Yn Sir Fynwy, datblygwyd cynllun Benthycu Gliniaduron mewn partneriaeth rhwng Addysg Gymunedol a'r Gwasanaeth Llyfrgell Strategol, a oedd yn galluogi aelodau'r llyfrgell i fenthycu gliniaduron yn yr un modd â llyfrau.

Trwy'r cynllun, cafodd Chromebooks eu darparu ar draws hybiau cymunedol a llyfrgelloedd; roedd hyn yn helpu i ddiwallu'r galw cynyddol am fynediad digidol, gan gynnwys dysgu o bell a thasgau ar-lein bob dydd. Trwy gael gwared ar rwystrau i fynediad at ddyfeisiau, mae'r fenter yn cefnogi unigolion na allent fynd ar-lein fel arall.

Roedd adborth cynnar yn dangos bod y cynllun wedi galluogi defnyddwyr i gyflawni gweithgareddau hanfodol fel diweddarau CVs a chwilio am waith. Mae'r enghraifft yn dangos sut y gall gwasanaethau llyfrgell helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb digidol trwy ddarparu mynediad ymarferol at dechnoleg a chefnogi unigolion i gymryd rhan yn fwy llawn mewn bywyd digidol. ([Adroddiad blynyddol Sir Fynwy 2023 i 2024](#)).

7. Newidiadau mewn gwariant ar stoc

Ceisiodd yr ymchwili ateb y cwestiwn 'I ba raddau y mae'r gwariant ar stoc mewn gwasanaethau llyfrgell wedi newid dros gyfnod y Fframwaith?'

Mae data ynghylch y gwariant ar stoc yn cael ei gasglu trwy DA 9 a DA 14. Yn ystod cyfnod yr Atodiad, addaswyd y targed ar gyfer DA 9 a chafodd ei fesur fel nifer yr eitemau a gaffaelwyd yn unig. Yn flaenorol, roedd gwasanaethau'n adrodd ar y gwariant a'r eitemau a gaffaelwyd am bob pen o'r boblogaeth.

Dros gyfnod y Chweched Fframwaith, gwelodd 16 awdurdod ostyngiad yng nghyfanswm y gwariant ar stoc, a nodwyd cynnydd gan y 6 a oedd yn weddill. Y newid canrannol canolrifol oedd -21.9%. Gostyngodd y gwariant canolrifol a chymedrig am bob pen o'r boblogaeth ar ddechrau'r pandemig COVID-19, yna cododd eto i fod yn agos at y lefelau cyn COVID-19 cyn gostwng ymhellach tua diwedd cyfnod y Fframwaith (Tabl 7.1).

Tabl 7.1: Gwariant ar stoc am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	£2,520	£2,497	£2,274	£2,345	£2,405	£2,386	£2,876	£2,370
Canolrif	£1,499	£1,549	£1,413	£1,257	£1,418	£1,374	£1,297	£1,086
Isel	£312	£701	£741	£796	£753	£902	£487	£450
Amrediad	£2,208	£1,796	£1,533	£1,549	£1,652	£1,484	£2,389	£1,920
Chwartel isaf	£1,283	£1,385	£1,306	£995	£1,206	£1,189	£1,097	£919
Chwartel uchaf	£1,665	£1,697	£1,648	£1,562	£1,734	£1,666	£1,550	£1,621
Amrediad rhyngchwartel	£382	£311	£342	£567	£528	£477	£453	£702
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	£1,609	£1,597	£1,463	£1,321	£1,518	£1,484	£1,393	£1,280


Ffynhonnell: DASLICC 9 a DASLICC 14

Roedd yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel ill dau yn amrywio drwy gydol cyfnod y Fframwaith, ond nid oedd unrhyw dueddiadau amlwg dros amser. Ar ben hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth sylweddol yn y gwariant ar stoc rhwng awdurdodau trefol a gwledig.

Mae dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol o ran gwariant ar ddeunyddiau ar draws holl awdurdodau llyfrgell Cymru (gan gymryd 2017 i 2018 fel y flwyddyn sylfaen) yn dangos patrwm gwariant sy'n amrywio (Ffig 7.1). Gostyngodd y gwariant cyn, ac yn ystod, camau cynnar y pandemig COVID-19. Ymadferodd ychydig yn ddiweddarach yn y pandemig ac yna arhosodd yn gymharol sefydlog tan tua diwedd cyfnod y Fframwaith, pan fu gostyngiad arall. Roedd cyfanswm y gwariant a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth ill dau yn dilyn patrwm tebyg. Ar ddiwedd y Fframwaith, roedd y gwariant ar stoc yn genedlaethol tua 80% o sylfaen 2017 i 2018, er y gallai cyflwyno'r LMS ddiwedd 2024 fod wedi effeithio ar y ffigur hwn. Mae hefyd yn werth nodi, o ystyried [chwyddiant](#), fod y gwariant ar stoc tua thair rhan o

bump o'i lefel rhwng 2017 a 2018 mewn termau real, ac nid oedd y gwariant ar stoc mewn unrhyw wasanaethau wariant stoc yn cynyddu'n unol â chwyddiant.

Ffigur 7.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar stoc




Disgrifiad o Ffigur 7.1: Graff llinell sy'n cynnwys tair llinell liw sy'n dangos dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar stoc. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y gwariant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos y gwariant am bob pen o'r boblogaeth o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell tri yn dangos chwyddiant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC 9 a DASLICC 14

Yn y blynyddoedd y mae data ar gael ar eu cyfer, roedd y gwariant canolrifol fesul eitem yn amrywio rhwng £7.92 a £9.12 yr eitem (Ffig 7.2). Mae'n werth nodi mai dim ond 13c oedd y gwahaniaeth rhwng y gwariant fesul eitem ar ddechrau a diwedd y Fframwaith. Pe bai chwyddiant yn cael ei ystyried, byddai disgwyl i gost eitem gyfwerth â'r hyn a brynwyd am £8.04 yn 2017 i 2018 (sef y canolrif yn y flwyddyn honno) fod yn £10.67 yn 2023 i 2024 (sef gwahaniaeth o £2.63).

Ffigur 7.2: Gwariant canolrifol fesul eitem



Disgrifiad o Ffigur 7.2: Graff llinell sy'n cynnwys un llinell liw sy'n dangos y gwariant canolrifol fesul eitem. Mae llinell un yn dangos y gwariant fesul eitem o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2023 i 2024.

Ffynhonnell: SLICC 9 a SLICC 14

Arhosodd canran y gwariant ar adnoddau i blant yn weddol sefydlog, sef rhwng 17% a 19% o gyfanswm y gyllideb ddeunyddiau drwy gydol y Chwched Fframwaith (Tabl 7.2). Ychydig iawn y newidiodd yr amrediad rhyngchwartel chwaith, gan amrywio rhwng 3% a 6%. Wrth gymharu ffigurau 2017 i 2018 a 2023 i 2024, adroddodd 12 gwasanaeth ostyngiad yn y ganran o'u cyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant, ond i'r rhan fwyaf, roedd y newid yn fach, a'r newid canrannol canolrifol oedd -1.5%.


Tabl 7.2: Canran o'r gwariant ar stoc a ddyrannwyd i adnoddau ar gyfer plant

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	31%	29%	26%	27%	28%	28%	26%
Canolrif	17.5%	18%	17%	19%	18%	19%	17%
Isel	6%	12%	13%	7%	11%	12%	12%
Amrediad	25%	17%	13%	20%	17%	16%	14%
Chwartel isaf	16%	15%	15%	16%	16.5%	18%	15%
Chwartel uchaf	21%	21%	21%	21%	22.5%	21%	21%
Amrediad rhyngchwartel	5%	6%	6%	5%	6%	3%	6%

Ffynhonnell: DASLICC 9

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol yn seiliedig ar ffigurau amcangyfrifedig a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r gyllideb lyfrau a'r ganran a ddyrannwyd i adnoddau plant a adroddwyd mewn ffurflenni (Ffig 7.3). Er yn cydnabod mai amcangyfrif yw hwn, mae'n awgrymu bod gwariant yn is yn 2023 i 2024 (sef y flwyddyn olaf y mae data ar gael ar ei chyfer) nag ar ddechrau cyfnod y Fframwaith. Gwnaeth gostyngiad bach cyn COVID-19 gyflymu ar ddechrau cyfnod y pandemig, ond yna ymadferodd eto cyn gostwng ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Gostyngodd gwariant am bob pen o'r boblogaeth tua 15%, o tua £1.69 y plentyn yn 2017 i 2018 i tua £1.43 y plentyn yn 2023 i 2024. Mae hefyd yn werth nodi bod y bwlch rhwng y gwariant a chwyddiant yn 2023 i 2024 yn fwy ar gyfer adnoddau plant nag yr oedd ar gyfer adnoddau llyfrgell yn gyffredinol.

Ffigur 7.3: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar adnoddau ar gyfer plant



Disgrifiad o Ffigur 7.3: Graff llinell sy'n cynnwys dwy linell liw sy'n dangos dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar adnoddau ar gyfer plant. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y gwariant ar adnoddau plant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2023 i 2024. Mae llinell dau yn dangos chwyddiant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2023 i 2024.

Ffynhonnell: DASLICC 9 a DASLICC 14

7.1. Crynodeb

Mae tystiolaeth glir bod y gwariant ar stoc wedi gostwng dros gyfnod y Chweched Fframwaith. Roedd y gwariant yn gostwng yn raddol cyn COVID-19, a chyflymwyd y tueddiad hwn yn ystod cyfnod y pandemig. Er y bu adferiad bach yn y cyfnod ar ôl COVID-19, ni ddychwelodd y gwariant ar stoc i'r lefelau cyn COVID-19. Pan ystyrir chwyddiant, mae'r gostyngiad mewn gwariant dros gyfnod y Fframwaith hyd yn oed yn fwy amlwg.

Fodd bynnag, nid yw gostyngiad mewn cyllidebau deunyddiau o anghenraid wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr eitemau a brynwyd, am fod y gwariant fesul eitem yn dilyn tueddiad gwahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd yn seiliedig ar ddata chwyddiant. Mae nifer o resymau posibl dros hyn: mae gwasanaethau llyfrgell yn debygol o geisio gwneud y defnydd gorau o gyllidebau cynyddol gyfyngedig ac yn gwneud penderfyniadau prynu gyda hyn mewn golwg. Fodd bynnag, mae nodi rhesymau dros hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon.

Ffigur 7.4: Cyd-destun ehangach ar gyfer y gwariant ar adnoddau llyfrgell

Gwariant ar adnoddau llyfrgell: Llyfrgelloedd yn yr Alban	1. Roedd y gwariant fesul unigolyn ar adnoddau llyfrgell yn yr Alban wedi amrywio rhwng 50c a £2.41 yn 2024 i 2025. Adroddwyd mai gwariant lwerddon yw £3 fesul unigolyn ar adnoddau llyfrgell (SLIC, 2025)
--	--

Disgrifiad o Ffigur 7.4: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro bod y gwariant fesul unigolyn ar adnoddau llyfrgell yn yr Alban wedi amrywio rhwng 50c a £2.41 yn 2024 i 2025. Adroddwyd bod lwerddon yn gwario £3 fesul unigolyn ar adnoddau llyfrgell (SLIC, 2025).

Ffynhonnell: [SLIC 2025](#)

8. Gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'I ba raddau y mae'r gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg wedi newid dros gyfnod y Chweched Fframwaith?'

Yn ystod cyfnod yr Atodiad, addaswyd y targed ar gyfer DA 10 a chafodd ei fesur fel canran o'r gyllideb ddeunyddiau yn unig. Yn flaenorol, roedd gwasanaethau'n adrodd ar ganran y gyllideb ddeunyddiau a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Arhosodd y ganran ganolrifol o'r gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg rhwng 4% a 5.5% drwy gydol cyfnod y Chweched Fframwaith. Cymharol fach oedd y newid hefyd yn y gwariant canolrifol fesul siaradwr Cymraeg, er bod hyn ar ei isaf yn ystod y pandemig COVID-19 yn 2020 i 2021 ac ar ei uchaf tua diwedd cyfnod y Fframwaith. Roedd y ffigur cymedrig am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol yn dilyn patrwm tebyg i'r canolrif, er bod hyn ychydig yn uwch yn y rhan fwyaf o flynyddoedd oherwydd nifer fach o awdurdodau â ffigurau gwariant uwch. Roedd newid yn yr awdurdodau yn y grŵp hwn â'r gwariant uwch dros gyfnod y Fframwaith. Roedd hyn yn dangos y gallai prynu adnoddau yn y Gymraeg fod yn flaenoriaeth mewn blwyddyn benodol, neu flynyddoedd penodol, yn hytrach na bod yn nodwedd hirdymor o batrymau gwariant o fewn awdurdod penodol.

Mae Tabl 8.1 yn nodi crynodeb o'r data ar gyfer gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau yn y Gymraeg.

Tabl 8.1: Data gwariant am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024^[1]
Uchel	£1,402	£1,630	£1,086	£1,930	£1,442	£1,440	£1,412
Canolrif	£496	£523	£497	£390	£555	£550	£572
Isel	£12	£174	£116	£236	£188	£312	£64
Amrediad	£1,390	£1,456	£970	£1,694	£1,254	£1,128	£1,348
Chwartel isaf	£309	£428	£296	£315	£365	£449	£397
Chwartel uchaf	£750	£808	£734	£527	£748	£881	£769
Amrediad rhyngchwartel	£441	£380	£438	£212	£383	£432	£372
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	£523	£570	£542	£520	£550	£625	£586

Ffynhonnell: DASLICC 10


[1] Ffigurau amcangyfrifedig yn seiliedig ar ganran y gwariant ar ddeunyddiau a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg.

Roedd gan bedwar ar ddeg o wasanaethau wariant uwch am bob pen o'r boblogaeth ar ddeunyddiau Cymraeg ar ddiwedd cyfnod y Fframwaith nag ar y dechrau. Er mai cynnydd o 21% oedd y newid ganolrifol, cynyddodd gwariant 3 gwasanaeth am bob pen o'r boblogaeth bedair gwaith neu fwy. Roedd lledaeniad ffigurau'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth

ledled Cymru yn amrywio, fel y dangosir gan yr amrediad rhyngchwartel a'r amrediad, a oedd yn amrywio dros gyfnod y Fframwaith, a hynny heb unrhyw dueddiadau clir a oedd yn amlwg dros amser.

Mae dadansoddiad o'r tueddiad canrannol o gyfanswm y gwariant ar draws awdurdodau llyfrgell Cymru (gan gymryd 2017 i 2018 fel y flwyddyn sylfaen) yn dangos patrwm gwariant sy'n amrywio (Ffig 8.1).

Ffigur 8.1: Dadnsoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â'r gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg



Disgrifiad o Ffigur 8.1: Graff llinell sy'n cynnwys tair llinell liw sy'n dangos dadansoddiad o'r tueddiadau canrannol o'r gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y gwariant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2023 i 2024. Mae llinell dau yn dangos y gwariant fesul siaradwr Cymraeg o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2023 i 2024. Mae llinell tri yn dangos chwyddiant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2023 i 2024.

Ffynhonnell: DASLICC 10

Bu gostyngiad nodedig yng nghyfanswm y gwariant a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth yn ystod y pandemig COVID-19, ond cododd y gwariant yn y cyfnod yn syth ar ôl y pandemig. Ymddengys bod ffigurau gwariant wedi gostwng ychydig ar ddiwedd y cyfnod y mae data ar gael ar ei gyfer. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffigurau 2023 i 2024 yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y ganran o gyfanswm y gyllideb, felly efallai nad ydynt yn hollol gywir. Mewn cyferbyniad â'r gwariant ar stoc yn gyffredinol, roedd y gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg ychydig yn uwch (4%) ar ddiwedd y Chweched Fframwaith o gymharu â 2017 i 2018, gyda chynnydd mwy nodedig (12%) pan ystyrir nifer y siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, pan ystyrir chwyddiant, er bod cyfradd y cynnydd yng nghyfanswm y gwariant a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth yn 2018 i 2019 yn uwch na chwyddiant, am weddill

y Chweched Fframwaith, roedd cyfanswm y gwariant a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau yn y Gymraeg yn is na'u gwerth cyfatebol yn 2017 i 2018. Serch hynny, mewn 6 gwasanaeth cynyddodd y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg fwy na chyfradd chwyddiant yn ystod y Chweched Fframwaith. Roedd gan yr holl awdurdodau a gynyddodd eu gwariant o fwy na chyfradd chwyddiant lai na 15% o'r siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth.

Fel y disgwyliwyd, mae perthynas gadarnhaol gryf rhwng cyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn awdurdod lleol, er bod y berthynas hon yn llai cryf yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19 (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.687 a 0.862, $p < 0.01$, ac eithrio 2020-21). Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar y Gymraeg mewn awdurdodau trefol a gwledig mewn rhai blynyddoedd, ond nid oedd hyn yn gyson drwy gydol y Chweched Fframwaith. Felly mae'n anodd dod i gasgliadau pendant am y berthynas rhwng y math o awdurdod a'r gwariant ar y Gymraeg.

8.1. Crynodeb

Effeithiwyd yn llai ar y gwariant ar y Gymraeg gan gyllidebau stoc sy'n gostwng nag sydd yn wir am y gwariant ar stoc yn gyffredinol. Er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar wariant, ymadferodd ar ôl y pandemig ac mae cyfanswm y gwariant a'r gwariant am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi codi dros gyfnod y Fframwaith. Serch hynny, mae'r gwariant wedi methu â chynyddu'n unol â chwyddiant yn y rhan fwyaf o awdurdodau.

9. Newidiadau yn y dyraniad adnoddau o ran y gwariant ar e-adnoddau

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn: 'I ba raddau y bu newidiadau yn y dyraniad adnoddau sy'n cael ei wario ar e-adnoddau?'

Dim ond trwy DA 9 yn ystod cyfnod yr Atodiad y cafodd data ar ddyraniad y gwariant ar e-adnoddau ei adrodd pan wnaeth awdurdodau adrodd ar ganran y gyllideb ddeunyddiau a ddyrannwyd i e-adnoddau. Roedd y gwariant canrannol canolrifol yn weddol debyg yn y ddwy flynedd, gan godi ychydig rhwng 2024 a 2025 (gweler Tabl 9.1). Fodd bynnag, roedd y gwariant cymedrig am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol 16% yn is yn 2024 i 2025 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oedd un o'r awdurdodau â'r gwariant uchaf yn 2023 i 2024 wedi darparu data yn 2024 i 2025 [[troednodyn 1](#)]. Roedd yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel yn llai yn 2024 i 2025, sy'n dangos bod mwy o gysondeb mewn gwariant ledled y wlad.

Tabl 9.1: Gwariant ar e-adnoddau

	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	49%	28%
Canolrif	15.5%	17%
Isel	4%	5%
Amrediad	45%	23%
Chwartel isaf	8%	10.5%
Chwartel uchaf	22%	19.5%
Amrediad rhyngchwartel	14%	9%
Gwariant cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	£211.37	£177.86

Ffynhonnell: DASLICC 9

O ystyried y data cyfyngedig sydd ar gael, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant ynghylch newidiadau dros amser o ran dyraniad e-adnoddau. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod gwahaniaeth mewn gwariant yn dibynnu a yw awdurdod yn cael ei ystyried yn wledig neu'n drefol. Fel y gellid disgwyl, roedd awdurdodau â dyraniadau adnoddau mwy yn tueddu i wario mwy ar e-adnoddau. Fodd bynnag, nid oedd newidiadau yng nghyfanswm yr adnoddau a ddyrannwyd rhwng 2023 a 2024 a 2024 i 2025 yn cyfateb yn uniongyrchol i newidiadau o ran y ddarpariaeth e-adnoddau (h.y. nid oedd cynnydd/gostyngiad yng nghyfanswm y dyraniad adnoddau o reidrwydd yn arwain at gynnydd/gostyngiad cyfatebol yn y dyraniad e-adnoddau). Mae hyn yn dangos bod ffactorau heblaw am gyfanswm y gyllideb sydd ar gael i wasanaethau llyfrgell yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch e-gaffael. Mae rhywfaint o dystiolaeth o berthynas rhwng dyraniad e-adnoddau ac e-fenthyciadau, fel y disgrifir ym Mhennod 10.

Troednodiadau

[1] Gan mai dim ond data un flwyddyn sydd gan yr awdurdod hwn, nid yw'n bosibl amcangyfrif gwerth ar gyfer y flwyddyn goll.

Ffigur 9.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer y gwariant ar e-adnoddau

Gwariant ar e-adnoddau	1. Yn 2019 i 2020, nododd CIPFA gynnydd o 7% mewn gwariant ar ddeunyddiau digidol, gan gynnwys e-lyfrau (CIPFA, 2020)
-------------------------------	---

Disgrifiad o Ffigur 9.1: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro bod CIPFA wedi nodi cynnydd o 7% mewn gwariant ar ddeunyddiau digidol, gan gynnwys e-lyfrau, yn 2019 i 2020 (CIPFA, 2020).


Ffynhonnell: [CIPFA 2020](#)

10. Newidiadau mewn achosion o fenthycha gan y gwasanaeth llyfrgell

Roedd yr ymchwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn 'I ba raddau y bu newidiadau o ran benthyciadau gan wasanaethau llyfrgell yn ystod cyfnod Chwedd Fframwaith SLICC?'

Mae data ynghylch benthyciadau (neu achosion o fenthycha) yn cael ei gasglu drwy DA 8 a DA 10. Gan ystyried yr holl fathau o fenthyciadau (h.y. rhai copi caled a rhai digidol), bu gostyngiad bach yn ffigurau'r benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth cyn COVID-19, ac yna gostyngiad sylweddol ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, gwnaeth nifer y benthyciadau ymadfer yn gyflym ac erbyn 2023 i 2024, roeddent 6% yn uwch na'r ffigurau ar ddechrau'r Chwedd Fframwaith, ac ar gynnydd (Ffig 10.1).

Ffigur 10.1: Tueddiadau yng nghyfanswm y benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth



Disgrifiad o Ffigur 10.1: Graff llinell sy'n cynnwys un llinell liw sy'n dangos y tueddiadau yng nghyfanswm y benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y benthyciadau o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2023 i 2024.

Ffynhonnell: DASLICC 8

Fodd bynnag, er gwaethaf y tueddiad calonogol hwn, mae'n bwysig nodi bod y ffigurau canolrifol, ffigurau'r chwarter isaf a rhai'r chwarter uchaf ar gyfer benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth i gyd wedi aros yn is nag yr oeddent cyn COVID-19 (Tabl 10.1). Cafodd y cynnydd yn nifer gymedrig y benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol ei ysgogi gan nifer fach o wasanaethau ar ben uchaf yr amrediad. Mae'n werth nodi bod y grŵp hwn o awdurdodau â ffigurau benthyciadau uwch yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, ac nid oes tystiolaeth o wahaniaeth sylweddol yn ffigurau'r benthyciadau

rhwng awdurdodau gwledig a threfol. Cynyddodd nifer y benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth mewn saith awdurdod yn ystod cyfnod y Fframwaith, a nodwyd gostyngiad gan y 15 sy'n weddill.

Roedd cyfanswm y benthyciadau fesul unigolyn a oedd yn byw yng Nghymru yn amrywio rhwng 1.41 a 3.70 y flwyddyn yn ystod y Chweched Fframwaith, gyda chyfartaledd o 3.06.

Tabl 10.1: Benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth


	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	5,783	6,304	5,970	3,086	5,297	8,261	7,942
Canolrif	3,300	3,202	3,313	1,166	1,919	2,612	2,818
Isel	1,790	1,943	1,415	623	997	1,432	1,093
Amrediad	3,993	4,361	4,555	2,463	4,301	6,830	6,849
Chwartel isaf	2,815	2,863	2,770	934	1,623	2,259	2,538
Chwartel uchaf	3,863	3,891	3,731	1,610	2,536	3,578	3,459
Amrediad rhyngchwartel	1,049	1,028	961	676	913	1,319	921
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	3,478.5	3,461.9	3,332.1	1,412.2	2,564.0	3,459.2	3,699.9

Ffynhonnell: DASLICC 8

Mae tystiolaeth o gydberthynas gadarnhaol gryf i gref iawn rhwng cyfanswm y benthyciadau a chyfanswm y gwariant ar adnoddau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2017 i 2018 a 2023 i 2024 (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.768 a 0.921, $p < 0.01$). Mae tystiolaeth hefyd o berthynas gadarnhaol gref rhwng cyfanswm yr oriau agor a chyfanswm y benthyciadau ar gyfer y blynyddoedd y mae data ar gael ar eu cyfer (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.799 a 0.856, $p < 0.01$). Yn ogystal, mae cydberthynas gadarnhaol gymedrol i gryf rhwng cyfanswm y benthyciadau a chyfanswm y staff (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.611 a 0.811, $p < 0.01$). Mae awdurdodau â gwariant uwch, mwy o staff ac oriau agor hirach yn dueddol o fod â ffigurau benthyciadau uwch. Roedd cydberthynas wan i gymedrol hefyd rhwng staff cymwysedig a chyfanswm y benthyciadau yn ystod tair blynedd gyntaf y Fframwaith (cyn COVID-19) (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.431 a 0.574, $p < 0.05$), ond ni chynhaliwyd hyn ar ôl COVID-19.

O dan y patrwm hwn o ran nifer y benthyciadau'n gyffredinol, newidiodd y gwahanol fathau o ddeunyddiau a fenthycwyd dros gyfnod y Chweched Fframwaith (Ffig 10.2).

Ffigur 10.2: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â chategorïau benthyciadau



Disgrifiad o Ffigur 10.2: Graff llinell sy'n cynnwys pum llinell liw sy'n dangos y dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas â chategorïau benthyciadau. Mae llinell un yn dangos benthyciadau ar gyfer oedolion o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos benthyciadau ar gyfer plant o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell tri yn dangos eitemau clyweledol a fenthycwyd o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell pedwar yn dangos benthyciadau yn y Gymraeg o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell pump yn dangos y cyfanswm o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC 8 a DASLICC10

10.1. Benthyciadau llyfrau ar gyfer oedolion

Yn genedlaethol, roedd nifer y benthyciadau llyfrau ar gyfer oedolion am bob pen o'r boblogaeth yn gostwng yn raddol cyn y pandemig. Ar ôl gostwng yn sydyn yn 2020 i 2021, gwnaethant ymadfer ychydig, ond erbyn 2023 i 2024, roeddent yn dal i fod ymhell islaw'r ffigurau cyn y pandemig, er eu bod yn parhau i gynyddu'n araf. Yn genedlaethol, gostyngodd y benthyciadau 31.0% dros y cyfnod casglu data (Ffig. 10.2). Adroddodd pob awdurdod fenthyciadau is ar gyfer oedolion yn 2023 i 2024 nag a wnaethant yn 2017 i 2018. Roedd ffigurau'r benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer y canolrif, y chwarter uchaf a'r chwarter isaf i gyd yn is na'r lefelau cyn y pandemig ar ddiwedd y cyfnod casglu data (Tabl 10.2).

Roedd y benthyciadau ar gyfer oedolion fesul oedolyn yng Nghymru yn amrywio rhwng 0.44 a 2.69 y flwyddyn yn ystod y Chwedd Fframwaith, gyda chyfartaledd o 1.85.

Tabl 10.2: Benthyciadau ar gyfer oedolion am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	4,590	5,094	4,560	647	2,505	2,815	3,117
Canolrif	2,005	1,969.5	1,806	365	915.5	1,349.5	1,270.5
Isel	1,184	1,279	1,463	173	466	805	558
Amrediad	3,406	3,815	3,097	474	2,039	2,010	2,559
Chwartel isaf	1,791	1,688	1,574	297	696	1,144	1,139
Chwartel uchaf	2,429	2,313	2,311	525	1,013	1,400	1,617
Amrediad rhyngchwartel	638	625	737	228	317	256	478
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	2,692.1	2,638.4	2,384.5	439.4	1,242.3	1,746.2	1,840.9

Ffynhonnell: DASLICC 8

Mae tystiolaeth o gydberthynas gadarnhaol gryf rhwng y gwariant ar adnoddau a benthyciadau ar gyfer oedolion (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.708 a 0.902, $p < 0.01$). Roedd awdurdodau â chyllidebau llyfrau mwy yn tueddu i adrodd nifer uwch fenthyciadau ar gyfer oedolion.

Ac eithrio'r blynyddoedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig COVID-19 (2020 i 2021 a 2021 i 2022), roedd rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ($p < 0.05$) rhwng awdurdodau trefol ac awdurdodau gwledig; roedd nifer y benthyciadau ar gyfer oedolion am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau gwledig yn tueddu i fod yn uwch.

10.2. Benthyciadau llyfrau ar gyfer plant

Cynyddodd benthyciadau llyfrau ar gyfer plant am bob pen o'r boblogaeth yn sylweddol yn ystod y Chweched Fframwaith. Yn yr un modd â benthyciadau ar gyfer oedolion, roedd benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol yn gostwng yn raddol cyn COVID-19, a gwnaethant ostwng yn sydyn ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, ar ôl COVID-19, ymadferodd y ffigurau'n gyflym, ac roedd y benthyciadau ar gyfer plant yn genedlaethol uwchlaw'r lefelau cyn y pandemig o 2022 i 2023 ymlaen (Ffig 10.2). Roedd benthyciadau ar gyfer plant 17% yn uwch yn 2023 i 2024 nag yr oeddent ar ddechrau cyfnod y Fframwaith. Fodd bynnag, er bod ffigurau cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth (cymedr) wedi codi, roedd y canolrif am bob pen o'r boblogaeth ychydig yn is yn 2023 i 2024 nag yr oedd yn 2017 i 2018. Roedd ffigurau'r chwartel uchaf a'r chwartel isaf hefyd yn is nag yr oeddent ar ddechrau'r Fframwaith (Tabl 10.3). Mewn gwirionedd, dim ond 6 awdurdod a adroddodd gynnydd yn y benthyciadau ar gyfer plant am bob pen o'r boblogaeth rhwng 2017 a 2018 a 2023 i 2024, ac roedd llawer o'r cynnydd cenedlaethol wedi'i ysgogi gan gynnydd dramatig yn y benthyciadau ar gyfer plant yng Nghaerdydd. Roedd prifddinas y genedl yn allanolyn o ran benthyciadau ar gyfer plant o gymharu ag awdurdodau eraill yn ystod y cyfnod ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oedd

gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran benthyciadau ar gyfer plant rhwng awdurdodau trefol ac awdurdodau gwledig.

Roedd benthyciadau ar gyfer plant fesul plentyn yng Nghymru yn amrywio rhwng 0.61 a 6.09 y flwyddyn yn ystod y Chwched Fframwaith, gyda chyfartaledd o 4.5.

Tabl 10.3: Benthyciadau ar gyfer plant am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	1,817	1,449	1,213	277	2,073	2,964	2,005
Canolrif	813.5	804.5	816	100.5	420.5	708	794.5
Isel	322	270	260	23	94	212	277
Amrediad	1,495	1,179	953	254	1,979	2,752	1,728
Chwartel isaf	669	718	714	72	364	547	609
Chwartel uchaf	1,076	1,028	1,035	132	592	841	959
Amrediad rhyngchwartel	407	310	321	60	228	294	350
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	5,222.9	5,036.1	4,958.9	606.2	3,899.0	5,679.2	6,087.7

Ffynhonnell: DASLICC 8

Mae tystiolaeth o gydberthynas gadarnhaol gryf rhwng ffigurau benthyciadau ar gyfer plant a'r gwariant ar adnoddau ar gyfer plant. Fel y gellid disgwyl, roedd hyn ychydig yn wannach yn 2020 i 2021 ar anterth y pandemig, ond am weddill y Fframwaith, roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.772 a 0.885, ($p < 0.01$). Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau â gwariant uwch ar adnoddau ar gyfer plant yn tueddu i adrodd ffigurau uwch ar gyfer benthyciadau ar gyfer plant.

10.3. Benthyciadau Clyweledol

At ei gilydd, roedd gostyngiad o 59% yn nifer y benthyciadau clyweledol yn genedlaethol. Dim ond un awdurdod a welodd gynnydd yn y benthyciadau clyweledol am bob pen o'r boblogaeth yn ystod cyfnod y Fframwaith. Yn gyffredin â mathau eraill o adnoddau, gostyngodd benthyciadau clyweledol yn sylweddol ar ddechrau'r pandemig COVID-19. Er bod rhywfaint o adferiad yn y blynyddoedd dilynol, arhosodd y ffigurau canolrifol, cymedrig, chwartel uchaf a chwartel isaf yn y cyfnod ar ôl y pandemig i gyd yn is nag yr oeddent ar ddechrau'r Fframwaith (Tabl 10.4). Nid yw hyn yn syndod am fod COVID-19 wedi cyflymu mynediad at dechnolegau newydd i rai cwsmeriaid, gan leihau'r galw am fformatau clyweledol hŷn.

Tabl 10.4: Benthyciadau clyweledol am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	244	324	235	95	147	189	155
Canolrif	107.5	116.5	107	23	41.5	46	44
Isel	56	50	46	6	14	10	15
Amrediad	188	274	189	89	133	179	140
Chwartel isaf	88	91	60	16	37	35	35
Chwartel uchaf	162	167	140	29	73	58	56
Amrediad rhyngchwartel	74	76	80	13	36	23	21
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	122.2	125.3	110.2	23.1	56.1	52.5	50.0

Ffynhonnell: DASLICC 8

10.4. Benthyciadau yn y Gymraeg

Roedd benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn gymharol sefydlog cyn y pandemig. Ar ôl gostwng yn 2020 i 2021, gwnaethant ddechrau cynyddu ac roeddent yn uwch na'r ffigurau cyn y pandemig o 2022 i 2023 ymlaen. Cynyddodd cyfanswm y benthyciadau'n genedlaethol 45% dros gyfnod y Fframwaith (Ffig 10.2). Fodd bynnag, roedd y ffigur canolrifol ar gyfer awdurdodau Cymru yn debyg yn 2023 i 2024 i'r ffigur yn 2017 i 2018 (Tabl 10.5). Adroddodd un ar ddeg o awdurdodau gynnydd yn y benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth, tra bod yr 11 o awdurdodau eraill wedi adrodd gostyngiad. Ymddengys bod y cynnydd yn y ffigurau cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth (cymedr) wedi'i ysgogi gan ddau ffactor: 1) mwy o fenthyciadau ymhlith awdurdodau lleol ar ben isaf yr amrediad wrth i'r ffigurau chwartel isaf a lleiaf godi; a 2) cynnydd ymhlith yr awdurdodau a oedd yn perfformio orau, a ddangosir gan allanolynnau ar ben uchaf yr amrediad yn ystod y blynyddoedd olaf o gasglu data. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth sylweddol yn y benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau gwledig o gymharu ag awdurdodau trefol.

Roedd benthyciadau yn y Gymraeg fesul siaradwr Cymraeg yn amrywio rhwng 0.17 ac 1.11 y flwyddyn yn ystod y Chweched Fframwaith, gyda chyfartaledd o 0.73.

Tabl 10.5: Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Uchel	1,462	1,424	1,468	467	1,105	2,644	2,725
Canolrif	630	601	641	63	340	570	632
Isel	73	95	311	17	71	174	161
Amrediad	1,389	1,329	1,157	450	1,034	2,470	2,564
Chwartel isaf	378	417	406	42	232	454	510
Chwartel uchaf	847	903	853	111	573	741	853
Amrediad rhyngchwartel	469	486	447	69	341	287	343
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	765.9	771.5	756.9	171.0	538.6	1,030.2	1,110.8

Ffynhonnell: DASLICC 10

Roedd tystiolaeth o gydberthynas isel i gymedrol rhwng benthyciadau yn y Gymraeg a'r gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.340 a 0.768, $p < 0.05$), ond nid yw'r gydberthynas hon mor gryf ag y mae ar gyfer mathau eraill o adnoddau. Er y gallai gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg gael rhywfaint o effaith ar ffigurau benthyciadau, mae'n debygol y bydd ffactorau eraill sy'n bwysig. Gall ffactorau sy'n effeithio ar ffigurau benthyciadau yn y Gymraeg gynnwys darparu gweithgareddau a digwyddiadau yn y Gymraeg, a'r graddau y mae casgliadau yn y Gymraeg yn cyd-fynd ag anghenion siaradwyr lleol (e.e. lefel y deunyddiau). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau ynghylch i ba raddau y gallai ffactorau o'r fath gael effaith ar sail data SLICC yn unig.

10.5. E-fenthyciadau


Fel y gellir ei weld o Ffigur 10.3, roedd e-fenthyciadau yn dilyn patrwm gwahanol i fathau eraill o adnoddau a fenthycwyd yn ystod y Chweched Fframwaith. Yn genedlaethol, cynyddodd e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth fwy na chwe gwaith drosodd yn ystod y Fframwaith, ac roeddent ar gynnydd ar ddiwedd y cyfnod. Cododd y gwerthoedd canolrif, chwartel uchaf, chwartel isaf, a'r gwerthoedd uchaf ac isaf i gyd rhwng 2017 a 2018 a 2024 i 2025 (Tabl 10.6). Yn dilyn cynnydd sydyn rhwng 2020 a 2021 ar ddechrau cyfnod y pandemig COVID-19, gostyngodd e-fenthyciadau ychydig, ond yng nghyfnod yr Atodiad, roeddent yn uwch na lefelau 2020 i 2021 ac yn parhau i gynyddu. Adroddodd pob awdurdod lleol gynnydd mewn e-fenthyciadau dros gyfnod y Chweched Fframwaith. Yn genedlaethol, cynyddodd e-fenthyciadau 542% rhwng 2017 i 2018 a 2024 i 2025.

Roedd e-fenthyciadau fesul unigolyn yn amrywio rhwng 0.21 ac 1.38 y flwyddyn yn ystod y Chweched Fframwaith, gyda chyfartaledd o 0.75.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod Caerdydd yn allanolyn yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Er bod y tueddiad yn yr awdurdod hwn yn debyg i'r tueddiad mewn llawer o awdurdodau eraill yng Nghymru, roedd maint y cynnydd yn wahanol wrth i e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth yn rhanbarth y brifddinas godi bron naw gwaith drosodd. Fodd bynnag, nid oedd

unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth sylweddol mewn e-fenthyciadau rhwng awdurdodau trefol ac awdurdodau gwledig.

Ffigur 10.3: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas ag e-fenthyciadau



Disgrifiad o Ffigur 10.3: Graff llinell sy'n cynnwys dwy linell liw sy'n dangos y dadansoddiad o'r tueddiad canrannol mewn perthynas ag e-fenthyciadau. Mae llinell un yn dangos cyfanswm yr eitemau printiedig a digidol a fenthycwyd o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos e-fenthyciadau o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 hyd at 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC 8

Tabl 10.6: E-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	568	609	597	2,766	2,788	3,464	2,898	3,300
Canolrif	167.5	246	390	615	473	569	724	1,012
Isel	83	62	144	255	172	197	198	368
Amrediad	485	547	453	2,511	2,616	3,267	2,700	2,932
Chwartel isaf	135	170	272	457	404	419	564	750
Chwartel uchaf	206	316	470	1,017	643	934	963	1,727
Amrediad rhyngchwartel	71	146	198	560	239	515	399	977
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	214.9	273.4	382.6	914.2	803.1	967.9	1,064.9	1,380.7

Ffynhonnell: DASLICC 8

Mae tystiolaeth o gydberthynas gymedrol rhwng e-fenthyciadau a'r gwariant ar e-adnoddau (roedd r Pearson yn amrywio rhwng 0.542 a 0.751, $p < 0.01$). Mae'n bosibl y gallai'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi darparu e-adnoddau olygu nad yw'r berthynas rhwng cyllidebau awdurdodau lleol ac e-fenthyciadau mor gryf ag sy'n wir am fathau eraill o adnoddau.

10.6. Crynodeb

At ei gilydd, cynyddodd nifer y benthyciadau ledled Cymru dros y Chweched Fframwaith. O ystyried y pwysau ar gyllidebau stoc yn ystod y cyfnod hwn (gweler Adran 7), nid yw hwn yn gyflawniad dibwys i'r sector. Bu gostyngiad amlwg mewn benthyciadau ffisegol dros gyfnod y pandemig COVID-19, ond cafodd hyn ei gydbwysu i ryw raddau gan gynnydd dramatig yn nifer yr e-adnoddau a fenthycwyd. Gwnaeth benthyciadau ar gyfer plant a benthyciadau yn y Gymraeg ymadfer ar ôl COVID-19, ac roeddent yn uwch ar ddiwedd y Fframwaith nag yr oeddent ar y dechrau. Fodd bynnag, ni wnaeth benthyciadau ar gyfer oedolion na benthyciadau clyweledol lwyddo i gyrraedd y lefelau a welwyd cyn COVID-19 ac, ar sail y tueddiadau cyfredol, nid oes fawr o arwydd y byddant yn gwneud hynny dros y blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, o dan y tueddiadau cenedlaethol hyn, mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod gwahaniaethau amlwg ledled y wlad. Mae'r cynnydd yng nghyfanswm y benthyciadau yng Nghymru wedi'i ysgogi, i raddau helaeth, gan gynnydd mewn nifer fach o awdurdodau sy'n perfformio'n well, yn hytrach na lefel debyg o gynnydd sydd wedi'i gwasgaru ledled y wlad. Er y gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd hwn i ffactorau daearyddol a demograffig (e.e. rhanbarth y brifddinas neu batrymau sy'n newid o ran y boblogaeth), mae gwahaniaethau amlwg nad oes esboniad amlwg drostynt ar sail y data sydd ar gael, am fod rhai awdurdodau wedi ymadfer o gyfnod y pandemig yn gryfach nag eraill.

Ffigur 10.4: Cyd-destun ehangach ar gyfer benthyciadau ac achosion o fenthycha

Benthyciadau: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yn ôl y data gweithgarwch llyfrgelloedd ar gyfer 2023 i 2024, roedd nifer y benthyciadau llyfrau ffisegol yn Lloegr yn cyfateb i tua 2.3 y person (2,259 am bob pen o'r boblogaeth) 2. Y gyfradd fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer e-adnoddau (e-lyfrau ynghyd â llyfrau sain digidol) oedd 431 (DCMS, 2025)
Achosion o fenthycha: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yn ôl Libraries Hacked (2025), roedd cyfanswm yr achosion o fenthycha o lyfrgelloedd yn Lloegr yn 2023 i 2024 yn cyfateb i 3 fesul trigolyn y flwyddyn 2. Roedd achosion o fenthycha llyfrau ffisegol ar gyfer oedolion yn cyfateb i 2 fesul trigolyn y flwyddyn. Roedd achosion o fenthycha llyfrau ffisegol ar gyfer plant yn cyfateb i 5 fesul trigolyn sy'n blentyn y flwyddyn
Achosion o fenthycha: Llyfrgelloedd yn yr Alban	1. Rhoddodd llyfrgelloedd cyhoeddus yr Alban fenthych 25.3 miliwn o eitemau yn 2023 i 2024 - cynnydd o 22.7% o 2022 i 2023. Mae hyn yn cyfateb i tua 4.6 fesul unigolyn (CILIPS, nd)

Disgrifiad o Ffigur 10.4: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gyda thair adran liw. Mae adran un yn egluro, yn ôl data gweithgarwch llyfrgelloedd ar gyfer 2023 i 2024, fod nifer y benthyciadau llyfrau ffisegol mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn cyfateb i tua 2.3 am bob pen o'r boblogaeth (2,259 am bob pen o'r boblogaeth). Y gyfradd fenthycha am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer e-adnoddau (e-lyfrau ynghyd â llyfrau sain digidol) oedd 431 (DCMS, 2025). Mae adran dau yn egluro, yn ôl Libraries Hacked (2025), fod cyfanswm yr achosion o fenthycha o lyfrgelloedd yn Lloegr yn 2023 a 2024 yn cyfateb i 3 fesul trigolyn y flwyddyn. Roedd achosion o fenthycha llyfrau ffisegol ar gyfer oedolion yn cyfateb i 2 fesul trigolyn y flwyddyn. Roedd achosion o fenthycha llyfrau ffisegol ar gyfer plant yn cyfateb i 5 fesul trigolyn sy'n blentyn y flwyddyn. Mae adran tri yn egluro bod llyfrgelloedd cyhoeddus yr Alban wedi rhoi benthych 25.3 miliwn o eitemau yn 2023 i 2024, sy'n gynydd o 22.7% o 2022 i 2023. Mae hyn yn cyfateb i tua 4.6 fesul unigolyn (CILIPS, nd).


Ffynhonnell: [DCMS 2025](#) a [CILIPS nd](#).

11. Newidiadau mewn oriau agor

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'A yw oriau agor gwasanaethau llyfrgell wedi newid dros gyfnod y Chwched Fframwaith?'

Mae Ffig. 11.1 yn dangos newidiadau mewn oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol dros gyfnod y Chwched Fframwaith fel yr adroddwyd yn DA 16. Gan na chasglwyd data oriau agor rhwng 2020 a 2022 oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ychwanegir llinell dueddiad (llinell ddotiog) i ddangos y cyfartaledd symudol ar gyfer newidiadau dros gyfnod y Fframwaith. Mae hyn yn dangos, er bod oriau agor yn tueddu i ostwng cyn COVID-19, eu bod wedi gostwng yn fwy dramatig pan oedd adrodd wedi'i ailddedrau yn 2022 i 2023. Roedd oriau agor yn parhau i leihau ar ôl COVID-19, er i hynny ddigwydd yn arafach nag yr oeddent wedi lleihau yn ystod y pandemig.

Ffigur 11.1: Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ar draws llyfrgelloedd Cymru



Disgrifiad o Ffigur 11.1: Graff llinell sy'n cynnwys dwy linell liw sy'n dangos yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ar draws llyfrgelloedd Cymru. Mae llinell un yn dangos y cymedr am bob pen o'r boblogaeth o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025. Mae llinell dau yn dangos y cyfartaledd symudol dros ddau gyfnod ar gyfer y cymedr am bob pen o'r boblogaeth o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC16

Mewn 15 gwasanaeth, gostyngodd cyfanswm yr oriau agor rhwng 2017 a 2018 a 2024 i 2025. Fodd bynnag, cynyddodd yr oriau agor mewn 6 awdurdod, ac ni welwyd newid yn y gwasanaeth a oedd yn weddill. Y newid canrannol canolrifol mewn oriau agor ar draws y Fframwaith oedd -10.5%.

Fel y dangosir yn Nhabl 11.1, gostyngodd yr oriau agor canolrifol dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth cyn COVID-19. Pan ailddechreuodd y gwaith o gasglu data, roedd yr oriau agor canolrifol dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth yn agos at y ffigur cyn y pandemig, ond dechreuodd hyn ostwng eto. Erbyn 2024 i 2025, roedd y canolrif ychydig islaw'r targed ar gyfer y Dangosydd Ansawdd hwn. Gostyngodd yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel ar gyfer oriau agor dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth tua diwedd cyfnod y Fframwaith, gan ddangos lefel fwy cyson o oriau agor dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth ledled Cymru.

Tabl 11.1: Canolrif yr oriau agor dan ofal staff

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	204	203	200	184	181	178
Canolrif	132	129.5	124	127	124.5	119.5
Isel	74	74	83	63	62	62
Amrediad	130	129	117	121	119	116
Chwartel isaf	114	111	111	110	104	104
Chwartel uchaf	150	152	152	148.5	135	136
Amrediad rhyngchwartel	36	41	41	38.5	31	32

Ffynhonnell: DASLICC16

Dyblodd nifer y gwasanaethau a adroddodd oriau agor heb staff o 3 i 6 yn ystod y Chweched Fframwaith. Er bod oriau heb staff wedi cynyddu yn ystod cyfnod y Fframwaith, roeddent yn cyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm yr oriau agor (rhwng tua 0.75% a 6.0%). Roedd oriau heb staff ar eu huchaf yn y cyfnod yn syth ar ôl COVID-19 rhwng 2022 a 2023. Rhwng 2024 a 2025, adroddodd 4 gwasanaeth fwy o oriau heb staff am bob pen o'r boblogaeth nag a wnaethant yn 2017 i 2018, ac adroddodd un gwasanaeth lai o oriau heb staff.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y Chweched Fframwaith, roedd rhywfaint o dystiolaeth bod cyfanswm yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn uwch mewn awdurdodau gwledig ($p < 0.05$). Fodd bynnag, yn ystod gweddill cyfnod y Fframwaith, er bod oriau agor cymedrig a chanolrifol am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch mewn awdurdodau gwledig o gymharu â gwasanaethau trefol, nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd nifer y gwasanaethau a adroddodd achosion o gau mannau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl neu oherwydd argyfwng yn y blynyddoedd y casglwyd y data hyn ar eu cyfer yn amrywio rhwng 3 a 12. Y ganran ganolrifol oedd 0% ar gyfer pob blwyddyn, ac roedd y ffigurau blynyddol uchaf a adroddwyd yn amrywio o 0.3% i 4%. Nid oedd unrhyw batrwm

amlwg i achosion o gau llyfrgelloedd yn annisgwyl neu oherwydd argyfwng, ac roedd hyn fel arfer oherwydd ffactorau lleol, fel y tywydd neu broblemau gydag adeiladau.

Roedd nifer y gwasanaethau a adroddodd achosion o fethu â gwasanaethu mannau gwasanaeth symudol yn y blynyddoedd y casglwyd y data hyn ar eu cyfer yn amrywio rhwng 6 a 12. Roedd y ganran ganolrifol yn amrywio rhwng 0% a 4%, ac roedd y ffigurau blynyddol uchaf a adroddwyd yn amrywio o 3.7% i 11.2%.

Fel y gellid disgwyl, roedd tystiolaeth o gydberthynas gadarnhaol gryf rhwng oriau agor a niferoedd staff drwy gydol cyfnod y Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y berthynas hon hyd yn oed yn gryfach yn y cyfnod ar ôl COVID-19 (roedd r Pearson rhwng 0.863 a 0.868 cyn COVID-19, a rhwng 0.943 a 0.959 ar ôl COVID-19, $p < 0.01$), sy'n golygu ei bod yn debygol iawn y bydd newidiadau mewn niferoedd staff yn effeithio ar oriau agor.

Yn genedlaethol, roedd oriau agor fesul aelod o staff llyfrgelloedd 7% yn uwch yn 2024 i 2025 nag yr oeddent yn 2017 i 2018, sy'n golygu bod llyfrgelloedd wedi cynnal lefel uwch o oriau agor mewn perthynas â nifer y staff a oedd ar gael nag ar ddechrau'r Chweched Fframwaith. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'n amrywio ledled y wlad ac mewn 9 awdurdod, roedd oriau agor fesul aelod o staff yn is yn 2024 i 2025 nag yr oeddent yn 2017 i 2018. Nid oedd unrhyw berthynas rhwng yr oriau agor fesul aelod o staff a pha un a yw awdurdod yn un trefol ynteu'n un gwledig ei natur. Pan ystyrir oriau gwirfoddolwyr hefyd, cynyddodd yr oriau agor fesul gweithiwr (staff neu wirfoddolwr) 4.5% yn ystod cyfnod y Fframwaith. Mae hyn yn dangos, hyd yn oed gan gymryd gwirfoddolwyr i ystyriaeth, fod llai o bersonél fesul awr agor. Er ei bod y tu hwnt i gwmpas y dadansoddiad hwn i archwilio goblygiadau hyn, gall cyfran fwy o amser staff sy'n cael ei neilltuo i weithgareddau sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn uniongyrchol beri heriau i agweddau eraill ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau llyfrgell.

11.1. Crynodeb

Gostyngodd oriau agor yn sylweddol dros y pandemig COVID-19 a pharhaodd i ostwng yn ystod gweddill y Chweched Fframwaith, er i hyn ddigwydd yn fwy graddol. Cynyddodd oriau agor heb staff, ond dim ond cyfran fach o gyfanswm yr oriau agor yr oeddent yn eu cyfrif amdani.

Ffigur 11.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer oriau agor

Oriau agor: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yn ôl y set ddata lleoliadau llyfrgelloedd cyhoeddus, roedd oriau agor mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn cyfateb i tua 91 am bob pen o'r boblogaeth 2. Ar gyfer llyfrgelloedd yr ystyriwyd eu bod yn rhan o ddarpariaeth statudol, roedd hyn yn 85 awr am bob pen o'r boblogaeth 3. Roedd oriau agor dan ofal staff yn cyfateb i tua 81 am bob pen o'r boblogaeth ar draws yr holl lyfrgelloedd a 76 am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer darpariaeth statudol (ACE, 2025)
--	---

Disgrifiad o Ffigur 11.2: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro, yn ôl y set ddata lleoliad llyfrgelloedd cyhoeddus, fod oriau agor mewn llyfrgelloedd yn Lloegr yn cyfateb i tua 91 am bob pen o'r boblogaeth. Ar gyfer llyfrgelloedd yr ystyriwyd eu bod yn rhan o ddarpariaeth statudol, roedd hyn yn 85 awr am bob pen o'r boblogaeth. Roedd oriau agor dan ofal staff yn cyfateb i tua 81 am bob pen o'r boblogaeth ar draws yr holl lyfrgelloedd a 76 am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer darpariaeth statudol (ACE, 2025).

Ffynhonnell: [ACE 2025](#)

12. Newidiadau mewn mannau gwasanaeth

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'Pa newidiadau mewn mannau gwasanaeth sydd wedi digwydd dros gyfnod y Chweched Fframwaith?'

Rhwng 2018 i 2019 a 2024 i 2025, mae data a adroddwyd yn rhan o gefndir cyd-destunol y SLICC yn dangos bod colled gyffredinol yn genedlaethol o 7 man gwasanaeth a oedd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy. Gostyngodd y nifer o 208 i 201. Gwelodd chwe gwasanaeth ostyngiad o 1 neu 2 fan gwasanaeth. Dim ond 1 gwasanaeth a nododd gynnydd yn nifer y mannau gwasanaeth sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy. Arhosodd nifer y mannau gwasanaeth sefydlog a oedd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos yn gymharol fach drwy gydol y Fframwaith, gan ostwng o 7 i 6 rhwng 2018 a 2019 a 2024 i 2025.

Gwelwyd gostyngiad dramatig yn y ddarpariaeth symudol yn ystod cyfnod y Chweched Fframwaith, pan gollwyd mwy na dwy ran o dair o wasanaethau symudol yn genedlaethol. Gostyngodd nifer y gwasanaethau symudol a adroddwyd o 29 i 9. Yn 2018 i 2019, roedd gan 17 o wasanaethau o leiaf un gwasanaeth symudol, ond erbyn 2024 i 2025, roedd gwasanaeth symudol gan 8 o wasanaethau yn unig.

Gostyngodd nifer y llyfrgelloedd cymunedol a adroddwyd yn y ffurflenni blynyddol yn ystod COVID-19, ond dychwelodd i niferoedd yn agos i rai 2018 i 2019 erbyn 2024 i 2025, pan gafodd 16 eu cynnwys yn y ffurflenni, o gymharu â 17 yn 2018 i 2019.

Yn ôl data a ddarparwyd yn DA 7, roedd cynnydd yng nghanran y boblogaeth a oedd yn byw o fewn yr amser neu'r pellter teithio penodedig o fan gwasanaeth mewn dau wasanaeth yn unig. Bu gostyngiad mewn un deg chwech o wasanaethau, ac adroddodd 2 nad oedd unrhyw newid. Nid yw'n bosibl gwneud sylwadau ar y 2 wasanaeth sy'n weddill oherwydd iddynt newid eu categori o ran lleoliad (yn seiliedig ar ddwysedd y boblogaeth) yn ystod y Fframwaith, felly nid yw'r data'n gymharol. Er bod y rhan fwyaf o'r newidiadau yn gymharol fach, gwelodd 5 gwasanaeth newid o fwy na 15%. Mae'n bwysig nodi y gallai'r dulliau o gyfrifo'r DA hwn fod wedi newid ar gyfer rhai gwasanaethau dros gyfnod y Fframwaith, felly efallai na fydd y ffigurau'n gwbl gymharol.

Ffigur 12.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer darpariaeth statudol, colli llyfrgelloedd a lleoliad mannau gwasanaeth

Darpariaeth statudol: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yn Lloegr, roedd gostyngiad o 0.8% yn nifer y llyfrgelloedd a oedd wedi'u cynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol rhwng diwedd 2019 a diwedd 2024 (ACE, 2025)
Colli llyfrgelloedd: Llyfrgelloedd yn yr Alban	1. Yn yr Alban, adroddwyd bod 54 o lyfrgelloedd wedi'u colli ers 2013 i 2014 a 2024 i 2025 (SLIC, 2025)
Lleoliad mannau gwasanaeth: Llyfrgelloedd yn Lloegr	1. Yng Nghymru a Lloegr, mae tua 78% o'r boblogaeth o fewn 30 munud ar droed i lyfrgell gyhoeddus 2. Yn gyffredinol, mae canran uwch o boblogaeth awdurdodau lleol trefol poblog iawn o fewn 15 munud ar droed i lyfrgell gyhoeddus o gymharu ag awdurdodau lleol gwledig cyfagos sy'n llai poblog (ONS, 2024)

Disgrifiad o Ffigur 12.1: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gyda thair adran liw. Mae adran un yn egluro bod gostyngiad o 0.8% wedi bod yn nifer y llyfrgelloedd a oedd wedi'u cynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn Lloegr rhwng diwedd 2019 a diwedd 2024 (ACE, 2025). Mae adran dau yn egluro ei bod wedi'i hadrodd bod 54 o lyfrgelloedd wedi cael eu colli yn yr Alban rhwng 2013 a 2014 a 2025 (SLIC, 2025). Mae adran tri yn egluro bod tua 78% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr o fewn 30 munud ar droed i lyfrgell gyhoeddus. Yn gyffredinol, mae canran uwch o boblogaeth awdurdodau lleol trefol poblog iawn yn Lloegr o fewn 15 munud ar droed i lyfrgell gyhoeddus o gymharu ag awdurdodau lleol gwledig cyfagos sy'n llai poblog (ONS, 2024).

Ffynhonnell: [ACE 2025](#), [SLIC 2025](#) ac [ONS 2024](#)

13. Newidiadau mewn ymgysylltiad digidol

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'I ba raddau y bu newidiadau mewn ymgysylltiad digidol dros gyfnod y Chwched Fframwaith?'

Mae'r ffyrdd y mae ymgysylltiad digidol wedi newid dros gyfnod y Chwched Fframwaith yn adlewyrchu newidiadau ehangach o ran y ffyrdd y mae pobl yn defnyddio technoleg; er enghraifft, mwy o ddefnydd o ffonau clyfar a dyfeisiau personol eraill, ond llai o gyfrifiaduron personol sefydlog. Yn y Fframwaith gwreiddiol, roedd gwasanaethau llyfrgell yn adrodd ar fynediad ar-lein drwy DA 11, ond yn yr Atodiad, cafodd hyn ei gynnwys yn HG 7.

Cesglir bodlonrwydd cwsmeriaid ynghylch cyfleusterau TG llyfrgelloedd drwy DA 2. Y ganran ganolrifol o gwsmeriaid a ddyweddodd fod y cyfleusterau TG yn dda neu'n dda iawn oedd 88% yn 2017 i 2020 ac 85% yn 2022 i 2025. Er bod y niferoedd hyn yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd, mae'n werth nodi eu bod yn is na bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer llyfrau, gofal cwsmeriaid neu'r llyfrgell yn gyffredinol. Mae'r amrediad a'r amrediad rhyngchwartel o ymatebion hefyd yn ehangach ar gyfer bodlonrwydd â'r cyfleusterau TG o gymharu â meysydd eraill.

Adroddir tueddiadau mewn perthynas ag e-fenthyciadau yn Adran 10. Felly mae'r adran hon yn canolbwyntio ar feysydd eraill o ymgysylltu digidol.

13.1. Mynediad ar-lein

Casglwyd nifer y dyfeisiau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r Rhyngrwyd yn 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 ac yn 2022 i 2023. Amrywiodd nifer ganolrifol y dyfeisiau am bob pen o'r boblogaeth mewn llyfrgelloedd sefydlog yn y cyfnod cyn COVID-19, ond gostyngodd wedi hynny. Nid yw hyn yn syndod; er bod cyfrifiaduron personol yn parhau i fod yn bwysig i rai cwsmeriaid, symudodd darpariaeth ddigidol i fwrdd o fynediad sefydlog trwy gyfrifiaduron personol a thuag at ddefnyddio mwy o ddarpariaeth WiFi i gefnogi cwsmeriaid sy'n defnyddio eu dyfeisiau eu hunain. Dangosir hyn gan ffigurau ar gyfer canran yr amser yr oedd cyfrifiaduron personol yn cael eu defnyddio. Roedd y ffigur hwn yn sefydlog cyn COVID-19, ond gostyngodd yn syth ar ôl cyfnod y pandemig pan wnaeth y ganran ganolrifol fwy na haneru o 27% i 11%.

Gostyngodd cyfanswm y dyfeisiau a oedd yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r rhyngrwyd 9% dros y cyfnod casglu data. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn nifer y dyfeisiau mewn 6 gwasanaeth. Gostyngodd nifer ganolrifol a nifer genedlaethol y dyfeisiau am bob pen o'r boblogaeth (cymedr) fesul 10,000 o'r boblogaeth a oedd ar gael mewn llyfrgelloedd sefydlog hefyd dros y cyfnod casglu data (Tabl 13.1). Roedd yr amrediad ar gyfer dyfeisiau am bob pen o'r boblogaeth yn fwy ar ôl COVID-19, ond gostyngodd yr amrediad rhyngchwartel ychydig wrth i batrwm y ddarpariaeth ar-lein newidiol amrywio ledled y wlad. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn nifer y dyfeisiau oedd yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd mewn gwasanaethau trefol a gwledig.

Tabl 13.1: Dyfeisiau fesul 10,000 o'r boblogaeth drigolion sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd sefydlog


	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023
Uchel	13.85	13.83	13.81	16.99
Canolrif	9.43	9.54	9.12	7.99
Isel	5.02	4.95	4.46	3.32
Amrediad	8.83	8.88	9.35	13.67
Chwartel isaf	7.89	7.76	7.25	6.38
Chwartel uchaf	10.87	10.79	10.42	9.55
Amrediad rhyngchwartel	2.98	3.03	3.17	3.17
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	9.56	9.53	9.19	8.73

Ffynhonnell: DASLICC 11

13.2. Ymweliadau â gwefannau

Mae Ffigur 13.1 yn dangos y tueddiad canrannol mewn ymweliadau â gwefannau yn genedlaethol, gan gymryd 2017 i 2018 fel y flwyddyn sylfaen fel yr adroddwyd yn DA 8.

Ffigur 13.1: Dadansoddiad o'r tueddiad canrannol ar gyfer ymweliadau â gwefannau



Disgrifiad o Ffigur 13.1: Graff llinell sy'n cynnwys un llinell liw sy'n dangos y dadansoddiad o'r tueddiad canrannol ar gyfer ymweliadau â gwefannau. Mae llinell un yn dangos cyfanswm y tueddiad canrannol o'r cyfnod adrodd 2017 i 2018 tan 2024 i 2025.

Ffynhonnell: DASLICC 8

Bu cynnydd nodedig mewn ymweliadau rhithwir rhwng 2020 a 2021 a pharhaodd y tueddiad ar i fyny yn y blynyddoedd dilynol, ac eithrio blwyddyn olaf y Fframwaith. Fodd bynnag, dylid nodi bod llawer o'r cynnydd yn ganlyniad i gynnydd o fwy na 2.5 gwaith drosodd yn nifer yr ymweliadau â gwefannau yng Nghaerdydd. Roedd prifddinas y genedl, sy'n gweithredu model hyb cwbl integredig, yn allanolyn nodedig o gymharu â gwasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru yn y cyfnod ar ôl COVID-19. Pan gaiff y gwasanaeth hwn ei hepgor, mae'r patrwm yn dod yn un o sefydlogrwydd cymharol yn ystod llawer o'r Fframwaith, cyn cynyddu ychydig yn ystod cyfnod yr Atodiad. Er bod cynnydd o 59.8% yn genedlaethol yng nghyfanswm yr ymweliadau rhithwir yn ystod y Chwched Fframwaith, pan gaiff Caerdydd ei heithrio, mae hyn yn gostwng i 13.9%. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau nodedig hefyd ar draws ardaloedd eraill o'r wlad; gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â gwefannau yn ystod y Chwched Fframwaith mewn deg awdurdod, tra bod y gweddill wedi nodi cynnydd.

Gostyngodd y nifer ganolrifol o ymweliadau â gwefannau am bob pen o'r boblogaeth yn ystod COVID-19, ond yna ymadferodd ychydig, er na ddychwelodd i'r lefelau cyn COVID-19 erbyn diwedd cyfnod y Fframwaith. Er bod yr amrediad wedi cynyddu, roedd yr amrediad rhyngchwartel yn llai yn ail hanner y Fframwaith. Mae hyn yn dangos, os anwybyddir allanolynnau, fod mwy o gysondeb yn nifer yr ymweliadau â gwefannau ar draws llawer o'r wlad (Tabl 13.2).

Tabl 13.2: Ymweliadau â gwefannau am bob pen o'r boblogaeth

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Uchel	2,211	2,205	2,131	5,983	6,768	7,979	7,851	6,035
Canolrif	866.5	885	834	623.9	581	537.5	743	766
Isel	243	345	239	100	129	124	158	5
Amrediad	1,968	1,860	1,892	5,883	6,639	7,855	7,693	6,033
Chwartel isaf	473	481	434	417	269.5	365	374.5	427
Chwartel uchaf	1,255	1,318	1,233	1,289	942	956	984	1,136
Amrediad rhyngchwartel	782	837	799	872	673	591	610	709
Cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth	983.6	1,003.6	970.7	1,428.7	1,468.4	1,609.1	1,719.6	1,545.9

Ffynhonnell: DASLICC 8

Mae'n amlwg nad yw pob gwasanaeth yn defnyddio gwefannau yn yr un ffordd. Bydd gan rai fwy o draffig ar y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft. Mae'n bwysig cofio, ar gyfer rhai gwasanaethau, y gall traffig ar wefannau fod yn gyfran gymharol fach o gyfanswm yr ymgysylltiad digidol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth sylweddol rhwng ymweliadau â gwefannau am bob pen o'r boblogaeth yn ôl dosbarthiad awdurdod fel un gwledig neu drefol.

13.3. Crynodeb

Newidiodd patrymau ymgysylltu digidol yn ystod y Chweched Fframwaith wrth i lawer o gwsmeriaid newid o ddefnyddio cyfrifiaduron personol sefydlog i ddod â'u dyfeisiau eu hunain er mwyn defnyddio WiFi y llyfrgell. Yn anochel, roedd hyn yn effeithio ar y ffyrdd yr oedd ymgysylltu digidol yn digwydd. Cynyddodd ymweliadau rhithwir yn genedlaethol, er bod y graddau yr oedd cwsmeriaid yn ymgysylltu â gwefannau gwasanaethau llyfrgell yn amrywio ledled y wlad. Mae'r cynnydd mewn e-fenthyciadau (gweler Adran 10) hefyd yn dangos mwy o ymgysylltu ag adnoddau digidol.

Ffigur 13.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer ymweliadau â gwefannau

Ymweliadau â gwefannau Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr	1. Adroddodd CIPFA fod ymweliadau â gwefannau llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu yn 2019 i 2020 gyda chynnydd o 25.8% o gymharu â 2015 i 2016 2. Roedd cyfanswm o 131 miliwn o ymweliadau ar-lein yn 2019 i 2020, sef dros 2 fesul unigolyn (CIPFA, 2020) 3. Parhaodd ymweliadau â gwefannau i godi yn 2020 i 2021 (CIPFA, 2022) ond gwnaethant ddechrau gostwng o 2021 i 2022 pan adroddwyd gostyngiad o 8%. Gostyngodd ymweliadau â gwefannau ymhellach i 1,703 fesul 1,000 o bobl (1.7 fesul unigolyn) yn 2022 i 2023, sef gostyngiad o 26% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (CIPFA, 2023b)
--	---

Disgrifiad o Ffigur 13.2: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro bod CIPFA wedi adrodd bod ymweliadau â llyfrgelloedd dros y we ym Mhrydain Fawr wedi codi rhwng 2019 a 2020, gyda chynnydd o 25.8% o gymharu â 2015 i 2016. Roedd cyfanswm o 131 miliwn o ymweliadau ar-lein rhwng 2019 a 2020, sef dros 2 fesul unigolyn (CIPFA, 2020). Parhaodd ymweliadau dros y we i godi yn 2020 i 2021 (CIPFA, 2022), ond gwnaethant ddechrau gostwng o 2021 i 2022 pan adroddwyd gostyngiad o 8%. Gostyngodd ymweliadau â gwefannau ymhellach i 1,703 am bob 1,000 o bobl (sef 1.7 fesul unigolyn) yn 2022 i 2023, sef gostyngiad o 26% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (CIPFA, 2023b).

Ffynhonnell: [CIPFA 2020](#), [CIPFA 2022](#) a [CIPFA 2023b](#)

14. Newidiadau mewn gwasanaethau sydd wedi'u targedu at grwpiau ac unigolion difreintiedig neu leiafrifol

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn 'A fu newidiadau mewn gwasanaethau/gweithgareddau sy'n targedu grwpiau neu unigolion difreintiedig neu leiafrifol?'

Mae llyfrgelloedd yn darparu cefnogaeth i amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau sy'n profi anfantais. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael, gorbryder, straen neu ddiffyg hyder
- pobl sy'n profi unigrwydd, ynysigrwydd cymdeithasol neu brofedigaeth
- pobl ag anableddau, amhariad ar y synhwyrau neu anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys unigolion awtistig
- pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr
- ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl sy'n newydd i'r DU neu'r ardal leol
- pobl sy'n profi digartrefedd neu ansicrwydd tai
- pobl yr effeithir arnynt gan allgáu digidol neu dlodi data
- teuluoedd sy'n wynebu tlodi neu bwysau costau byw
- pobl sy'n chwilio am gyflogaeth, cymorth sgiliau neu gymorth i lywio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
- plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Darperir gwybodaeth am wasanaethau sy'n targedu grwpiau difreintiedig neu leiafrifol drwy:

- HG 4: gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol ar gyfer unigolion a grwpiau ag anghenion arbennig
- DA 4: Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles
- DA 6: Digwyddiadau a gweithgareddau i'r rhai sydd â gofynion arbennig
- astudiaethau achos/datganiadau effaith
- datganiadau strategol a datganiadau o gyfeiriad at y dyfodol sy'n disgrifio sut mae gwasanaethau'n blaenoriaethu cefnogaeth i grwpiau penodol o fewn eu cymunedau

Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi darparu gweithgareddau ar gyfer grwpiau ac unigolion dan anfantais neu leiafrifol drwy gydol y Chweched Fframwaith, daeth y ddarpariaeth ledled y wlad yn fwy cyson yng nghyfnod yr Atodiad. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd pob gwasanaeth yn cynnig digwyddiadau neu weithgareddau i gwsmeriaid â gofynion

arbennig ym mhob cangen a oedd ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos erbyn diwedd y Chweched Fframwaith (DA 6).

14.1. Cefnogi lles a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol

Mae elfen sylweddol o dystiolaeth ansoddol yn ymwneud ag unigolion sy'n profi unigrwydd, iechyd meddwl gwael, gorbryder, profedigaeth neu ynysigrwydd cymdeithasol arall. Mae llyfrgelloedd yn cefnogi pobl drwy weithgareddau fel grwpiau darllen ar y cyd, sesiynau galw heibio anffurfiol, grwpiau creadigol a gweithgareddau cymunedol sy'n darparu cyfleoedd pwysau isel ar gyfer cysylltu. Mewn sawl enghraifft a dynnwyd o astudiaethau achos a datganiadau effaith, mae cymryd rhan mewn grwpiau mewn llyfrgelloedd yn gysylltiedig â hyder gwell, ymdeimlad o drefn a pherthyn o'r newydd, a llai o deimladau o unigrwydd. Mae datganiadau strategol a datganiadau o gyfeiriad yn y dyfodol yn atgyfnerthu'r thema hon drwy ddisgrifio pwyslais parhaus ar les, lleihau unigrwydd a hybiau cymunedol cynhwysol. Mae sawl awdurdod yn disgrifio cynlluniau i gryfhau cymorth lles a chysylltiad cymunedol i oedolion sy'n teimlo'n gymdeithasol ynysig.

Mae data DA 4 hefyd yn darparu tystiolaeth bod llyfrgelloedd yng Nghymru yn perfformio'n dda o ran gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Er bod nifer fach o wasanaethau wedi cael trafferth cynnig ymwybyddiaeth o iechyd meddwl mewn rhai canghennau neu bob un ohonynt, cododd y chwarter isaf a gostyngodd yr amrediad rhyngchwarter yn ystod y Chweched Fframwaith, gan ddangos cynnig gwell, a mwy cyson, ledled y wlad.

Roedd partneriaethau iechyd ar gael ym mhob llyfrgell ym mwyafrif y gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell yn gweithio ochr yn ochr â chyrff iechyd y cyhoedd, timau gofal cymdeithasol a sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu cymorth lles. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau â sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol ac elusennau iechyd meddwl, yn ogystal â chymryd rhan mewn cynlluniau fel mentrau presgripsiynu cymdeithasol. Y ganran ganolrifol o fannau gwasanaeth a oedd yn cynnig partneriaethau iechyd oedd 100%, ac eithrio 2023 i 2024. Fodd bynnag, nid oedd pob gwasanaeth yn cynnig partneriaethau iechyd ym mhob man gwasanaeth a oedd ar agor 10 awr neu fwy yr wythnos. Gostyngodd y chwarter isaf o 83% yn 2019 i 2020 i rhwng 44% a 57% ar ôl COVID-19 am fod awdurdodau ei chael hi'n anodd ailsefydlu partneriaethau weithiau. Arweiniodd hyn at amrediad rhyngchwarter mwy, sy'n dangos bod mwy o amrywiad yn lefel y ddarpariaeth ledled y wlad.

Y ganran ganolrifol o fannau gwasanaeth a oedd yn cynnig Clybiau Llyfrau oedd 90% neu'n uwch ym mhob blwyddyn y casglwyd data ar ei chyfer. Er nad oedd nifer o wasanaethau'n gallu cynnig clybiau llyfrau ym mhob man gwasanaeth, gostyngodd yr amrediad rhyngchwarter dros gyfnod y Fframwaith, gan ddarparu tystiolaeth o gynnig mwy cyson ledled Cymru.

14.1.1. Enghraifft ddarluniadol: gwerth y Gwasanaeth Danfon i'r Cartref

Er mwyn cefnogi unigolion sy'n profi unigrwydd, ynysigrwydd a rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd i gael mynediad at wasanaethau llyfrgell, mae Sir Fynwy yn darparu Gwasanaeth Danfon i'r Cartref. Mae'r gwasanaeth yn darparu llyfrau mewn amrywiaeth o fformatau i bobl sy'n methu ymweld â llyfrgelloedd oherwydd problemau symudedd neu afiechyd. Mae'r

gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol gwerthfawr trwy gyswllt â staff y llyfrgell, ac i rai fe'i hystyrir yn 'achubiaeth'. Dywedodd un cwsmer: "Roeddwn i mor ofidus pan nad oeddwn i'n gallu darllen oherwydd fy mod yn colli fy ngolwg. Roeddwn i'n teimlo, pe na bawn i'n gallu darllen, byddwn i eisïau marw. Ond yna fe ddaeth y gwasanaeth Danfon i'r Cartref i'r adwy". ([Adroddiad blynyddol Sir Fynwy 2022 i 2023](#)).

14.1.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi cynhwysiant cymdeithasol ymhlith oedolion ifanc

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dangos sut mae gwasanaethau llyfrgell yn cefnogi oedolion ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn enwedig trwy gysylltiadau agos â gwasanaethau gofal dydd lleol. Mae un enghraifft yn disgrifio cwsmer sy'n ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd gyda'i ofalwr. Mae'r ymweliadau hyn wedi cyfrannu at iechyd meddwl gwell, ymdeimlad o drefn arferol, a llai o deimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae'r llyfrgell yn cynnig amgylchedd tawel a diogel sy'n cefnogi ei les emosiynol. Mae'r unigolyn wedi defnyddio cyfleusterau llyfrgell fel cyfrifiaduron at ddefnydd y cyhoedd ac argraffyddion i greu llyfr am ei fywyd, gan helpu i ddatblygu ei sgiliau a'i lythrennedd digidol. Dywed "Y llyfrgell yw fy ail gartref, rwy' wrth fy modd yn dod yma". ([Adroddiad blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr 2023 i 2024](#)).

14.1.3. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a chysylltiad cymdeithasol trwy weithgareddau hybiau cymunedol

Yng Nghaerdydd, mae un enghraifft yn disgrifio dyn sy'n wynebu mwy o ynysigrwydd yn dilyn marwolaeth ei wraig a newidiadau yn ei iechyd. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd trwy Hybiau Cymunedol, gan gynnwys teithiau grŵp, gweithgareddau cerdded a chynulliadau cymdeithasol rheolaidd, llwyddodd i aros yn egnïol ac yn gysylltiedig. Roedd y cyfleoedd hyn yn darparu ymdeimlad o drefn, cwmni ac ymgysylltiad ag eraill yn ei ardal leol. O ganlyniad, cyfrannodd y gweithgareddau'n gadarnhaol at ei les, gan helpu i leihau ynysigrwydd a chryfhau ei ymdeimlad o berthyn yn y gymuned. ([Adroddiad blynyddol Caerdydd 2022 i 2023](#)).

14.2. Cefnogi pobl ag anableddau, dementia ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae llyfrgelloedd yn aml yn disgrifio gweithio gydag unigolion anabl neu bobl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys unigolion awtistig; pobl ag anableddau dysgu; a phobl ag amhariad ar eu golwg, neu amhariad ar eu synhwyrâu eraill, yn ogystal â chynnig cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae enghreifftiau o'r ddarpariaeth yn cynnwys caffis dementia, gweithgareddau dementia-gyfeillgar, adnoddau hel atgofion, sesiynau sy'n gyfeillgar i bobl awtistig, fformatau darllen hygyrch a gweithgareddau synhwyraidd.

Ar y cyfan, mae llyfrgelloedd Cymru yn perfformio'n dda iawn o ran darpariaeth dementia-gyfeillgar, ac eithrio nifer fach o wasanaethau nad ydynt yn cynnig darpariaeth dementia-gyfeillgar ar draws rhai canghennau neu bob cangen (DA 4). O ran grwpiau Darllen ar y Cyd (pobl yn darllen ar goedd gyda'i gilydd), roedd y dosbarthiad yn anwastad ledled y wlad. Roedd canran ganolrifol y mannau gwasanaeth sy'n cynnig grwpiau Darllen ar y Cyd wedi

bod yn cynyddu cyn COVID-19, ond yn dilyn y pandemig, dychwelodd y canolrif i fod yn agos at ei ffigur yn 2017 i 2018, ac arhosodd rhwng 15% a 18% am weddill y Fframwaith. Gostyngodd y chwarter isaf ar ôl COVID-19 wrth i fwy o wasanaethau gynnig Darllen ar y Cyd mewn ychydig o lyfrgelloedd neu ddim llyfrgelloedd o gwbl. Dylid nodi, er bod y term generig “darllen ar goedd ar y cyd” wedi'i gynnwys yn y canllawiau, fod y defnydd o'r term Darllen ar y Cyd ('Shared Reading' yn Saesneg) yn awgrymu cynllun penodol gyda'i raglen hyfforddi ei hun yr oedd rhai gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd fforddio anfon staff arni, neu'n teimlo nad oeddent yn gallu ei gynnig mwyach pe bai aelod o staff a oedd wedi'i hyfforddi yn gadael y gwasanaeth.

Mae sawl datganiad effaith yn disgrifio sut mae casgliadau a staff hygyrch yn cefnogi unigolion i barhau i ddarllen a chymryd rhan er bod eu golwg yn dirywio neu er gwaethaf cyflyrau iechyd eraill. Mae enghreifftiau eraill yn disgrifio sesiynau strwythuredig neu wedi'u haddasu sydd wedi'u cynllunio i fod yn groesawgar i blant a phobl ifanc awtistig, neu bobl ag anableddau dysgu. Mae datganiadau strategol hefyd yn disgrifio cynlluniau i wella hygyrchedd drwy adnoddau dementia-gyfeillgar, casgliadau hygyrch ac amgylcheddau cynhwysol.

14.2.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi annibyniaeth a newidiadau bywyd i unigolion ag anawsterau dysgu

Mae gwasanaeth llyfrgell Ceredigion yn dangos sut y gall gwasanaethau llyfrgell gefnogi unigolion ag anawsterau dysgu i ddatblygu annibyniaeth a llywio newidiadau sylweddol mewn bywyd. Mae un enghraifft yn disgrifio menyw yn ei 60au a oedd yn ymaddasu i fyw'n annibynnol ar ôl colli ei rhieni. Gyda chefnogaeth gan staff y llyfrgell, fe'i rhoddwyd mewn cysylltiad â gwasanaethau allweddol gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor i Bopeth, a chafodd gymorth i gwblhau prosesau ar-lein fel gwneud cais am basbort a chael pàs bws. Roedd y gefnogaeth hon yn ei galluogi i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, rheoli tasgau o ddydd i ddydd a chynnal ei symudedd, gan gynnwys teithio'n annibynnol i ymweld â ffrindiau. Mae hi bellach yn ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd, lle mae'r amgylchedd croesawgar a'r rhyngweithio parhaus â'r staff yn cyfrannu at ei hyder a'i theimlad o berthyn. Mae ei phrofiad yn dangos sut y gall llyfrgelloedd ddarparu cefnogaeth ymarferol, bersonol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant a lles. ([Adroddiad blynyddol Ceredigion 2024 i 2025](#)).

14.2.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi annibyniaeth a lles i bobl sy'n byw gyda dementia

Mae Sir Ddinbych yn darparu enghraifft o sut mae gwasanaethau llyfrgell wedi cefnogi unigolyn sy'n byw gyda dementia i aros yn egniol, yn gysylltiedig ac yn annibynnol. Roedd dyn a oedd wedi ymddeol yn gynnwys yn ymweld â'r llyfrgell gyda'i wraig i archwilio'r adnoddau sydd ar gael. Canfu'r cwpl fod yr amgylchedd yn groesawgar a chynhwysol, ac roeddent yn gwerthfawrogi gallu'r staff i gyfathrebu'n effeithiol ac yn sensitif. Mae'r llyfrgell yn darparu gofod lle mae'n teimlo'n gyfforddus lle mae'n gallu cynnal ei annibyniaeth, tra hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau ffisegol a digidol sy'n cefnogi dysgu parhaus ac ysgogiad meddyliol. Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau y gellir cael mynediad atynt yn y

llyfrgell a gartref. Dywed, "mae'n adnodd hynod o ddefnyddiol a diddorol - rwy'n teimlo'n freintiedig o gael mynediad ato". ([Adroddiad blynyddol Sir Ddinbych 2022 i 2023](#)).

14.3. Cefnogi ffoaduriaid, mudwyr a chymunedau newydd

Disgrifir llyfrgelloedd fel amgylcheddau croesawgar a all gefnogi ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl sy'n newydd i'r DU i feithrin rhwydweithiau cymdeithasol, datblygu sgiliau iaith, cael mynediad at wybodaeth ac adennill hyder ar ôl dadleoli neu fudo. Mae datganiadau strategol yn atgyfnerthu hyn trwy gyfeiriadau at gefnogaeth iaith, gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ailsefydlu a rhaglenni cynhwysol a gynlluniwyd i helpu trigolion newydd i deimlo'n rhan o'u cymunedau.

14.3.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi integreiddio ffoaduriaid a chysylltiad cymunedol trwy weithio mewn partneriaeth

Mae Castell-nedd Port Talbot yn dangos sut mae gwasanaethau llyfrgell wedi cefnogi ffoaduriaid o Wcráin sydd wedi'u hailsefydlu yn yr ardal trwy weithio mewn partneriaeth a gweithgareddau cymunedol. Gan weithio ochr yn ochr â Chydlynwyr Ardal Leol, datblygodd y llyfrgell raglen o sesiynau a gweithdai, gan gynnwys boreau coffi, a oedd yn darparu lle croesawgar i ffoaduriaid gyfarfod, cael mynediad at gymorth gan wasanaethau'r awdurdod lleol a chysylltu â thrigolion lleol. Crëodd y gweithgareddau hyn gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, cyfnewid diwylliannol a chyfranogi mewn grwpiau llyfrgell ehangach. O ganlyniad, roedd plant yn gallu meithrin cyfeillgarwch a magu hyder, tra bod teuluoedd yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned leol. Roedd y llyfrgell yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol lle gallai unigolion ddechrau ailadeiladu ymdeimlad o berthyn. Nododd un ffoadur: "Rwy'n teimlo'n hollol hapus bod yma. Dyna fy nhangfa o'm realiti fy hun." ([Adroddiad blynyddol Castell-nedd Port Talbot 2022 i 2023](#)).

14.3.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi integreiddio ffoaduriaid a mynediad at wasanaethau

Mae Rhondda Cynon Taf yn dangos sut mae llyfrgelloedd yn cefnogi adsefydlu ffoaduriaid ac integreiddio cymunedol. Mae Llyfrgell Pontypridd yn darparu lle diogel a chroesawgar ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Tîm Adsefydlu a theuluoedd ffoaduriaid, gan alluogi cefnogaeth wyneb yn wyneb ar draws meysydd fel tai, addysg ac iechyd. Mae staff y llyfrgell hefyd yn hyrwyddo gwasanaethau, yn annog aelodaeth ac yn cysylltu teuluoedd â gweithgareddau gan gynnwys sesiynau i blant.

Mae'r llyfrgell wedi datblygu casgliadau mewn amrywiol ieithoedd, gan helpu ffoaduriaid i gynnal cysylltiadau â'u hieithoedd cyntaf wrth ymgartrefu yn y gymuned. Mae adborth yn dangos bod amgylchedd y llyfrgell yn lleihau pryder, yn meithrin hyder ac yn cefnogi mynediad at wasanaethau a rhwydweithiau lleol. Mae'r enghraifft yn tynnu sylw at rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi cynhwysiant, cydlyniant cymunedol ac adsefydlu llwyddiannus. ([Adroddiad blynyddol Rhondda Cynon Taf 2024 i 2025](#)).

14.4. Cefnogi pobl sy'n profi caledi economaidd, digartrefedd a bregusrwydd cysylltiedig

Mae'r dystiolaeth ansoddol yn cynnwys enghreifftiau o lyfrgelloedd yn cefnogi unigolion a theuluoedd sy'n wynebu tlodi, diweithdra, digartrefedd a phwysau costau byw. Yn aml, disgrifir llyfrgelloedd fel pwyntiau mynediad lle gall unigolion gael mynediad at gyfrifiaduron; derbyn cymorth wrth lenwi ffurflenni a cheisiadau; a chysylltu â gwasanaethau cyngor a chymorth ehangach. Mae datganiadau strategol o flynyddoedd diweddarach y Fframwaith hefyd yn tynnu sylw at rôl llyfrgelloedd fel mannau cymunedol croesawgar sy'n darparu cefnogaeth yn ystod yr argyfwng costau byw.

14.4.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi unigolyn digartref i adfer annibyniaeth

Mae llyfrgelloedd Abertawe yn darparu enghraifft o gefnogaeth i ddyn a oedd yn ddigartref a heb gysylltiadau cymdeithasol ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar. Roedd wedi dysgu am wasanaethau llyfrgell yn ystod ei gyfnod yng Ngharchar EF Abertawe, lle mae llyfrgelloedd Cyngor Abertawe yn darparu gwasanaeth llyfrgell. Ar ôl cael ei ryddhau, defnyddiodd y ddarpariaeth 'gofod cynnes' yn y llyfrgell, ochr yn ochr â chael mynediad at wasanaethau eraill. Wrth chwilio am lety, gwnaeth staff y llyfrgell ei gefnogi gyda'i ymchwil a'i gyfeirio at wasanaethau perthnasol. Wedi hynny, daeth o hyd i lety a gwaith a dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gafodd, yn ogystal â'r caredigrwydd a'r parch a ddangoswyd gan staff y llyfrgell. ([Adroddiad blynyddol Abertawe 2023 i 2024](#)).

14.4.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles yn ystod caledi ariannol drwy fannau cynnes

Mae Blaenau Gwent yn tynnu sylw at werth y fenter Mannau Cynnes a'r gweithgareddau cysylltiedig a gyflwynwyd ym mis Hydref 2022. Roedd cwsmeriaid a oedd yn profi pwysau ariannol yn gwerthfawrogi cael mynediad at amgylchedd cynnes, diogel a chroesawgar a oedd yn meithrin cwmni a lles. Cymerodd llawer ran hefyd mewn gweithgareddau fel sesiynau Gwau a Rwdlan a Phaned a Chwmni, yn ogystal â chael mynediad am ddim i WiFi a chyfrifiaduron.

Ochr yn ochr â gwerthfawrogi'r lle cynnes, dywedodd un cwsmer a oedd wedi colli ei swydd fod y gefnogaeth a roddwyd gan y llyfrgell wedi cyfrannu at sicrhau swydd a llety newydd iddo, ac fe fyfyrdd, "heb y llyfrgell, rwy'n credu y byddwn wedi gorffen i fyny ar y strydoedd". ([Adroddiad blynyddol Blaenau Gwent 2022 i 2023](#)).

14.5. Mynd i'r afael ag allgáu digidol a galluogi mynediad at wasanaethau

Mae allgáu digidol yn ymddangos fel un o'r ffurfiau o anfantais a welir yn fwyaf cyson ar draws y Fframwaith. Mae llyfrgelloedd yn cefnogi unigolion sydd heb sgiliau digidol, mynediad i'r rhyngwrdd neu hyder wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cymorth digidol un-i-un, hyfforddiant sgiliau digidol a chynlluniau benthyca dyfeisiau. Mae datganiadau strategol yn disgrifio llyfrgelloedd fel darparwyr pwysig o

seilwaith cynhwysiant digidol, gan helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ac adnoddau cyflogaeth.

14.5.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi cynhwysiant digidol a chysylltiad drwy fenthyca cyfrifiaduron llechen

Cyflwynodd llyfrgelloedd Bro Morgannwg brosiect partneriaeth ddigidol a oedd yn gynllun i fenthyca cyfrifiaduron llechen sy'n gallu cysylltu â WiFi i aelodau'r llyfrgell er mwyn lleihau allgáu digidol. Dilëodd y prosiect hwn rwystrau i'r unigolion hynny heb fynediad i'r rhyngwrdd a'r rhai heb sgiliau digidol. Roedd yr iPad a fenthycodd yn achubiaeth i un fenyw a oedd wedi ymddeol; roedd yn ei galluogi i gadw mewn cysylltiad â'i theulu, ochr yn ochr â siopa ar-lein, dod o hyd i wybodaeth ac adloniant. ([Adroddiad blynyddol Bro Morgannwg 2019 i 2020](#)).

14.5.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi pobl hŷn ac agored i niwed drwy gymorth digidol yn y cartref

Yng Ngwynedd, mae'r Gwasanaeth Cymorth Digidol yn y Cartref, sy'n estyniad i'r Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref, yn darparu cymorth digidol i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar dechnoleg fel ffordd o ymgysylltu â'r byd y tu allan. Helpodd y gwasanaeth un gŵr hŷn i sefydlu ei flwch rhyngwrdd newydd, a chysylltu dyfeisiau, gan roi gwybodaeth iddo am yr amrywiaeth o wasanaethau digidol a ddarperir gan y llyfrgell. Roedd hyn yn hanfodol iddo wrth gynnal cysylltiadau â'i deulu a chael mynediad at y cyfryngau a gwasanaethau. ([Adroddiad blynyddol Gwynedd 2018 i 2019](#)).

14.5.3. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a chysylltiad drwy fynediad a dysgu digidol

Mae Powys yn darparu enghraifft o'r ffordd mae gwasanaethau llyfrgell yn cefnogi unigolion trwy gymorth digidol a mynediad at adnoddau ar-lein. Cefnogwyd un cwsmer i gael mynediad at ddsbarthiadau Cymraeg ar-lein, a oedd yn ei galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol o'i chartref. Helpodd hyn i'w chadw'n feddyliol weithredol a lleihau teimladau o ddiflastod ac ynysigrwydd. Roedd mynediad at adnoddau myfyrio hefyd yn cefnogi ei hiechyd meddwl ac yn ei helpu i reoli straen a gorbryder sy'n gysylltiedig â chyflwr iechyd. Trwy'r cymorth hwn, llwyddodd i ddefnyddio technoleg i aros mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, gan gyfrannu at ymdeimlad o berthyn a lles gwell. At ei gilydd, cafodd y cymorth effaith gadarnhaol ar ei hiechyd ac ansawdd ei bywyd. ([Adroddiad blynyddol Powys 2022 i 2023](#)).

14.6. Cefnogi pobl ifanc a lleihau'r risg o ymddieithrio

Mae llyfrgelloedd yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai a allai ei chael hi'n anodd ymwneud ag amgylcheddau addysgol traddodiadol. Mae rhaglenni fel gweithdai creadigol, gweithgareddau digidol a lleoedd creu yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu hyder, archwilio diddordebau ac adeiladu sgiliau. Mae datganiadau strategol a datganiadau o gyfeiriad at y dyfodol hefyd yn pwysleisio rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi dysgu a gwella cyfleoedd bywyd i bobl ifanc.

Mae Amseroedd Stori ac Amseroedd Rhigwm i Fabanod yn faes lle perfformiodd y rhan fwyaf o wasanaethau'n dda yn ystod cyfnod y Chweched Fframwaith. Y ganran ganolrifol o fannau gwasanaeth lle'r oedd y rhain ar gael oedd 100% yn y blynyddoedd pan gasglwyd ffigurau. Roedd yr amrediad rhyngchwartel yn fach, sy'n dangos lefel uchel o sylw ledled y wlad ar gyfer y gweithgareddau hyn.

14.6.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi sgiliau, hyder a chyflogadwyedd pobl ifanc drwy Ofodau Gwneud

Mae Bro Morganwg yn tynnu sylw at rôl Gofod Gwneud Llyfrgell y Barri wrth gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Cafodd y Gofod Gwneud ei agor ym mis Ebrill 2023, ac mae'n darparu mynediad at dechnoleg ddigidol arloesol ac yn rhan o gynnig digidol y llyfrgell ar ei newydd wedd. Er enghraifft, cofrestrodd chwech o bobl ifanc ar Raglen y Bont yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, a gynlluniwyd i feithrin hyder, datblygu sgiliau digidol a chefnogi dilyniant i ddysgu pellach. Yn rhan o'r rhaglen, mynychodd y cyfranogwyr sesiynau yng Ngofod Gwneud y llyfrgell, lle cwblhawyd prosiect dylunio digidol gan ddefnyddio meddalwedd ac offer arbenigol, a arweiniodd at arddangosfa derfynol. Trwy'r sesiynau hyn, datblygodd y bobl ifanc sgiliau dysgu digidol, creadigol ac annibynnol. Adroddodd eu tiwtor am fwy o hyder ac ymgysylltiad, a gwnaeth y sylwadau canlynol: "Mae gweld y dysgwyr yn camu y tu hwnt i'w ffiniau cyfforddus ac yn ymgysylltu â sefydliadau allanol wedi bod yn ysbrydoliaeth wirioneddol." Mae'r enghraifft hon yn dangos sut y gall gwasanaethau llyfrgell gefnogi datblygu sgiliau, hyder a chyflogadwyedd yn y dyfodol wrth ymgysylltu â defnyddwyr newydd. ([Adroddiad blynyddol Bro Morgannwg 2023 i 2024](#)).

14.6.2. Enghraifft ddarluniadol: ennyn diddordeb pobl ifanc a chefnogi creadigrwydd drwy weithgareddau celfyddydol

Mae Ynys Môn yn tynnu sylw at werth gweithdy graffiti mewn llyfrgell o ran ymgysylltu â phobl ifanc a chefnogi creadigrwydd. Bu Llyfrgelloedd Llangedfni a Chaergybi yn gweithio gyda phobl ifanc trwy weithdy dan arweiniad yr artist Andy Birch, gyda'r nod o annog creadigrwydd a denu defnyddwyr newydd i'r llyfrgell. Dyluniodd y cyfranogwyr fyrdau enw mewn arddull graffiti a chyfrannodd syniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer murlun yn Llyfrgell Llangedfni. Cafodd y rhain eu hymgorffori mewn gwaith celf bywiog yn dathlu darllen ac yn adlewyrchu creadigrwydd a chydweithrediad pobl ifanc leol. Mae'r murlun wedi cael derbyniad da, ac mae wedi meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth ymhlith y cyfranogwyr. Roedd yr adborth gan gyfranogwyr a rhieni yn gadarnhaol. Dywedidd un rhiant, "Rwy'n cael traferth dod o hyd i weithgareddau addas i blant hŷn, felly mae hyn wedi bod yn wych," tra bod person ifanc yn ei arddegau wedi gwneud y sylw, "Mae wedi bod yn dda rhoi cynnig ar rywbeth newydd a bod yn greadigol gyda phobl o'r un oedran â fi." Mae'r enghraifft yn dangos sut y gall llyfrgelloedd ymgysylltu â phobl ifanc, cefnogi hunanfyneiant a chryfhau cysylltiadau cymunedol. ([Adroddiad blynyddol Ynys Môn 2024 i 2025](#)).

14.6.3. Enghraifft ddarluniadol: ymgysylltu â phlant a chryfhau partneriaethau ag ysgolion drwy ymweliadau â llyfrgelloedd

Mae llyfrgelloedd Sir Benfro yn tynnu sylw at werth ymweliadau ag ysgolion wrth ymgysylltu â phlant a chryfhau cysylltiadau rhwng llyfrgelloedd ac ysgolion lleol. Roedd ymweliadau â Llyfrgell Aberdaugleddau yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell, annog aelodaethau newydd ac ymgysylltu â phlant nad oeddent wedi ymweld ers peth amser. Gwnaethant hefyd alluogi cydweithio agosach â staff addysgu, gyda staff y llyfrgell yn cefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth trwy baratoi adnoddau ar bynciau penodol. Helpodd yr ymweliadau i feithrin perthnasoedd cryfach ag ysgolion a chreu cyfleoedd i gyflwyno plant a'u teuluoedd i wasanaethau llyfrgell. Roedd yr adborth gan blant, rhieni a staff yn gadarnhaol dros ben. Dywedodd un rhiant fod ei merch, "wedi dweud bod hi wedi cael cymaint o hwyl yn ystod ei thaith i'r llyfrgell! Roedd hi'n hoffi clywed eraill yn darllen iddi a'r holl lyfrau yno." Dywedodd Cynorthwyydd Cymorth Dysgu, "Hoffwn i gymryd y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr am fod mor groesawgar ac am roi profiad mor hyfryd i'n plant a dangos iddyn nhw faint o adnodd gwych, am ddim, sydd gennym ar garreg ein drws. Rwy'n gobeithio y bydd y plant yn parhau i ddychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda'u teuluoedd ac yn y pen draw, ar eu pen eu hunain." ([Adroddiad blynyddol Sir Benfro 2023 i 2024](#)).

15. Effaith y pandemig coronafeirws COVID-19

Roedd yr ymchwili yn ceisio ateb y cwestiwn, 'Beth gall data Chwched Fframwaith SLICC ei ddweud wrthym am effaith y pandemig COVID-19 ar wasanaethau llyfrgell Cymru?'

Cafodd y pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar weithrediad gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus Cymru. Roedd cau adeiladau llyfrgelloedd yn ystod cyfnodau clo yn golygu nad oedd modd i lawer o wasanaethau traddodiadol weithredu yn eu ffurf arferol. Er mwyn darparu gwasanaeth yn ystod y pandemig, roedd yn rhaid i lyfrgelloedd addasu eu cynnig yn gyflym. Yn 2020 i 2021, roedd y mesurau a gyflwynwyd yn cynnwys:

- caniatáu adnewyddu benthyciadau'n awtomatig ar draws pob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru
- rhoi'r gorau i godi dirwyon, naill ai'n barhaol neu dros dro
- ehangu argaeledd adnoddau ar-lein, gyda chymorth o £500,000 ychwanegol o gyllid Llywodraeth Cymru i brynu adnoddau
- cynnig sesiynau ar-lein gan gynnwys y Gymraeg; sesiynau hel atgofion i drigolion cartrefi gofal; a sesiynau amser stori ac amser rhigwm
- cyfanswm o 7,797 o sesiynau ar-lein, a fynychwyd gan 618,349 o unigolion yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022
- staff yn gwneud galwadau ffôn cyfeillio i gwsmeriaid agored i niwed oedd yn gwarchod eu hunain
- cyflwyno loceri digidol hunanwasanaeth clicio a chasglu mewn rhai gwasanaethau i alluogi cwsmeriaid i archebu eitemau a'u casglu o'r locer ar adeg a oedd yn gyfleus iddyn nhw. Yn 2020 i 2021 a 2021 i 2022, darparodd gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru gyfanswm o 251,967 o fenthyciadau trwy wasanaeth clicio a chasglu
- cynnig pecynnau Dechrau Da a phecynnau ar gyfer Babanod a'r Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd babanod a phlant ifanc trwy law'r gwasanaeth llyfrgell tra bod gwasanaethau wyneb yn wyneb ymwelwyr iechyd wedi'u hatal
- Cafodd nifer o staff llyfrgell eu hadleoli a gwnaethant roi cefnogaeth i deuluoedd oedd yn gwarchod eu hunain trwy ddosbarthu bwyd a phresgripsiynau

Dylid nodi nad oedd yn bosibl casglu'r set ddata SLICC gyfan yn ystod y blynyddoedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig, a hawdd deall hynny. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl gwneud sylwadau llawn ar rai tueddiadau dros y cyfnod hwn.

15.1. Patrymau defnydd

Yn anochel, effeithiwyd ar y defnydd o lyfrgelloedd oherwydd COVID-19 wrth i fannau gwasanaeth gau yn ystod y cyfnod clo a symudwyd rhai gwasanaethau a gweithgareddau ar-lein. O ran ymweliadau mewn person â llyfrgelloedd, roedd y ffigurau cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth yn gyson cyn COVID-19, ond bu gostyngiad nodedig pan

ailddechreuodd y gwaith o gasglu data yn 2022 i 2023. Ni chasglwyd ffigurau ymweliadau mewn person yn ystod cyfnod yr Atodiad.

Gostyngodd niferoedd y benthycwyr gweithredol yn gyfan gwbl bron yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, ond o 2021 i 2022, bu iddynt ddechrau ymadfer. Fodd bynnag, arhosodd niferoedd benthycwyr yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Serch hynny, mae'n werth nodi bod ffigurau benthycwyr gweithredol yn fwy cyson ledled y wlad ar ôl COVID-19 wrth i'r amrediad rhyngchwartel leihau. Roedd cyfran yr aelodau llyfrgell a oedd yn fenthycwyr gweithredol yn amrywio'n sylweddol ar draws y Chweched Fframwaith, yn genedlaethol ac o fewn gwasanaethau penodol. Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol oherwydd amseriad clirio cronfeydd data.

Trafodir patrymau benthycu newidiol yn fanylach yn Adran 10. I grynhoi, gostyngodd niferoedd y benthyciadau oedolion ar ddechrau'r pandemig, ond yna gwnaethant godi ym mhob gwasanaeth rhwng 2021 a 2022, ond dim ond un gwasanaeth a ddychwelodd i'r lefelau cyn y pandemig yn ystod y Chweched Fframwaith. Ymadferodd nifer y benthyciadau ar gyfer plant hefyd ym mhob gwasanaeth wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi. Erbyn 2023 i 2024, roedd ffigurau'r adnoddau i blant a fenthycwyd yr adroddwyd amdanynt wedi ymadfer o'r gostyngiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ac roeddent yn uwch na lefelau 2019 i 2020.

Parhaodd y defnydd cynyddol o wasanaethau digidol, a ehangodd yn sylweddol yn ystod y pandemig, ar ôl COVID-19. Mae'r tueddiad ar i fyny mewn e-fenthyciadau ar ddiwedd y Fframwaith yn gyson ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau, ac ymddengys y bydd yn parhau, er efallai y bydd ar gyfradd arafach nag yn y blynyddoedd yn syth ar ôl y pandemig.

Wrth gymharu newidiadau yn y ffigurau benthyciadau ledled y wlad, mae'n amlwg bod rhai gwasanaethau wedi ymadfer yn gymharol gyflym, tra bod eraill yn parhau i'w chael hi'n anoddach codi allan o effaith y pandemig.

15.1.1. Enghraifft ddarluniadol: gwerth y gwasanaeth llyfrgell i'r cartref

Parhaodd gwasanaeth llyfrgell i'r cartref Llyfrgelloedd Sir y Fflint drwy gydol y pandemig, a denodd gwsmeriaid ychwanegol, gan gynnwys y rhai oedd yn hunanynysu ac yn methu ymweld â'u llyfrgell leol neu symudol. Roedd y danfoniadau rheolaidd yn sicrhau mynediad parhaus at ddeunyddiau darllen, ac roeddent hefyd yn darparu pwynt cyswllt i unigolion a oedd yn treulio cyfnodau hir gartref. Nododd cwsmer galarus y canlynol: "Yn ystod y pandemig, ymunais â'r gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref...Rwy'n edrych ymlaen at gael fy mag o lyfrau ac rwy' bob amser yn derbyn amrywiaeth o ddewisiadau....mae darllen yn fy helpu i fynd â mi i fyd arall, ar adeg pan mae angen i mi ddod o hyd i le hapus." ([Adroddiad blynyddol Sir y Fflint 2020 i 2021](#)).

15.1.2. Enghraifft ddarluniadol: lleihau ynysigrwydd drwy gynhwysiant digidol a gweithio mewn partneriaeth

Yn Wrecsam, bu staff y llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth â thimau gofal cymdeithasol i oedolion i gyflwyno prosiect a oedd â'r nod o gefnogi trigolion agored i niwed. Trwy gyllid Grant Cynhwysiant Cymunedol, darparwyd iPads gyda chysylltedd 4G i unigolion y nodwyd eu bod a oedd mewn perygl o gael eu hynysu. Roedd hyn yn galluogi cyfranogwyr i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, yn ogystal â chael mynediad at adnoddau digidol fel llyfrau sain drwy'r gwasanaeth llyfrgell. Roedd y dyfeisiau'n darparu modd hanfodol o gysylltu, gan helpu unigolion i barhau i ymgysylltu a lleihau teimladau o fod yn ynysig. ([Adroddiad blynyddol Wrecsam 2020 i 2021](#)).

Ffigur 15.1: Cyd-destun ehangach ar gyfer achosion o fenthycha llyfrau, ymweliadau mewn person ac ymweliadau â llyfrgelloedd

Achosion o fenthycha llyfrau: Llyfrgelloedd yn Iwerddon	1. Yn ystod 2020 i 2021, profodd gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus Iwerddon ostyngiadau mewn achosion o fenthycha ffisegol o 40-63% o gymharu â lefelau benthyca cyn y pandemig 2. Ni lwyddodd y cynnydd a welwyd mewn darllen digidol i bontio'r bwlch yn yr achosion o fenthycha llyfrau ffisegol a gollwyd oherwydd bod adeiladau ar gau (Llywodraeth Iwerddon, 2023)
Ymweliadau mewn person: Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr	1. Yn dilyn diwedd y pandemig, cynyddodd ymweliadau mewn person â llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr o 1,215 fesul 1,000 o bobl yn 2021 i 2022 i 2,082 fesul 1,000 o bobl yn 2022 i 2023 (71%) (CIPFA, 2023b)
Ymweliadau â llyfrgelloedd: Llyfrgelloedd yn yr Alban	1. Roedd dros 14.5 miliwn o ymweliadau mewn person â llyfrgelloedd cyhoeddus yr Alban yn 2023 i 2024, sef cynnydd o 18% o 2022 i 2023, sy'n cyfateb i tua 2.6 fesul unigolyn 2. Cynyddodd cyfanswm yr ymweliadau â llyfrgelloedd – sef cyfuniad o ymweliadau mewn person ac yn ddigidol at ei gilydd - o 32 miliwn o ymweliadau i dros 40 miliwn o ymweliadau rhwng 2022 i 2023 a 2023 i 2024, sef cynnydd o tua 25%.(CILIPS, nd)

Disgrifiad o Ffigur 15.1: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gyda thair adran liw. Mae adran un yn egluro, yn ystod 2020 i 2021, fod gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus Iwerddon wedi profi gostyngiadau mewn achosion o fenthycha ffisegol o 40%-63% o gymharu â'r lefelau benthyca cyn y pandemig. Ni lwyddodd y cynnydd a welwyd mewn darllen digidol i bontio'r bwlch yn yr achosion o fenthycha llyfrau ffisegol a gollwyd oherwydd bod adeiladau ar gau (Llywodraeth Iwerddon, 2023). Mae adran dau yn egluro, yn dilyn diwedd y pandemig, fod ymweliadau mewn person â llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu o 1,215 fesul 1,000 o bobl yn 2021 i 2022 i 2,082 fesul 1,000 o bobl yn 2022 i 2023 (71%) (CIPFA, 2023b). Mae adran tri yn egluro bod dros 14.5 miliwn o ymweliadau mewn person â llyfrgelloedd cyhoeddus yr Alban yn 2023 i 2024, sef cynnydd o 18% o 2022 i 2023, sy'n cyfateb i tua 2.6 fesul unigolyn. Cynyddodd cyfanswm yr ymweliadau â llyfrgelloedd, sef cyfuniad o ymweliadau mewn person ac yn ddigidol at ei gilydd, o 32 miliwn o ymweliadau i

dros 40 miliwn o ymweliadau rhwng 2022 a 2023 a 2023 i 2024, sef cynnydd o tua 25%. (CILIPS, nd).

Ffynhonnell: [Llywodraeth Iwerddon 2023](#), [CIPFA 2023b](#) a [CILIPS nd](#)

15.2. Strategaeth a chynllunio

Mae datganiadau o gyfeiriad at y dyfodol yn aml yn cyfeirio at yr ansicrwydd a grëwyd gan y pandemig a'r angen i wasanaethau ailystyried eu blaenoriaethau a'u fframweithiau cynllunio. Adroddodd rhai gwasanaethau am oedi wrth ddatblygu strategaethau neu newidiadau i brosiectau bwriadedig wrth i'r sylw symud at gynnal gwasanaethau hanfodol a chefnogi cymunedau.

Mae datganiadau o gyfeiriad at y dyfodol o flynyddoedd diweddarach yn dangos bod gwasanaethau'n gweithio i annog pobl i ddychwelyd i adeiladau llyfrgelloedd wrth barhau i ddatblygu gwasanaethau digidol a oedd wedi profi'n werthfawr yn ystod y pandemig.

15.3. Darparu gweithgareddau, digwyddiadau a hyfforddiant cwsmeriaid

Yn anochel, cymerodd gryn amser i ddarpariaeth digwyddiadau ymadfer ar ôl cyfnod y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, erbyn 2023 i 2024, roedd tystiolaeth bod niferoedd cynyddol o gwsmeriaid yn dychwelyd i lyfrgelloedd er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, gweithgareddau a chyfleoedd hyfforddi.

Roedd ffigurau presenoldeb mewn hyfforddiant ffurfiol yn dangos arwyddion o ostyngiad bach cyn COVID-19. Yna, gostyngodd presenoldeb ymhellach yn ystod y pandemig cyn dechrau cynyddu'n raddol eto, er na ddychwelodd i'w lefelau cyn COVID-19. Felly mae'n anodd dweud a wnaeth COVID-19 waethgu tueddiad o ddarpariaeth a oedd eisoes yn lleihau yn y maes hwn. Er bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi dilyn tueddiad tebyg yn gyffredinol, roedd nifer yn dangos patrwm gwahanol; er enghraifft, roeddent yn dangos cynnydd nodedig o ran nifer y bobl a oedd yn mynychu yn y blynyddoedd ar ôl COVID-19, neu fel arall ostyngiad parhaus ar ôl COVID-19 gyda thystiolaeth gyfyngedig o adferiad. Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a gasglwyd ar gyfer y mesur hwn wedi'u dylanwadu gan bartneriaid sy'n aml yn darparu hyfforddiant ar y cyd â'r llyfrgell, felly gall rhywfaint o'r amrywiad fod oherwydd newidiadau mewn trefniadau partneriaeth lleol.

Gostyngodd ffigurau canolrifol y cymorth anffurfiol ar ôl COVID-19 yna gwnaethant ddechrau cynyddu eto'n raddol, er na wnaethant ddychwelyd i'w lefelau cyn COVID-19. Fodd bynnag, roedd cryn amrywiad rhwng awdurdodau. Dilynodd rhai'r patrwm a ddisgrifiwyd, ond ni welwyd hynny mewn awdurdodau eraill; er enghraifft, gwnaethant gynnal y ffigurau cyn COVID-19 yn 2022 i 2023, ond yna gwnaethant ostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd canlynol. Mae rhai ffigurau'n ymddangos yn anarferol, ac nid yn realistig, fel newid blynyddol mewn gwasanaeth. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r ffordd y mae'r data hyn yn cael ei gasglu yn gyson. Yn 2024 i 2025, yn benodol, roedd amrediad y gwerthoedd yn sylweddol ehangach nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Roedd ffigurau mynychu digwyddiadau yn codi cyn COVID-19. Gostyngodd y ffigurau yn ystod y pandemig, ond yna gwnaethant ddechrau cynyddu eto, ac roedden nhw'n fwy na'r ffigurau cyn COVID-19 erbyn 2024 i 2025. Fodd bynnag, roedd y ffigurau'n amrywio'n fawr ledled Cymru ac ehangodd yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel yn ystod cyfnod yr Atodiad wrth i rai gwasanaethau ei chael hi'n anodd ymadfer, yn ôl pob golwg.

15.3.1. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol drwy grwpiau darllen ar-lein

Mae gwasanaeth llyfrgell Casnewydd yn darparu enghraifft o wasanaethau sy'n addasu i gefnogi lles a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol yn ystod y pandemig trwy symud grŵp darllen ar y cyd ar-lein. Parhaodd y grŵp i gyfarfod yn rheolaidd, gan ddarparu cyfle pwysig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ar adeg pan oedd gan lawer o gyfranogwyr gyswllt cyfyngedig y tu allan i'w cartrefi uniongyrchol. Roedd y sesiynau'n cyfuno sgysio anffurfiol â darllen ar y cyd, gan greu lle i gyfranogwyr gysylltu, rhannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Daeth y grŵp yn ffynhonnell bwysig o drefn, cysylltiad a chefnogaeth emosiynol, yn enwedig i'r rhai a oedd yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae adborth gan gyfranogwyr yn tynnu sylw at werth y sesiynau. Gwnaeth un aelod y sylw: "Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grŵp Darllen ar y Cyd wedi rhoi blas bach o normalrwydd mewn byd rhyfedd iawn....Mae'r gwasanaeth hwn wedi effeithio'n fawr arna i gan fy mod i'n byw ar fy mhen fy hun, ac mae'n rhywbeth i edrych ymlaen ato ar ddydd Mercher. I deimlo ychydig yn fwy diwylliedig a gwybodus ac yn llai unig erbyn diwedd ein sesiwn." ([Adroddiad blynyddol Casnewydd 2020 i 2021](#)).

15.3.2. Enghraifft ddarluniadol: cefnogi lles trigolion cartrefi gofal drwy weithgareddau allgymorth digidol

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn tynnu sylw at y ffordd y gwnaeth gwasanaethau llyfrgell addasu gweithgarwch allgymorth yn ystod y pandemig trwy gyflwyno sesiynau adrodd straeon a hel atgofion i drigolion cartrefi gofal trwy Zoom. Gydag ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u hoedi, bu staff y llyfrgelloedd yn gweithio gyda chartrefi gofal lleol i ddarparu sesiynau rhyngweithiol gan ddefnyddio straeon, lluniau a deunyddiau hanes teuluol i ysgogi sgwrs ac atgofion cyffedin. Cynigiodd y sesiynau hyn newid i'r drefn arferol i'r trigolion, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Roeddent hefyd yn cefnogi ymlacio a lles trwy greu amgylchedd tawel a deniadol. Dywedodd aelod o staff yn y cartref gofal: "Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn fuddiol o ran ymlacio, am eu bod nhw'n canolbwyntio ar wrando, ac mae'n eu helpu i deimlo'n dawel eu meddyliau...Roeddwn i eisiau rhoi gwybod i chi am yr effaith gadarnhaol y mae'r straeon yn ei chael, a'n bod ni'n gwerthfawrog'r ffaith eich bod chi'n cymryd yr amser i wneud y rhain gyda ni." ([Adroddiad blynyddol Pen-y-bont ar Ogwr 2020 i 2021](#)).

15.3.3. Enghraifft ddarluniadol: meithrin hyder digidol a chysylltiad cymdeithasol drwy grwpiau llyfrau rhithwir

Mae llyfrgelloedd Torfaen yn tynnu sylw at y ffordd y gwnaeth clwb llyfrau rhithwir a sefydlwyd yn ystod y pandemig gefnogi cysylltiad cymdeithasol a hyder digidol fel ei gilydd. Gyda'r llyfrgelloedd ar gau, defnyddiodd y grŵp y gwasanaeth BorrowBox i gael mynediad at ddeunyddiau darllen i'w rhannu a oedd yn addas ar gyfer trafodaeth ar-lein. Cefnogodd staff y llyfrgell aelodau i gymryd rhan a hwyluso'r newid i Microsoft Teams. Daeth 12 aelod i'r sesiwn gyntaf; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu 70au a'u 80au, yn byw ar eu pennau eu hunain a heb ddefnyddio platfformau cyfarfodydd rhithwir o'r blaen. Er gwaethaf yr heriau technegol cychwynnol, addasodd y cyfranogwyr yn gyflym. Gwnaeth y grŵp helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd tra'n meithrin hyder hefyd wrth ddefnyddio technoleg ddigidol. ([Adroddiad blynyddol Torfaen 2020 i 2021](#)).

Ffigur 15.2: Cyd-destun ehangach ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau

Gweithgareddau a digwyddiadau: Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon	1. Cymerodd gweithgareddau a digwyddiadau mewn gwasanaethau llyfrgell mewn mannau eraill hefyd amser i ymadfer yn dilyn y pandemig 2. Mewn Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon, roedd ystadegau cyfranogi 2022 i 2023 ar gyfer gweithgareddau llyfrgell yn is yn gyffredinol na ffigurau cyn y pandemig. Er enghraifft, o gymharu 2022 i 2023 â 2017 i 2018: • Roedd sesiynau ymweliadau dosbarthiadau i lawr 6% • Roedd y cyfranogiad mewn sesiynau TG 1 i 1 (sgiliau sylfaenol) i lawr 70% • Roedd y cyfranogiad mewn sesiynau llythrennedd digidol i lawr 33% • Roedd y cyfranogiad mewn grwpiau darllen i lawr 19% (gwnaeth cyfranogiad oedolion ostwng 4% ac roedd cyfranogiad plant i lawr 56%) • Roedd sesiynau Rhythm ac Odl i lawr 32% • Roedd sesiynau Amser Stori i lawr 39% (Libraries Northern Ireland, 2023)
---	---

Disgrifiad o Ffigur 15.2: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro bod gweithgareddau a digwyddiadau mewn gwasanaethau llyfrgell mewn mannau eraill hefyd wedi cymryd amser i ymadfer ar ôl y pandemig. Mewn llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon, roedd ystadegau cyfranogiad 2022 i 2023 ar gyfer gweithgareddau llyfrgell yn is yn gyffredinol na'r ffigurau cyn y pandemig. Er enghraifft, wrth gymharu 2022 i 2023 â 2017 i 2018, dangosodd y canlynol: roedd sesiynau ymweliadau dosbarthiadau i lawr 6%; roedd y cyfranogiad mewn sesiynau TG 1 i 1 (sgiliau sylfaenol) i lawr 70%; roedd y cyfranogiad mewn sesiynau llythrennedd digidol i lawr 33%; roedd y cyfranogiad mewn grwpiau darllen i lawr 19% (gwnaeth cyfranogiad oedolion ostwng 4% ac roedd cyfranogiad plant i lawr 56%); roedd sesiynau Rhythm ac Odl i lawr 32%; ac roedd sesiynau Amser Stori i lawr 39% (Llyfrgelloedd Gogledd Iwerddon, 2023).

Ffynhonnell: [Libraries Northern Ireland, 2023](#)

15.4. Bodlonrwydd cwsmeriaid ac effaith gwasanaethau llyfrgell

Am mai dim ond unwaith bob tair blynedd y mae'n ofynnol i wasanaethau llyfrgell Cymru gynnal arolwg cwsmeriaid, mae canlyniadau cyfnod y Chweched Fframwaith yn disgyn i grwpiau cyn COVID-19 (2017 i 2020) ac ar ôl COVID-19 (2022 i 2025). Er nad yw'n bosibl priodoli unrhyw newidiadau mewn ymatebion yn y ddau gyfnod hyn i'r pandemig yn uniongyrchol, mae'n werth nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddwy set ddata.

Roedd y ganran ganolrifol o oedolion a oedd o'r farn bod ymweld â'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd yn is ar ôl COVID-19. Ar yr un pryd, lleihaodd yr amrediad rhyngchwartel, sy'n golygu bod mwy o gysondeb yn y ffordd yr oedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n perfformio, ond roedd sawl allanolyn ar ben isaf y raddfa. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19 ar gyfer y mesur hwn (t '*Myfyriwr*'=2.32, p <0.05).

Roedd y ganran ganolrifol o oedolion a ddaeth o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a lles yn y llyfrgell hefyd yn is ar ôl COVID-19. Unwaith eto, er bod yr amrediad rhyngchwartel wedi lleihau, roedd sawl allanolyn ar ben isaf y raddfa wrth i'r amrediad gynyddu. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19 (t '*Myfyriwr*'=2.24, p <0.05).

Ychydig iawn o newid a welwyd ym mhatrwm yr oedolion a oedd yn ystyried bod y llyfrgell yn lle pleserus, diogel a chynhwysol rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19. Arhosodd y canolrif yr un fath ac roedd yr amrediad o werthoedd ychydig yn llai ar ôl COVID-19. Roedd y ganran ganolrifol o oedolion a oedd yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau ychydig yn is ar ôl COVID-19. Roedd yr amrediad rhyngchwartel yn llai, ond roedd mwy o allanolynnau ar ben isaf y raddfa. Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19 ar gyfer canran y bobl ifanc a oedd yn credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu; ychydig o newid a welwyd yn y canolrif, yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel. Ar gyfer y tri mesur hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19.

Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y ffigurau cyn ac ar ôl COVID-19 ar gyfer unrhyw un o'r mesurau gwasanaeth cwsmeriaid, sef canran yr oedolion a roddodd sgôr 'da iawn' neu 'da' i'r dewis o lyfrau, cyfleusterau TG, gofal cwsmeriaid neu'r llyfrgell yn gyffredinol a sgôr allan o 10 a roddwyd gan blant a phobl ifanc. Ym mhob achos, dim ond newidiadau bach oedd yn y canolrif, yr amrediad a'r amrediad rhyngchwartel.

15.5. Staffio a gwirfoddolwyr

Yn ystod y pandemig COVID-19, cyfrannodd staff llyfrgell mewn sawl awdurdod yng Nghymru at fentrau cymorth cymunedol ehangach a drefnwyd gan eu hawdurdodau lleol. Cafodd staff eu hadleoli neu buont yn gwirfoddoli i gynorthwyo gyda gweithgareddau fel galwadau lles i drigolion agored i niwed, helpu i gydlynu rhwydweithiau cymorth cymunedol, dosbarthu cyflenwadau hanfodol a chefnogi gwasanaethau i gynorthwyo pobl a oedd yn gwarchod eu hunain neu wedi'u hynysu. Dangosodd y gweithgareddau hyn allu staff llyfrgell i addasu a'r rôl ddinesig ehangach y gall gwasanaethau llyfrgell ei chwarae yn ystod

cyfnodau o argyfwng. Mae'r enghraifft yn tynnu sylw at y ffordd y cyfrannodd staff llyfrgell at ymatebion brys awdurdodau lleol tra'n parhau i gefnogi defnyddwyr llyfrgelloedd mewn ffyrdd newydd.

Gostyngodd nifer y gwirfoddolwyr yn ystod COVID-19 oherwydd cyfnodau clo a chyfyngiadau eraill. Er bod y niferoedd wedi ymadfer yn y blynyddoedd dilynol, roedd nifer ganolrifol y gwirfoddolwyr a'r oriau gwirfoddoli yn is na'u ffigurau cyn COVID-19 ar ddiwedd y Chweched Fframwaith. Serch hynny, roedd nifer fach o awdurdodau yn allanolynnau, gyda niferoedd gwirfoddolwyr a/neu oriau gwirfoddolwyr a oedd yn llawer uwch na'r rhan fwyaf o wasanaethau. Cynyddodd y bwlch rhwng y gwasanaethau hyn a gweddill awdurdodau llyfrgell Cymru yn y cyfnod ar ôl COVID-19.

15.5.1. Enghraifft ddarluniadol: adleoli staff llyfrgell i gefnogi trigolion agored i niwed

Mae gwasanaeth llyfrgell Conwy yn tynnu sylw at y ffordd y cefnogodd staff llyfrgell drigolion a oedd yn agored i niwed yn ystod y cyfnod clo trwy gael eu hadleoli i dimau trin galwadau, broceriaeth a chymorth gwarchod. Yn y rolau hyn, roedd staff yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i unigolion a oedd yn ofnus, yn ddryslyd neu yr angen cymorth arnynt. Roedd galw mawr yn effeithio ar fynediad at fwyd a meddyginiaeth, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar y pandemig, a chwaraeodd staff y llyfrgell ran allweddol wrth sicrhau bod trigolion a oedd yn agored i niwed yn cael cyflenwadau hanfodol. Buont yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys banciau bwyd a grwpiau cymunedol, i gydlynu cymorth. Nododd un aelod o staff: "Roedd y gwaith cydweithredol a wnaethom gyda banciau bwyd presennol, a'r rhai a sefydlwyd gan grwpiau cymunedol lleol, yn galonogol. Roedd eu cefnogaeth a'u hymateb uniongyrchol i geisiadau am gymorth yn amhrisiadwy i ni wrth ddatrys sefyllfaoedd anodd". ([Adroddiad blynyddol Conwy 2020 i 2021](#)).

15.5.2. Enghraifft ddarluniadol: staff llyfrgell yn cefnogi lles a chysylltiad cymunedol

Mae llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn tynnu sylw at y ffordd yr ymatebodd staff y llyfrgell yn gyflym yn ystod y cyfnod clo cyntaf i gefnogi eu cymunedau. Sefydlodd staff rwydweithiau ar blatfformau digidol i aros mewn cysylltiad, rhannu gwybodaeth a sicrhau nad oedd unigolion yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn ystod cyfnod anodd. Chwiliodd y tîm hefyd am gyfleoedd gwirfoddoli, gan gynnwys dosbarthu prydau bwyd ysgol am ddim i blant, a chynhaliodd gysylltiad rheolaidd â chwsmeriaid Homelink i gefnogi'r rhai a oedd mewn perygl o fod yn ynysig. Yn ogystal, cyfrannodd rhai staff at ymdrechion cymorth lleol y GIG trwy gasglu bwyd a phethau ymolchi ar gyfer staff yr ysbyty a oedd dan bwysau. ([Adroddiad blynyddol Merthyr Tudful 2020 i 2021](#)).

Ffigur 15.3: Cyd-destun ehangach ar gyfer niferoedd gwirfoddolwyr

Niferoedd gwirfoddolwyr: Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr	1. Yn 2022 i 2023, adroddodd CIPFA, er bod lefelau staff mewn Llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr wedi parhau i fod yn sefydlog, fod nifer y gwirfoddolwyr wedi dangos adferiad sylweddol ers 2021 i 2022 2. Cododd nifer y gwirfoddolwyr o 0.34 fesul 1,000 o bobl yn 2021 i 2022 i 0.59 yn 2022 i 2023, sef cynnydd o 74%
--	--

Disgrifiad o Ffigur 15.3: Siart sy'n amlygu'r cyd-destun ehangach gydag un adran liw. Mae'r adran hon yn egluro bod CIPFA wedi nodi, yn 2022 i 2023, er bod lefelau staff mewn llyfrgelloedd ym Mhrydain Fawr wedi parhau i fod yn sefydlog, fod nifer y gwirfoddolwyr wedi dangos adferiad sylweddol ers 2021 i 2022. Cododd nifer y gwirfoddolwyr o 0.34 fesul 1,000 o bobl yn 2021 i 2022 i 0.59 yn 2022 i 2023, sef cynnydd o 74%.

Ffynhonnell: [CIPFA 2023b](#)

15.6. Crynodeb

Yn ystod COVID-19, profodd llyfrgelloedd amhariad sylweddol i ddarpariaeth eu gwasanaethau arferol ond gwnaethant addasu'n gyflym trwy ehangu gwasanaethau digidol, cyflwyno modelau gwasanaeth newydd a chynnal mynediad at adnoddau lle bynnag y bo modd. Ar yr un pryd, roedd llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi eu cymunedau. Trwy weithgareddau ar-lein, gwasanaethau danfon i'r cartref a mentrau cymorth cymunedol ehangach, helpodd llyfrgelloedd i leihau ynysigrwydd, cynnal mynediad at ddarllen a gwybodaeth a darparu cymorth ymarferol i drigolion. Wrth i wasanaethau symud i'r cyfnod ymadfer, symudodd y ffocws tuag at adfer ymgysylltiad ac integreiddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig i'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau at y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai gwasanaethau wedi ymadfer yn gyflymach nag eraill. Mae'n anodd gwneud sylwadau ar batrymau ymadfer ar ôl COVID-19 ar draws gwasanaethau llyfrgell Cymru yn seiliedig ar ddata SLICC yn unig. Er enghraifft, gall anghydraddoldebau iechyd ac anghyfartaledd economaidd, a waethygydd yn ystod y pandemig, chwarae rhan yn yr adferiad mewn gwahanol leoliadau.

Mae'n ymddangos bod gan lawer o'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, neu a gyflymwyd ganddo, oblygiadau hirdymor i lyfrgelloedd Cymru. Er enghraifft, mae'r gostyngiad yn nifer y benthyciadau ar gyfer oedolion a'r cynnydd cyfatebol mewn e-fenthyciadau yn sicr wedi'i hybu'n gan y cyfyngiadau symud oherwydd COVID-19. Ni ddylai gwelliannau ar lefel genedlaethol mewn rhai meysydd guddio'r ffaith bod rhai gwasanaethau wedi parhau i gael trafferth i ymadfer ymhell ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi.

16. Casgliadau

Archwiliodd yr astudiaeth hon dueddiadau yn narpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod cyfnod Chweched Fframwaith SLICC (2017 i 2025). Gan ddefnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol fel ei gilydd, mae'r dadansoddiad yn rhoi cipolwg ar y ffordd y datblygodd gwasanaethau llyfrgell yn ystod cyfnod a nodweddiwyd gan bwysau strwythurol, aflonyddwch y pandemig COVID-19, a'r adferiad dilynol.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru wedi parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac wedi cefnogi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hefyd yn nodi nifer o bwysau sy'n effeithio ar y sector, yn enwedig mewn perthynas â staffio, oriau agor, mannau gwasanaeth ac adnoddau ariannol.

Sefydlogrwydd cynnig craidd llyfrgelloedd

Arhosodd elfennau sylfaenol y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus statudol yng Nghymru yn sefydlog i raddau helaeth drwy gydol cyfnod y Chweched Fframwaith. Bodlonwyd y rhan fwyaf o'r Hawliau Craidd, yn llawn neu'n rhannol, gan y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell yng Nghymru drwy gydol y Fframwaith. Felly mae sylfeini craidd y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i fod wedi'u gwreiddio'n gadarn ar draws rhwydwaith llyfrgelloedd Cymru.

Fodd bynnag, profodd nifer fach o Hawliau Craidd yn fwy heriol i'w bodloni'n gyson. Yn benodol, dangosodd y rhai yn ymwneud ag oriau agor, ymgynghori â defnyddwyr a chynllunio strategol fwy o amrywiad rhwng awdurdodau ac ar draws blyneddau. Ymddengys bod yr heriau hyn yn gysylltiedig â phwysau ehangach ar gapasiti staffio ac adnoddau gweithredol.

Mae perfformiad yn erbyn Dangosyddion Ansawdd SLICC yn cyflwyno darlun cymysg. Roedd nifer o ddangosyddion yn ymwneud â darparu gwasanaethau a gweithgarwch cymunedol yn cael eu bodloni'n gyson gan y rhan fwyaf o awdurdodau. Er enghraifft, arhosodd dangosyddion yn gysylltiedig â chymorth digidol, datblygu darllenwyr, gwasanaethau iechyd a lles, a mynediad i'r rhyngwrdd yn gryf drwy gydol cyfnod y fframwaith. I'r gwrthwyneb, roedd y dangosyddion yn gysylltiedig â lefelau staffio, oriau agor a darpariaeth stoc yn fwy heriol. Yn benodol, ni fodlonwyd y dangosydd yn gysylltiedig â staffio yn llawn gan unrhyw wasanaeth yn ystod y Chweched Fframwaith. Yn ogystal, gostyngodd cyfran y gwasanaethau a gyrhaeddodd y targed o ran oriau agor dros amser.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, er bod y fframwaith statudol yn parhau i ddarparu sylfaen sefydlog ar gyfer darpariaeth llyfrgelloedd, fod cyfyngiadau ar adnoddau sylfaenol yn dylanwadu fwyfwy ar allu gwasanaethau i fodloni pob agwedd ar y fframwaith hwnnw'n gyson.

Heriau i lyfrgelloedd Cymru

Un o'r tueddiadau cliraf a nodwyd yn y dadansoddiad yw'r gostyngiad graddol mewn lefelau staffio ar draws gwasanaethau llyfrgell Cymru yn ystod cyfnod y Chweched Fframwaith. Yn genedlaethol, gostyngodd lefelau staffio llyfrgelloedd tua 12.9%, gyda gostyngiad mwy fyth mewn staff proffesiynol cymwysedig. Digwyddodd y newidiadau hyn yn raddol dros y cyfnod yn hytrach nag o ganlyniad i un digwyddiad.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos perthynas gryf rhwng lefelau staffio a chapasiti gwasanaethau. Er enghraifft, mae lefelau staffio yn dangos cydberthynas gadarnhaol gryf ag oriau agor, gan dynnu sylw at y cysylltiad gweithredol rhwng capasiti'r gweithlu ac argaeledd gwasanaethau.

Ochr yn ochr â newidiadau staffio, gostyngodd nifer y mannau gwasanaeth llyfrgell a chyfanswm yr oriau agor ledled Cymru hefyd. Er bod maint y newidiadau hyn yn amrywio rhwng awdurdodau, mae'r tueddiad cenedlaethol cyffredinol yn awgrymu bod gostyngiad graddol yn seilwaith ffisegol gwasanaethau yn ystod cyfnod y fframwaith. Er gwaethaf hyn, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi parhau i gyflawni'r swyddogaethau craidd a ddisgwylir o fewn fframwaith SLICC.

Tueddiadau ariannol a dyrannu adnoddau

Mae data ariannol yn awgrymu, er bod cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig dros gyfnod y fframwaith, nad oedd y cynnydd hwn yn cynyddu'n unol â chwyddiant. Pan gaiff ei addasu ar gyfer chwyddiant, mae'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau llyfrgell tua 13.5% yn is mewn termau real. Dim ond nifer fach o awdurdodau a brofodd gynnydd termau real mewn gwariant refeniw.

Mae'r pwysau ariannol hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn sawl dangosydd gweithredol. Yn benodol, roedd targedau caffael stoc ymhlith yr anoddaf i wasanaethau eu bodloni. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod cynnal casgliadau cyfredol a buddsoddi mewn adnoddau yn parhau i fod yn her barhaus i lawer o awdurdodau.

Ar yr un pryd, mae buddsoddi mewn adnoddau a seilwaith digidol wedi dod yn gynyddol bwysig. Mae llyfrgelloedd wedi parhau i gefnogi mynediad at wasanaethau digidol, adnoddau ar-lein ac e-lywodraeth.

Effaith y pandemig coronafeirws COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 yn ffactor cyd-destunol pwysig sy'n effeithio ar gyfnod y Chweched Fframwaith. Gwnaeth y pandemig darfu ar y gwaith o gasglu data, lleihau mynediad ffisegol at wasanaethau a mynnu bod gwasanaethau llyfrgell yn addasu'n gyflym i amgylchiadau a oedd yn newid. Cyflymodd y pandemig rai datblygiadau hefyd, gan gynnwys ymgysylltu digidol ac ehangu gwasanaethau ar-lein.

Nid oedd yr adferiad ar ôl cyfnod y pandemig yn gyson ledled y wlad. Er bod rhai gwasanaethau wedi ymadfer yn gymharol gyflym o ran nifer yr ymwelwyr, benthyciadau, digwyddiadau ac yn y blaen, roedd effaith y pandemig yn fwy hirhoedlog mewn

gwasanaethau eraill. Gall ffigurau cenedlaethol amlwg guddio amrywiaeth o brofiadau mewn gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru.

Asesiad cyffredinol

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru wedi parhau i fod yn wydn drwy gydol cyfnod y Chweched Fframwaith a'u bod wedi parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cefnogi blaenoriaethau polisi cenedlaethol a lles cymunedol. Mae llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu gwerth cymdeithasol sylweddol, gan gefnogi dysgu, lles, cynhwysiant a chyfranogiad diwylliannol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod y sector yn gweithredu o fewn adnoddau sy'n fwyfwy cyfyngedig. Mae gostyngiadau mewn lefelau staffio, gostyngiadau mewn mannau gwasanaeth a phwysau ar wariant refeniw yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau llyfrgell. Mae'r effeithiau i'w gweld yn yr heriau cynyddol y mae llawer o wasanaethau llyfrgell yn eu hwynebu o ran bodloni targedau Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd.

Atodiad A: Newidiadau yn y data ynghylch Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd

Nodyn: effeithiwyd ar y data a adroddwyd ar gyfer pob HG a DA i ryw raddau gan y pandemig COVID-19 yn 2019 i 2020, 2020 i 2021 a 2021 i 2022.

Hawliau Craidd

Hawl Graidd 1: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 2: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 3: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 4: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 5: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 6: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn. Mân ddiwygiad ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i fynd i'r afael â materion mewn perthynas â ffioedd gweinyddu.

Hawl Graidd 7: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn. Mân ddiwygiadau ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i nodi bod y ddarpariaeth yn dibynnu ar natur y man gwasanaeth a rhoi 'cyfarpar digidol' yn lle 'cyfrifiaduron'. Yn ymgorffori DA 11 yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025.

Hawl Graidd 8: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 9: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 10: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn.

Hawl Graidd 11: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn. Mân ddiwygiad ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i gynnwys defnyddwyr o bell yn y diffiniad.

Hawl Graidd 12: Adroddwyd amdani ym mhob blwyddyn. Mân ddiwygiad ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i ofyn am gynnwys ddolenni i ddogfennau.

Hawl Graidd 13 Adroddwyd amdani yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025 yn unig.

Dangosyddion ansawdd

Dangosydd Ansawdd 1: Roedd yn ofynnol i wasanaethau gasglu DA 1 unwaith rhwng 2017 i 2018 a 2019 i 2020 ac unwaith rhwng 2022 i 2023 a 2024 i 2025. Mân ddiwygiad ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i egluro'r cyfnod adrodd.

Dangosydd Ansawdd 2: Roedd yn ofynnol i wasanaethau gasglu DA 2 unwaith rhwng 2017 i 2018 a 2019 i 2020 ac unwaith rhwng cyfnod 2022 i 2023 a 2024 i 2025. Mân ddiwygiad ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i egluro'r cyfnod adrodd.

Dangosydd Ansawdd 3: Casglwyd yn 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 a 2022 i 2023 yn unig. Disodlwyd gan HG 13 yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025.

Dangosydd Ansawdd 4: Ni chasglwyd y DA hwn yn 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, nododd y canllawiau y gellid cynnwys digwyddiadau dan arweiniad llyfrgelloedd wedi'u cyflwyno gan sefydliadau partner neu ar y cyd â nhw. O 2023 i 2024 ymlaen, cafodd Presgripsiwn Llyfrau / Llyfrau Llesol eu disodli gan gynllun Darllen yn Well; cafodd sesiynau dementia-gyfeillgar ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl eu disodli gan gategori ehangach o 'wasanaethau eraill fel cymorth iechyd meddwl, cymorth ar gyfer gofalmwyr a grwpiau eraill, gwasanaethau dementia-gyfeillgar'; ychwanegwyd data ar Amseroedd Stori/Amser Rhigwm i Fabanod'. Casglwyd ffigurau benthychiadau Darllen yn Well yn 2023 i 2024 yn unig.

Dangosydd Ansawdd 5: Ni chasglwyd yn 2019 i 2020, 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, bu mân ddiwygiad i eiriad rhan b i gyfeirio at 'diben mynychu', yn hytrach na 'nodau'.

Dangosydd Ansawdd 6: Ni chasglwyd yn 2019 i 2020, 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Mân ddiwygiadau ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i ddiffinio gofynion arbennig a nodi y dylid cynnwys digwyddiadau a gyflwynwyd mewn partneriaeth â sefydliadau.

Dangosydd Ansawdd 7: Casglwyd ym mhob blwyddyn. Mân ddiwygiadau ar gyfer 2023 i 2024 a 2024 i 2025 i gwmpasu Gwasanaethau Llyfrgell yn y Cartref.

Dangosydd Ansawdd 8: Casglwyd ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chasglwyd rhan a yn 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 ni chasglwyd rhannau c, d, e na f. Cafodd rhan a ei dileu yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025. Yn 2023 i 2024, addaswyd targedau caffael i adlewyrchu dwysedd y boblogaeth. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, ychwanegwyd rhan c, sef % y gwariant ar e-adnoddau.

Dangosydd Ansawdd 9: Casglwyd ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chasglwyd rhannau a na b yn 2024 i 2025.

Dangosydd Ansawdd 10: Ni chasglwyd yn 2024 i 2025. Yn 2023 i 2024, casglwyd y targed caffael fel canran o'r gyllideb ddeunyddiau yn unig (nid y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg).

Dangosydd Ansawdd 11: Ni chasglwyd yn 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, cafodd hyn ei gynnwys yn HG 7.

Dangosydd Ansawdd 12: Casglwyd yn 2017 i 2018, 2018 i 2019, 2019 i 2020 a 2022 i 2023 yn unig.

Dangosydd Ansawdd 13: Casglwyd ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, ni chasglwyd rhan iv yn 2019 i 2020, 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, cynyddwyd y targed ar gyfer rhan iv (oriau hyfforddi) o 1% i 2%.

Dangosydd Ansawdd 14: Casglwyd ym mhob blwyddyn. Cafodd rhan c (gwariant cyfalaf) ei dileu yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025.

Dangosydd Ansawdd 15: Casglwyd yn 2017 i 2018, 2018 i 2019 a 2022 i 2023 yn unig.

Dangosydd Ansawdd 16: Ni chasglwyd yn 2020 i 2021 na 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024 a 2024 i 2025, cafodd rhannau a a b (sef cau oherwydd argyfwng/methu mannau aros gwasanaethau symudol) eu dileu.

Atodiad B: Dosbarthiad awdurdodau lleol

Mae [Dosbarthiad Gwledig Trefol \(RUC\)](#) 2021 yn ddull safonedig ar gyfer dosbarthu daearyddiaethau fel rhai gwledig neu drefol, wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â Daearyddiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, DEFRA a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhestr ganlynol yn dangos a yw awdurdodau lleol Cymru wedi'u dosbarthu fel rhai trefol neu wledig yn ôl y dull hwn.

Gwledig

Sir Gaerfyrddin

Ceredigion

Sir Ddinbych

Gwynedd

Ynys Môn

Sir Benfro

Powys

Trefol

Blaenau Gwent

Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili

Caerdydd

Conwy

Sir y Fflint

Merthyr Tudful

Castell-nedd Port Talbot

Casnewydd

Rhondda Cynon Taf

Abertawe

Torfaen

Bro Morgannwg

Wrecsam

Atodiad C: Crynodeb o'r dadansoddiad ystadegol

Tabl C.1: Cyfanswm y staff ac oriau agor

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
r Pearson	0.868	0.863	0.867	0.944	0.943	0.959
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 13 a DASLICC 16

Tabl C.2: Orlau agor a chyfanswm y benthychiadau

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.827	0.825	0.799	0.856	0.847
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell DASLICC 8 a DASLICC 13

Tabl C.3: Gwariant ar adnoddau a chyfanswm y benthychiadau

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.886	0.915	0.921	0.772	0.798	0.775	0.768
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 8, DASLICC 9 a DASLICC 14

Tabl C.4: Cyfanswm y gwariant ar adnoddau a benthychiadau ar gyfer oedolion

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.859	0.868	0.832	0.708	0.711	0.902	0.824
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 8, DASLICC 9 a DASLICC 14

Tabl C.5: Gwariant ar adnoddau i blant a benthyciadau ar gyfer plant

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.804	0.776	0.885	0.656	0.772	0.821	0.862
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 8, DASLICC 9 a DASLICC 14

Tabl C.6: Gwariant ar e-adnoddau a benthyciadau e-adnoddau

	2023 i 2024	2024 i 2025
r Pearson	0.542	0.751
p	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 8, DASLICC 9 a DASLICC 14

Tabl C.7: Cyfanswm y gwariant ar adnoddau a gwariant ar e-adnoddau

	2023 i 2024	2024 i 2025
r Pearson	0.749	0.867
p	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 9 a DASLICC 14

Tabl C.8: Adnoddau yn y Gymraeg a gwariant ar y Gymraeg

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.340	0.768	0.737	0.449	0.634	0.638	0.621
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.05	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 10 a DASLICC 14

Tabl C.9: Gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau trefol/gwledig

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024 ¹
Mann-Whitney U	31.0	21.5	16.0	35.5	29.0	28.0	18.0
p	0.095	<0.05	<0.01	0.172	0.07	0.59	<0.05

Ffynhonnell: DASLICC 10

[1] Amcangyfrif data yn seiliedig ar ganran y gwariant ar adnoddau.

Tabl C.10: Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau trefol/gwledig

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
Mann-Whitney U	26.0	24.0	31.0	34.5	31.5	36.0
p	<0.05	<0.05	0.095	0.218	0.101	0.127

Ffynhonnell: DASLICC16

Tabl C.11: Gwariant ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.785	0.774	0.687	0.492	0.862	0.851	0.827
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.05	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 10

Tabl C.12: Benthyciadau ar gyfer oedolion am bob pen o'r boblogaeth mewn awdurdodau trefol a gwledig

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
Mann Whitney U	22.0	25.0	22.0	31.0	28.0	25.0	21.0
p	<0.05	<0.05	<0.05	0.095	0.059	<0.05	<0.05

Ffynhonnell: DASLICC 8

Tabl C.13: Cyfanswm y benthyciadau a staff cymwysedig

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.575	0.431	0.594	0.177	0.163	0.027	0.125
p	<0.01	<0.05	<0.01	0.216	0.234	0.453	0.578

Ffynhonnell: DASLICC 8 a DASLICC 13

Tabl C.14: Cyfanswm y benthyciadau a chyfanswm y staff

	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020	2020 i 2021	2021 i 2022	2022 i 2023	2023 i 2024
r Pearson	0.667	0.722	0.766	0.811	0.738	0.693	0.611
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 8 a DASLICC 13

Tabl C.15: Newid yn y ddarpariaeth symudol mewn awdurdodau trefol/gwledig

	Newid mewn unedau symudol
Mann Whitney U	47.0
p	0.538

Ffynhonnell: Data cyd-destunol SLICC

Tabl C.16: Cyfanswm y staff a chyfanswm yn mynychu digwyddiadau

	2017 i 2018	2018 i 2019	2022 i 2023	2023 i 2024	2024 i 2025
r Pearson	0.933	0.856	0.763	0.896	0.856
p	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01	<0.01

Ffynhonnell: DASLICC 13 a DASLICC 16

Atodiad D : Hawliau Craidd y Chweched Fframwaith

Hawl Graidd 1: Yn Rhad ac am Ddim ac yn Agored i Bawb

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 2: Staff Gwybodus a Chymwysedig

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 3: Amrywiaeth o Wasanaethau a Gweithgareddau

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden.

Atodiad: Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden a darllen er pleser.

Hawl Graidd 4: Gwasanaethau ar gyfer Anghenion Arbennig

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 5: Mannau Diogel a Hygyrch

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mannau ffisegol diogel, deniadol a hygyrch priodol gydag oriau agor addas dan ofal staff.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 6: Benthycia a Mynediad at Wybodaeth yn Rhad ac am Ddim

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthycia llyfrau am ddim, ac yn cynnig mynediad am ddim at wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 7: Defnydd Rhad Ac Am Ddim o'r Rhyngrwyd a TG

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys WiFi.

Atodiad: Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd gan gynnwys WiFi, a mynediad at gyfarpar digidol, ym mhob man gwasanaeth.

Hawl Graidd 8: Darpariaeth Gymraeg

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 9: Catalog ac Adnoddau i'w Rhannu

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 10: Partneriaeth i Gyflenwi Gwasanaethau Newydd

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 11: Ymgynghori â Defnyddwyr

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 12: Mynediad at y Strategaeth Llyfrgelloedd

Chweched Fframwaith: Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisiâu, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel sy'n briodol i'r gymuned.

Atodiad: Dim newid

Hawl Graidd 13: Cefnogi Sgiliau Digidol (2023 i 2025 yn unig)

Chweched Fframwaith: Ddim yn berthnasol

Atodiad: Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth.